# Adolygiad o'r cyfryngau lleol yn y DU

## Rhan 1: Canfyddiadadau cychwynnol

Cyhoeddwyd 24 Gorffennaf 2024

# Cynnwys

## Adran


1. Overview ........ 3
2. Defining and reviewing local media ........ 9
3. Who makes up the local media sector? ........ 12
4. How are people’s local media choices developing? ........ 23
5. Can local media continue to deliver for audiences? ........ 37
6. Assessing the competition impact from changes to BBC local news ........ 54
7. Next steps ........ 63

# 1. Trosolwg

1.1 Mae cyfryngau lleol yn chwarae rhan werthfawr ym mywydau pobl ledled y Deyrnas Unedig ac yn y gymdeithas yn ehangach. Mae’n golygu pethau gwahanol i ni i gyd, yn dibynnu ar ein cefndir, ein diddordebau personol a lle rydyn ni’n byw. Mae’r ardaloedd daearyddol rydyn ni’n meddwl amdanynt fel rhai lleol hefyd yn amrywio, yn dibynnu ar y stori newyddion neu’r wybodaeth rydyn ni’n chwilio amdani.

1.2 Wrth i’r dirwedd cyfryngau lleol esblygu, mae pryderon bod cynaliadwyedd y sector dan fygythiad a risg na fydd anghenion dinasyddion a defnyddwyr yn cael eu diwallu o bosibl. O gofio am amrywiaeth o ddyletswyddau Ofcom yn y maes hwn, mae’n bwysig ein bod yn cynnal dealltwriaeth gyfredol a chynhwysfawr o’r sector. Gan hynny, fe wnaethom lansio adolygiad dau gam o gyfryngau lleol ddiwedd 2023 a oedd yn rhoi sylw i ffynonellau gwybodaeth a newyddion lleol ar y teledu, radio, print, ar-lein a’r cyfryngau cymdeithasol.

## Diben yr adroddiad interim hwn

1.3 Mae’r adroddiad interim hwn yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid am gynnydd ein hadolygiad. Mae'n adeiladu ar y gwaith sylweddol a wnaed yn flaenorol yn edrych ar gyfryngau lleol, gan gynnwys Adolygiad Cairncross yn 2019 ac ymchwiliad Pwyllgor yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i gynaliadwyedd newyddiaduraeth leol a gyhoeddwyd yn 2023, yn ogystal â llawer o astudiaethau academaidd i’r sector.

1.4 Mae’r adroddiad yn cynnwys cipolwg ar argaeledd cyfryngau lleol, yn enwedig newyddion lleol, ledled y Deyrnas Unedig ac mae’n rhoi cipolwg ar sut mae pobl yn ei ddefnyddio, yn ogystal â chanfyddiadau o’n hymchwil ansoddol newydd ymysg defnyddwyr i gyfryngau lleol yn y Deyrnas Unedig, a’r themâu allweddol sydd wedi dod i’r amlwg o’n trafodaethau â rhanddeiliaid. Mae hefyd yn rhoi rhagor o wybodaeth am y gwaith y byddwn yn ei wneud yn ystod ail gam yr adolygiad, cyn ein cyhoeddiad terfynol ym mis Tachwedd.

1.5 Bydd ein hadroddiad terfynol yn ystyried unrhyw newid y byddwn yn eu nodi a allai gefnogi’r sector yn gadarnhaol, gan gynnwys argymhellion perthnasol. Bydd hefyd yn rhoi sylw manwl i’r argymhellion a wnaed gan y Llywodraeth ym mis Ionawr 2024 yn ei Hadolygiad Canol Tymor o’r BBC. Roedd adroddiad y Llywodraeth yn argymell ein bod yn cyhoeddi ein barn ar sefyllfa’r BBC yn y sector newyddion lleol ac yn nodi ein dull o ystyried effaith newidiadau i wasanaethau newyddion lleol y BBC yn y dyfodol o ran cystadleuaeth.

## Mae ein canfyddiadau cychwynnol yn dangos:

### Rôl a defnydd o gyfryngau lleol

1.6 **Mae gan y cyfryngau lleol rôl hanfodol i’w chwarae o hyd yng ngwead cymdeithasol y Deyrnas Unedig.** Gall cyfryngau lleol, a’r newyddion lleol er budd y cyhoedd y mae’n ei gynhyrchu yn enwedig, helpu i sicrhau manteision pwysig i gymdeithas drwy gefnogi democratiaeth leol a dal cynghorau a sefydliadau lleol eraill i gyfrif. Mae ymchwil yn

awgrymu bod ardaloedd â lefelau uwch o gylchrediad mewn papurau newydd lleol hefyd yn dweud bod mwy o bobl yn pleidleisio mewn etholiadau lleol, a allai awgrymu cysylltiad rhwng argaeledd newyddion lleol ac ymgysylltiad democrataidd cryfach.[1]

1.7 Mae ein hymchwil defnyddwyr ansoddol newydd i gyfryngau lleol yn y Deyrnas Unedig yn dangos bod rhai pobl yn cydnabod y manteision dinesig posibl y gall cyfryngau lleol eu darparu, ond ar y cyfan maent yn tueddu i roi mwy o werth personol ar fuddion uniongyrchol a gwirioneddol newyddion a gwybodaeth o ddydd i ddydd, fel traffig a thywydd. Er ei fod yn llai amlwg, mae pobl hefyd yn gwerthfawrogi gallu'r cyfryngau lleol i roi ymdeimlad o gysylltiad cymunedol iddynt. Mae rhanddeiliaid a chyfranogwyr ymchwil hefyd yn parhau i gysylltu cyfryngau lleol â chyfrannu at economïau lleol a helpu cydlyniant cymdeithasol, gan roi llais i bob rhan o gymunedau lleol. Lle mae gwactod o wybodaeth leol gredadwy, mae'n amlwg y gall camwybodaeth, twyllwybodaeth[2] ac ymrannu[3] ffynnu.

1.8 **Er bod y rhan fwyaf o bobl yn y Deyrnas Unedig yn dal i fod ag awydd am gyfryngau lleol, ac yn dibynnu arnynt, maent bellach yn tueddu i ffafrio ffynonellau cynnwys ar-lein yn hytrach na rhai traddodiadol.** Dangosodd arolwg cyfryngau lleol Ofcom yn 2023 fod 92% o oedolion y Deyrnas Unedig yn defnyddio newyddion neu wybodaeth leol, gyda 89% o'r grŵp hwn bellach yn cael gafael ar hyn ar-lein, gan gynnwys dros hanner drwy gyfryngau cymdeithasol. Mae 53% o oedolion sy'n defnyddio cyfryngau lleol yn defnyddio bwletinau newyddion teledu'r gwledydd neu'r rhanbarthau, mae 34% yn gwrando ar radio lleol a 22% yn darllen fersiynau print o bapurau newydd lleol.

1.9 **Mae canfyddiad a defnydd y cyhoedd o "gyfryngau lleol" yn y Deyrnas Unedig yn hyblyg a chynnil.** Mae'r cwestiwn a yw pobl yn meddwl am blatfform neu le fel rhywbeth "lleol" yn newid, yn dibynnu ar y math o wybodaeth maent yn chwilio amdani. Mae'n bosibl y bydd ardaloedd daearyddol mawr sy'n cael eu gwasanaethu gan newyddion teledu gwledydd/rhanbarthau, hyd at gymdogaethau, pentrefi neu strydoedd sy'n cael eu targedu gan apiau negeseuon neu grwpiau ar-lein hyperleol, i gyd yn cael eu hystyried yn "lleol" gan ddefnyddwyr, mewn gwahanol amgylchiadau. Canfu ein hymchwil newydd y bydd pobl hefyd yn addasu eu dewis o blatfform cynnwys ar sail lefel brys neu gywirdeb y cynnwys sydd ei angen arnynt – gan gyfaddawdu ar eu hymddiriedaeth yng nghywirdeb ffynonellau cyfryngau traddodiadol ar sail cyflymder cyfryngau cymdeithasol neu apiau negeseuon lle mae sefyllfa'n datblygu'n gyflym.

1.10 **Mae ein hymchwil newydd hefyd yn awgrymu bod cyfran o ddefnydd ar-lein defnyddwyr yn oddefol ac yn cael ei sbarduno mwy gan algorithmau na phenderfyniadau personol**, ac mae ein hymchwil newyddion ar-lein yn dangos bod gan blatfformau ar-lein ddylanwad sylweddol dros ddiet newyddion pobl drwy'r ffordd maent yn curadu ac yn cyflwyno erthyglau newyddion. Mae'r canfyddiadau hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a phobl yn meddu ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad i lywio drwy gynnwys lleol.

---

[1] Research into recent dynamics of the press sector in the UK and globally, t.7. Plum Consulting, 2020.
[2] . Addressing the decline of local news, rise of platforms, and spread of mis- and disinformation online: A summary of current research and policy proposals, t.19. David Ardia, Evan Ringel, Victoria Ekstrand ac Ashley Fox, 2020.
[3]. Local News Deserts in the UK: What effect is the decline in provision of local news and information having on communities? gan y Prosiect Newyddiaduraeth Elusennol - Steven Barclay, Steve Barnett, Martin Moore a Judith Townend, 2022.

## Cyflwr y dirwedd cyfryngau lleol

1.11 **Mae'r sector cyfryngau lleol yn wynebu heriau o ran newidiadau yn ymddygiad cynulleidfaoedd a phwysau'n ymwneud â chyllido.** Er bod cynulleidfaoedd yn symud ar-lein, nid yw'r gostyngiad mewn refeniw hysbysebu print a theledu wedi cael ei wrthbwyso gan refeniw hysbysebu digidol, ac mae cyfran ohono'n cael ei ddal gan gyfryngwyr ar-lein. Ar ben hynny, mae ymchwil[4] yn dangos bod parodrwydd i dalu am newyddion a gwybodaeth leol ar-lein yn y Deyrnas Unedig yn isel iawn o'i gymharu â gwledydd eraill, er gwaethaf rhywfaint o awydd am fwy o gynnwys newyddion a phryder ynghylch gostyngiad mewn adroddiadau ymchwiliol. Mae costau cynyddol darparu cyfryngau lleol hefyd wedi creu heriau, yn enwedig o ran cynhyrchu newyddiaduraeth o ansawdd uchel er budd y cyhoedd, sydd eisoes yn ddrud. Mae platfformau technoleg, fel Facebook a Google, hefyd yn chwarae rhan bwysig yn y gadwyn gwerth newyddion, ac mae llawer o ddarparwyr newyddion lleol yn teimlo nad oes llawer o dryloywder ynghylch algorithmau argymell a rhestrau chwilio'r platfformau hyn, sy'n gallu effeithio ar draffig gwefannau.

1.12 **O ganlyniad, mae rhai darparwyr lleol wedi mynd allan o fusnes, ac mae eraill wedi cael eu prynu gan rai grwpiau cyfryngau mawr sydd bellach yn rheoli cyfran fawr o'r sector.** Mae cyfuno wedi arwain at gau rhai safleoedd cyfryngau lleol, ac mae eraill wedi ceisio gwasanaethu ardal ddaearyddol ehangach a/neu leihau adnoddau, gan gynnwys torri swyddi. Mae gan y newidiadau hyn y potensial i wanhau perthnasedd lleol cynnwys, a'r risg o leihau lluosogrwydd newyddion ac ansawdd cynnwys. Er enghraifft, rydym wedi clywed pryderon bod rhai gwasanaethau print ac ar-lein lleol yn dibynnu mwy a mwy ar ddatganiadau i'r wasg a chynnwys 'clickbait' na darnau ymchwiliol, ac nad yw rhai gorsafoedd radio yn teimlo'n lleol o ddifri mwyach.

1.13 **Mae mwy a mwy o bryder am bresenoldeb 'anialdiroedd' neu 'anialwch' newyddion lleol yn y Deyrnas Unedig er bod rhannau o'r sector yn dadlau yn erbyn y rhagosodiad hwn.** Er bod teledu a radio yn dal i ddarparu newyddion ar lefel y gwledydd a'r rhanbarthau (e.e. ar wasanaethau radio gwledydd/rhanbarthau'r BBC), mae adroddiadau nad oes gan rai cymunedau fawr o newyddion lleol penodol, neu ddim newyddion o gwbl, sy'n rhoi sylw i ardaloedd sy'n llai na'u sir neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt. Mae honiadau o'r fath yn aml yn cael eu herio gan ddarparwyr sy'n gweithredu ar ryw lefel yn y cyffiniau. Mae'r ffordd mae rhanddeiliaid yn dehongli'r diffiniad o gyfryngau "lleol" yn y sefyllfaoedd hyn yn debygol o fod yn ffactor pwysig yn y ddadl hon.

1.14 **Mae darparwyr bach neu gymunedol newydd, sy'n awyddus i lenwi bylchau yn y farchnad, yn aml yn ei chael hi'n anodd ffynnu.** Maent yn aml yn dibynnu ar staff rhan-amser, gwirfoddol a llawrydd, yn aml yn dibynnu ar un unigolyn angerddol yn y canol. Mae cwestiynau ynghylch a all allfeydd o'r fath fod yn gynaliadwy ar draws y wlad heb gymorth. Mae'r darparwyr hyn hefyd yn aml yn gweld nad ydynt yn gallu cael gafael ar ffrydiau incwm pwysig a allai helpu i gynnal yr agwedd werthfawr hon ar yr ecosystem cyfryngau lleol, fel cyllid hysbysiadau cyhoeddus[5] a refeniw hysbysebu'r llywodraeth.

---

[4] Ymchwil defnyddwyr ansoddol cyfryngau lleol Ofcom 2024 a Reuters Institute for the Study of Journalism, 2024. Reuters Institute Digital News Report 2024, t.51.

[5] Mae statud yn mynnu bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus am fathau penodol o achosion cyfreithiol, fel ceisiadau cynllunio, mewn papurau newydd print lleol i helpu i dynnu sylw cynulleidfaoedd lleol at hysbysiadau o'r fath. Mae'r arian sy'n cael ei wario gan gynghorau ar hysbysebu'r

1.15 **Yn gyffredinol, mae darparwyr cyfryngau lleol yn derbyn bod yn rhaid iddynt esblygu er mwyn cael dyfodol cynaliadwy.** Mae darparwyr o bob lliw a llun yn chwilio am ffyrdd o ailddyfeisio eu darpariaeth, i ddenu cynulleidfaoedd ac i arallgyfeirio ffrydiau refeniw. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr mwy wedi tueddu i ganolbwyntio ar gyfuno er mwyn sicrhau arbedion maint. Mae rhai yn arloesi; yn cofleidio platfformau dosbarthu mwy newydd a thechnolegau datblygol neu'n arbrofi â'r math o gynnwys maen nhw'n ei ddarparu, yn ogystal â mentro i greu podlediadau, cynnwys fideos a chynnwys sy'n cael ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr. Mae rhai darparwyr wrthi'n buddsoddi mewn cynhyrchu newyddion ffurf hir o safon er budd y cyhoedd i ddenu tanysgrifwyr sy'n talu, neu werthu straeon i deitlau cenedlaethol, yn ogystal â chynnig hyfforddiant, chwilio am grantiau a chyllid dyngarol, ymrwymo i bartneriaethau neu hyd yn oed sicrhau statws elusennol.

1.16 **Mae'r BBC yn parhau chwarae rhan hollbwysig yn ecoleg y cyfryngau lleol.** Mae'r BBC wedi darparu allbwn cyfryngau lleol ers tro byd ar draws teledu, radio ac ar-lein fel rhan o'i rôl i ddarparu ar gyfer pob cynulleidfa. Mae agweddau rhanddeiliaid a'r gynulleidfa at ei allbwn yn amrywio yn ôl platfform. Mae rhai darparwyr masnachol o'r farn bod eu cynnig yn wahanol iawn i arlwy'r BBC neu eu bod yn cyrraedd cynulleidfa amgen. O ganlyniad, mae llawer yn ystyried y BBC yn ffynhonnell newyddion a gwybodaeth ategol sy'n cyfrannu at luosogrwydd yn y dirwedd cyfryngau lleol. Er enghraifft, mae darpariaeth newyddion a materion cyfoes gwledydd/rhanbarthau'r BBC yn cael ei derbyn yn gyffredinol gan randdeiliaid a chynulleidfaoedd fel rhywbeth sy'n cyflawni rôl hanfodol.

1.17 **Fodd bynnag, cynnwys ar-lein lleol y BBC yw'r maes mwyaf dadleuol ar hyn o bryd.** Mae penderfyniad y BBC i gynyddu ei gynnwys newyddion lleol ar-lein wedi golygu bod rhai cyhoeddwyr rhanbarthol yn dadlau bod y BBC yn dyblygu ei allbwn masnachol, gan eu rhoi mewn cystadleuaeth uniongyrchol ar gyfer cynulleidfaoedd a safleoedd chwilio ar-lein, a rhoi pwysau ychwanegol ar eu refeniw. Fodd bynnag, roedd rhanddeiliaid eraill yn teimlo bod newidiadau'r BBC i'w newyddion lleol ar-lein wedi cynyddu lluosogrwydd ac wedi diwallu anghenion cynulleidfaoedd sy'n symud fwyfwy ar-lein. Nododd academyddion rôl bwysig y BBC o ran darparu newyddion diduedd sy'n cael ei gyllido'n gyhoeddus, yn enwedig o gofio am y cynnydd mewn camwybodaeth ar-lein.

1.18 Yn fwy cyffredinol, ar draws y sector, roedd darparwyr yn poeni bod y staff maen nhw'n eu hyfforddi yn gadael eu sefydliadau i ymuno â'r BBC, sy'n awgrymu ei fod yn aml yn gallu cynnig cyflogau mwy. Roedd rhai darparwyr newyddion o bob rhan o'r sbectrwm cyfryngau lleol hefyd yn teimlo y gallai'r BBC chwarae mwy o ran yn cefnogi'r sector lleol ehangach, er bod llawer yn amheus ynghylch defnyddio rhan o ffi trwydded y BBC i gyllido darparwyr cyfryngau lleol eraill. Mae'r BBC yn tynnu sylw at ei fuddsoddiad yn ei allbwn ei hun, ei ymrwymiadau presennol drwy bartneriaethau a'r angen i gydbwyso hyn â'r amrywiaeth eang o rwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus y mae'n rhaid iddo eu cyllido hefyd.

## Cymorth i'r sector

1.19 **Mae nifer o gynlluniau eisoes ar waith i geisio helpu i gryfhau'r ddarpariaeth o newyddion lleol er budd y cyhoedd.** Mae cynlluniau fel Partneriaeth Newyddion Lleol y

hysbysiadau hyn yn gweithredu fel cymhorthdal i bapurau newydd lleol. Gweler adroddiad Pwyllgor yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar gynaliadwyedd newyddiaduraeth leol, tt.19-21.

BBC sy'n cynnwys y Gwasanaeth Gohebu Democratiaeth Leol (LDRS)[6] wedi cael eu sefydlu i helpu i gyllido, sefydlogi a chynnal y ddarpariaeth o gynnwys newyddion er budd y cyhoedd lleol. Mewn mannau eraill, mae rhai sefydliadau cyfryngau hefyd wedi dewis gweithio mewn partneriaeth â phrifysgolion neu gydweithio i gyfuno adnoddau, ac mae mentrau fel y Google News Initiative a'r Prosiect Newyddion Cymunedol hefyd wedi darparu cymorth a chyllid i'r sector.[7]

1.20 **Mae lle i wneud mwy i gefnogi cynaliadwyedd y cyfryngau lleol ac yn enwedig newyddion lleol er budd y cyhoedd**. Mae ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid ar draws y sector wedi dangos bod awydd gan rai i arloesi ymhellach. Mae'n bosibl y bydd mwy o gyfleoedd i gydweithio ar draws platfformau ac i feithrin ymwybyddiaeth y cyhoedd o werth cymdeithasol a dinesig y sector; yn ogystal ag ymyriadau yn y farchnad a allai helpu i ategu cynaliadwyedd yr ecosystem ymhellach a darparu newyddion lleol er budd y cyhoedd. Mae'r meysydd y tynnwyd ein sylw atynt yn cynnwys: gwneud y sefyllfa'n gyfartal ar gyfer darparwyr llai a newydd-ddyfodiaid drwy ailwampio deddfwriaeth sy'n ymwneud â hysbysiadau cyhoeddus; ehangu neu ail-lunio'r LDRS; ailfeddwl am ddyrannu gwariant hysbysebu'r llywodraeth; ei gwneud yn ofynnol i'r BBC wneud mwy i hyrwyddo'r darparwyr lleiaf; cymorthdaliadau wedi eu targedu'n well a mwy o ffocws ar gronfeydd arloesi.

## Y camau nesaf yn yr adolygiad hwn

1.21 Tua diwedd y flwyddyn, byddwn yn cyhoeddi rhan olaf ein Hadolygiad o Gyfryngau Lleol. Dros y misoedd nesaf byddwn yn parhau i wneud y canlynol:

a) edrych ar dueddiadau o ran gwylio newyddion ar-lein ar gyfer darparwyr masnachol a darparwyr y BBC fel rhan o'n gwaith monitro;

b) ystyried cynaliadwyedd sector cyfryngau lleol y Deyrnas Unedig yn gyffredinol yn y dyfodol, a'i allu i ddarparu newyddion lleol er budd y cyhoedd;

c) archwilio'r posibilrwydd o arloesi, ymyrryd a chydweithio i sicrhau bod newyddion a gwybodaeth leol er budd y cyhoedd yn cael eu darparu'n barhaus ledled y Deyrnas Unedig.

1.22 Wrth wneud hynny, byddwn yn defnyddio'r sylfaen dystiolaeth gyfoethog a'r safbwyntiau niferus rydym wedi eu casglu gan randdeiliaid ar gyfer y rhan hon o'r adolygiad. Bydd ein hadroddiad terfynol yn cynnwys:

a) ein hasesiad o unrhyw effaith mae newidiadau diweddar i wasanaethau ar-lein lleol y BBC wedi ei chael, yr ydym yn eu monitro ar hyn o bryd;

b) ein barn ar sefyllfa'r BBC yn y sectorau newyddion lleol;

[6] Mae'r LDRS yn asiantaeth newyddion gwasanaeth cyhoeddus. Mae cyfanswm o 165 o Ohebwyr Democratiaeth Leol yn cael eu cyllido gan ffi trwydded y BBC ac maent yn gweithio mewn sefydliadau newyddion lleol i roi sylw diduedd i fusnes a gwaith rheolaidd awdurdodau lleol a sefydliadau yn y Deyrnas Unedig. Mae eu holl gynnwys yn cael ei greu ar gyfer ac ar gael i'r 1,000 o deitlau cyfryngau a darparwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer y cynllun.

[7] Nod y Prosiect Newyddion Cymunedol yw cefnogi newyddiaduraeth leol o safon a gwella amrywiaeth ystafelloedd newyddion y Deyrnas Unedig. Roedd yn bartneriaeth rhwng Meta, y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Hyfforddi Newyddiadurwyr (NCTJ) a chyhoeddwyr newyddion rhanbarthol, ond rhoddodd Meta y gorau i'w gyllid ar gyfer y prosiect yn 2023.

c) ein dull o ystyried effaith cystadleuaeth ar newidiadau i wasanaethau newyddion lleol y BBC yn y dyfodol.

1.23 Byddwn hefyd yn adeiladu ar y themâu a nodwyd yn yr adroddiad cychwynnol hwn ac yn ystyried unrhyw newid a allai gynorthwyo'r sector yn gadarnhaol, gan gynnwys argymhellion perthnasol.

1.24 Os bydd rhanddeiliaid o'r farn bod pwyntiau neu dystiolaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'r materion hyn nad ydynt eisoes wedi eu cynnwys ym mhenodau dilynol y ddogfen hon neu nad ydynt wedi eu rhannu ag Ofcom yn flaenorol, rydym yn gwahodd cyflwyniadau i localmediareview@ofcom.org.uk erbyn 5pm ar 6 Medi 2024, er mwyn ein galluogi i gynnwys y rhain yn ein hadroddiad terfynol ym mis Tachwedd.

# 2. Diffinio ac adolygu cyfryngau lleol

2.1 Mae gan Ofcom amrywiaeth o ddyletswyddau sy'n berthnasol i gyfryngau lleol, sy'n golygu ei bod yn bwysig ein bod yn cynnal dealltwriaeth glir o gyflwr y sector. Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys goruchwylio perfformiad y BBC o ran cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus a diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol, yn ogystal â hyrwyddo cyflawni dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Wrth gyflawni'r rôl hon, rhaid i ni ddefnyddio ein prif ddyletswyddau i hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, yn ogystal â chyfres ehangach o ddyletswyddau i gynnal lluosogrwydd digonol o ddarparwyr gwasanaethau teledu a radio gwahanol a sicrhau bod amrywiaeth eang o wasanaethau darlledu o ansawdd uchel ar gael. Mae gennym ddyletswydd hefyd i hyrwyddo'r gwaith o gyflawni amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yn ogystal â dyletswyddau sy'n ymwneud â theledu lleol, radio masnachol lleol a gwasanaethau radio cymunedol.

2.2 Gan hynny, fe wnaethom gyhoeddi cylch gorchwyl ym mis Rhagfyr 2023, ar gyfer ein hadolygiad o gyfryngau lleol. Roedd yr Adolygiad Canol Tymor o'r BBC yn argymell ein bod yn cyhoeddi ein barn ar sefyllfa'r BBC yn y sectorau newyddion lleol ac yn nodi ein dull o ystyried effaith newidiadau i newyddion lleol y BBC yn y dyfodol o ran cystadleuaeth. Rydym wedi dewis cynnwys hyn yn ein hadolygiad.

## Beth yw cyfryngau lleol a pham ei fod yn bwysig?

2.3 Gellir diffinio cwmpas a graddfa'r cyfryngau lleol mewn gwahanol ffyrdd. Gall olygu newyddion a materion cyfoes, ond hefyd gwybodaeth am dywydd lleol, traffig a digwyddiadau cymunedol, yn ogystal ag allbwn chwaraeon a chreadigol gan awduron ac artistiaid lleol. Gall darpariaeth cyfryngau lleol hefyd amrywio o ran maint yr ardaloedd daearyddol dan sylw. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn edrych yn bennaf ar gyfryngau lleol drwy lens newyddion a gwybodaeth leol.

2.4 Gall cyfryngau lleol fod yn gyfrwng i graffu ar lywodraethau lleol, sefydliadau, gwasanaethau cyhoeddus a gwleidyddion a'u dwyn i gyfrif am eu penderfyniadau a'u polisïau. Gall hyn ddod yn fwyfwy pwysig wrth i fwy o bŵer gael ei ddatganoli i ffwrdd o San Steffan.[8]

2.5 Mae cyfryngau lleol hefyd yn ffordd bwysig i lawer o gymunedau gael y wybodaeth ddiweddaraf am wybodaeth a digwyddiadau lleol, a all yn eu tro helpu i hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol ac ymgysylltu â'r gymuned. Gall roi llais i bobl o amrywiaeth o gefndiroedd a chredoau, adlewyrchu'r gymuned gyfan yn ôl iddi hi ei hun, a hyrwyddo gwell cyd-ddealltwriaeth. Gallai hefyd ysgogi economïau lleol drwy hyrwyddo busnesau a

[8] Yn 1997, dewisodd pleidleiswyr greu Senedd yr Alban a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Yng Ngogledd Iwerddon, roedd datganoli yn elfen allweddol o Gytundeb Belfast (Dydd Gwener y Groglith) ac fe'i cefnogwyd mewn refferendwm yn 1998 (gweler Datganoli: Taflen ffeithiau). Mae llywodraeth leol yn fater datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r broses o ddatganoli pwerau i lywodraeth leol yn Lloegr wedi bod yn mynd rhagddi ers 2014 ac mae dros 64% o Loegr bellach dan fargen ddatganoli.

digwyddiadau lleol sy'n dod â phobl i ardal. O ganlyniad, mae darpariaeth cyfryngau lleol effeithiol wedi cael ei disgrifio'n flaenorol fel elfen bwysig o'r glud a all helpu i adeiladu a thynnu cymunedau at ei gilydd.

2.6 Mae ffynonellau cyfryngau traddodiadol fel teledu, radio a phrint yn parhau i ddarparu allbwn lleol, ond nawr gall pobl hefyd gael gafael ar gynnwys lleol ar-lein ar draws amrywiaeth eang o wefannau, apiau a phlatfformau cyfryngau cymdeithasol. Mae hyn yn rhoi'r dewis a'r hwylustod i ddefnyddwyr a dinasyddion gael gafael ar wahanol fathau o gynnwys lleol ar wahanol blatfformau, gan ddewis cynnwys sy'n uniaethu â nhw.

2.7 Mae cryn amrywiaeth yn y cyfryngau lleol sydd ar gael ym mhob gwlad a rhanbarth, ac ar gyfer gwahanol gymunedau oddi mewn iddynt, er enghraifft rhwng cymunedau trefol a gwledig, yn ogystal ag ar gyfer pobl o wahanol gefndiroedd ethnig neu grwpiau oedran. O ganlyniad, ceir barn eang am yr hyn sy'n gwneud i gynnwys 'deimlo' yn lleol ac a yw pobl yn teimlo bod eu llais yn cael ei gynrychioli yn eu cyfryngau lleol.

## Dull Ofcom o adolygu cyfryngau lleol

2.8 Ers cyhoeddi ein cylch gorchwyl, rydym wedi gwneud amrywiaeth o waith i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r dirwedd cyfryngau lleol ledled y Deyrnas Unedig. Rydym wedi nodi amrywiaeth eang o ddarparwyr cyfryngau a ffynonellau y gellir eu hystyried yn lleol, gan gydnabod eu bod yn diwallu gwahanol anghenion a dibenion. Mae'r amrywiaeth hwn yn cael ei adlewyrchu yn yr amrywiaeth eang o randdeiliaid rydym wedi siarad â nhw, gan gynnwys darlledwyr teledu a radio, cyhoeddwyr, platfformau ar-lein, cyrff cynrychioladol, grwpiau diddordeb ac academyddion.

2.9 Fe wnaethom hefyd gomisiynu ymchwil defnyddwyr ansoddol i adeiladu ar ein dealltwriaeth o gyfryngau lleol yn y Deyrnas Unedig a'r hyn y mae pobl ei angen ohono ac yn ei werthfawrogi amdano. Gellir darllen hwn yn llawn yn yr adroddiad ymchwil cysylltiedig. Rydym hefyd wedi dadansoddi data perthnasol arall y diwydiant ac ymchwil academaidd.

2.10 Mae'r ddogfen hon yn nodi ein canfyddiadau rhagarweiniol ar sail y gwaith hwn, gan gynnwys ciplun o'r cyfryngau lleol sydd ar gael ledled y Deyrnas Unedig a gwybodaeth am sut mae pobl yn ei ddefnyddio ac yn ymgysylltu ag ef. Rydym wedi nodi heriau sy'n wynebu'r sector o ran cynnal eu cynigion lleol, sydd â goblygiadau o ran sut mae cyfryngau lleol yn darparu ar gyfer defnyddwyr a dinasyddion – nawr ac yn y dyfodol. Mae rhai o'n canfyddiadau'n ymwneud yn uniongyrchol â rôl Ofcom, tra bo eraill yn fwy perthnasol.

2.11 Rydym hefyd yn egluro yn y ddogfen hon sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r argymhellion a nodir yn Adolygiad Canol Tymor y Llywodraeth. Rydym yn rhoi trosolwg o'r fframwaith asesu rydym yn ei ddefnyddio i ystyried effaith y newidiadau mae'r BBC yn eu gwneud i'w wasanaethau newyddion lleol ar gystadleuaeth, ac rydym yn disgrifio'r gwaith pellach y byddwn ni'n ei wneud i fynd i'r afael â'r argymhelliad gan y Llywodraeth – mae hyn yn cynnwys ein gwaith o fonitro newyddion lleol ar-lein.

2.12 Bydd ein hadroddiad terfynol yn nodi ein barn ar sefyllfa'r BBC yn y sectorau newyddion lleol ar gyfer teledu, radio ac ar-lein, ac yn nodi ein man cychwyn ar gyfer ystyried yr effaith ar gystadleuaeth ar gyfer unrhyw newidiadau y bydd y BBC yn eu gwneud i wasanaethau newyddion lleol yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn edrych ymhellach ar y pynciau a nodwyd yn ein canfyddiadau cychwynnol (gan gynnwys y rheini o adolygiadau


blaenorol) ac yn nodi unrhyw argymhellion y gallem benderfynu eu gwneud mewn perthynas â'r dirwedd cyfryngau leol ehangach yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys sut gellid bwrw ymlaen â'r rhain.

# 3. Pwy sy'n rhan o'r sector cyfryngau lleol?

## Mae amrywiaeth eang o ddarparwyr cyfryngau lleol ledled y Deyrnas Unedig, gan gynnwys teledu, radio, print ac ar-lein

3.1 Fel y nodir yn Adran 2, mae cynnwys lleol ar gael gan amrywiaeth o ddarparwyr gwahanol ar draws amrywiaeth o blatfformau. Mae hefyd yn cael ei gynnig ar nifer o wahanol 'haenau' daearyddol lleol, yn amrywio o allbwn hyperleol ar gyfer strydoedd a chymdogaethau ar ei fwyaf gronynnog, hyd at gynnwys sydd wedi ei anelu at ranbarthau neu genhedloedd cyfan. Mae Ffigur 1 yn rhoi darlun nad yw'n hollgynhwysol o hyn.

**Ffigur 1: Ciplun dangosol ac heb fod yn gynhwysfawr o haenau'r ddarpariaeth cyfryngau lleol yn y Deyrnas Unedig**



# Darpariaeth yn ôl Platfform

## Teledu

### Mae'n rhaid i wasanaethau'r BBC a Channel 3 ddarparu rhaglenni newyddion ar y teledu ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau

3.2 Mae Trwydded Weithredu'r BBC yn mynnu bod y BBC yn darparu, ar draws BBC One a BBC Two gyda'i gilydd, raglenni sydd o Ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol,[9] gan gynnwys rhaglenni newyddion rhanbarthol.[10] Mae'r Drwydded Weithredu hefyd yn mynnu bod y BBC yn darparu newyddion ar BBC Scotland, a newyddion a materion cyfoes ar BBC One Scotland, BBC One Wales a BBC One Northern Ireland. Mae gan y BBC 12 rhaglen newyddion rhanbarthol ar wahân yn Lloegr,[11] a rhaglenni ar lefel y gwledydd ar gyfer yr Alban (*Reporting Scotland* a *The Nine*[12]), Cymru (*BBC Wales Today*) a Gogledd Iwerddon (*BBC Newsline*). Yn ystod yr wythnos, mae bwletinau byr rheolaidd *BBC Breakfast* ar BBC One ar gyfer pob gwlad/rhanbarth, gyda bwletinau mwy o'r gwledydd/rhanbarthau ar ôl *BBC One O'Clock News* a rhaglen hanner awr ar ôl *BBC Six O'Clock News*, yn ogystal â bwletinau byr y gwledydd/rhanbarthau ar ôl *BBC News at Ten.* Ar benwythnosau, mae rhaglenni newyddion y gwledydd/rhanbarthau yn ymddangos ochr yn ochr â rhaglenni newyddion rhwydwaith ledled y Deyrnas Unedig. Mae'r BBC hefyd yn darparu rhaglenni gwleidyddiaeth ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a 12 rhanbarth yn Lloegr, a ddarlledir fer arfer am 10:00 ar ddydd Sul.

3.3 Mae'r Drwydded Weithredu hefyd yn mynnu bod y BBC, mewn perthynas â BBC Alba, yn darparu rhaglenni newyddion byw gyda'r nos yn ystod yr wythnos, gan gynnwys yn ystod oriau gwylio brig, yn ogystal ag adolygiad newyddion hirach dros y penwythnos.[13]

3.4 Mae Trwyddedau Rhanbarthol Channel 3 yn mynnu bod rhaglenni newyddion rhanbarthol yn cael eu darparu ar draws y gwledydd a rhanbarthau Lloegr. Mae trwyddedau newyddion gwledydd a rhanbarthau ITV yn cynnwys 18 o wasanaethau gwledydd, rhanbarthau ac is-ranbarthau ledled Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, de'r Alban ac Ynysoedd y Sianel.[14] Mae bwletinau gwledydd/rhanbarthau yn ymddangos dair

---

[9] Mae paragraff 5.1 y Drwydded Weithredu yn datgan bod rhaglen o "Ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol" os yw: (a) mae o ddiddordeb arbennig i bobl sy'n byw yn unrhyw un o'r gwledydd neu'r rhanbarthau canlynol – (i) Gogledd Iwerddon; (ii) yr Alban; (iii) Cymru; (iv) unrhyw ranbarth yn Lloegr y mae amrywiad rhanbarthol ar y gwasanaeth teledu dan sylw; a (b) mae wedi ei chynnwys yn yr amrywiad i'r gwasanaeth sy'n ymwneud â'r wlad neu'r rhanbarth hwnnw.

[10] Mae amod 4.31 y Drwydded yn cynnwys y canlynol: "Mewn perthynas â BBC One a BBC Two gyda'i gilydd, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau: ym mhob Blwyddyn Galendr, bod o leiaf 5,000 o oriau'n cael eu neilltuo i raglenni sydd o Ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol; bod y rhaglenni hynny'n cynnwys amrywiaeth addas o raglenni (gan gynnwys rhaglenni newyddion rhanbarthol); ...".

[11] 12 rhaglen newyddion rhanbarthol y BBC yw North West Today/Tonight, Look North (Swydd Efrog), Look North (Dwyrain Swydd Efrog a Swydd Lincoln), Look North (Gogledd-ddwyrain Lloegr a Cumbria) Midlands Today, Points West, East Midlands Today, South Today, South East Today, Look East, London, and Spotlight (yn cwmpasu De-orllewin Lloegr). Mae'r BBC hefyd yn darparu rhaglen newyddion ranbarthol ar gyfer Ynysoedd y Sianel.

[12] Ym mis Chwefror, cyhoeddodd y BBC ei fwriad i newid ei arlwy newyddion yn yr Alban a fyddai'n golygu bod rhaglen *The Nine* yn cael ei disodli gan raglen newyddion newydd ar sianel BBC Scotland. Ymgynghorodd Ofcom ar ei benderfyniad i gytuno dros dro ar y newid cysylltiedig i'r Drwydded Weithredu ym mis Mai 2024.

[13] Amod 4.48 o'r drwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y Deyrnas Unedig.

[14] Y trwyddedau a'r is-ranbarthau hyn yw Anglia (Dwyrain a Gorllewin), Central (Dwyrain Canolbarth Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr), Llundain, y Gororau, Meridian (Dwyrain, De a Dyffryn Tafwys), Granada, Tyne

gwaith yn ystod *Good Morning Britain* yn ystod yr wythnos ac mae prif raglen newyddion rhanbarthol yn gynnar gyda'r nos ITV yn ystod yr wythnos yn darparu bwletinau newyddion hanner awr gan bob un o'r 18 gwasanaeth rhanbarthol. Mae newyddion rhanbarthol hefyd yn ymddangos ochr yn ochr â newyddion cenedlaethol a rhyngwladol ITV amser cinio ac *ITV News at Ten*, yn ogystal â bwletinau 15 munud yn gynnar gyda'r nos ar benwythnosau. Mae ITV hefyd yn darparu rhaglen materion cyfoes bob nos Wener am 19:00 ar gyfer pob gwlad.

3.5 Mae STV yn darparu newyddion cenedlaethol i'r Alban (STV News) yn y prynhawn a gyda'r nos bob dydd yn ystod yr wythnos ac ar benwythnos gyda'r nos ar draws yr Alban. Mae STV hefyd yn darparu newyddion rhanbarthol drwy ei brif raglen newyddion *STV News at Six*, sydd wedi ei rhannu'n rhaglenni ar gyfer STV North, sy'n dod o Aberdeen, ac STV Central, sy'n dod o Glasgow. Mae pob un o'r rhaglenni hyn yn cynnwys gwasanaeth optio allan pum munud, gyda gwasanaeth optio allan STV North yn gwasanaethu Aberdeen neu Dundee a gwasanaeth optio allan STV Central yn cwmpasu Glasgow neu Gaeredin, yn dibynnu o ble mae'r gynulleidfa'n gwylio. Mae STV hefyd yn darlledu *Scotland Tonight*, rhaglen newyddion a materion cyfoes yn yr Alban, ddydd Llun i ddydd Iau.

## Mae S4C yn darparu rhaglenni newyddion Cymraeg sy'n rhoi sylw i newyddion Cymru, y Deyrnas Unedig a rhyngwladol

3.6 Mae gan S4C gwotâu blynyddol i ddarparu rhaglenni newyddion a materion cyfoes cenedlaethol (Cymru a'r Deyrnas Unedig) a rhyngwladol, yn ystod y dydd ac yn ystod oriau brig.[15] Yn ystod yr wythnos, mae *Newyddion S4C* fel arfer yn darlledu bwletinau pedwar, pum munud o hyd drwy gydol y prynhawn a gyda'r nos, gyda bwletin hirach 30 munud yn cael ei ddangos fel arfer am 19:30. Ar benwythnosau, mae fel arfer yn darlledu bwletin 15 munud gyda'r nos, sy'n rhoi sylw i newyddion a chwaraeon. Fel rhan o'r cytundeb strategol rhwng y BBC ac S4C, mae BBC Cymru Wales yn darparu tua 10 awr o raglenni yr wythnos ar gyfer S4C, sy'n cynnwys y newyddion ond hefyd rhaglenni eraill fel y rhaglen sebon ddyddiol Pobol y Cwm. Mae S4C hefyd yn darlledu rhaglenni materion cyfoes *Y Byd ar Bedwar* ac *Y Byd Yn Ei Le* drwy gydol y rhan fwyaf o'r flwyddyn, yn ogystal â rhaglenni ychwanegol ar gyfer etholiadau'r Senedd a San Steffan.

## Mae 34 o orsafoedd teledu lleol ar yr awyr yn y Deyrnas Unedig

3.7 Mae gan bob gorsaf deledu leol ymrwymiadau rhaglenni y gellir eu gorfodi, gan gynnwys i ddarparu newyddion a materion cyfoes lleol. Mae faint o raglenni lleol sydd eu hangen yn amrywio rhwng gwahanol drwyddedeion, o saith awr yr wythnos hyd at 37 awr yr wythnos. Ym mis Mawrth 2024, ar ôl ymarfer monitro i ddeall sut roedd trwyddedeion yn cyflawni eu hymrwymiadau rhaglennu, cyhoeddodd Ofcom nodyn atgoffa i drwyddedeion teledu lleol yn amlinellu ein disgwyliadau ar gyfer gwasanaethau teledu lleol. Roedd hyn yn cynnwys canllawiau ar sut gallant sicrhau eu bod yn cyflawni eu rhwymedigaethau ac yn darparu gwasanaeth sy'n bodloni'r meini prawf statudol.

3.8 Mae cyfuno'r sector yn golygu bod 28 o'r 34 trwydded bellach, fel y dangosir yn Ffigur 2, yn cael eu dal gan ddau drwyddedai (That's TV Broadcasting Limited and Local TV


---

Tees, Gorllewin Lloegr (De Orllewin Lloegr a Gorllewin Lloegr), Swydd Efrog a Swydd Lincoln (Dwyrain a Gorllewin), Cymru, UTV a Channel TV.

[15] Cwotâu blynyddol S4C ar gyfer newyddion cenedlaethol a rhyngwladol yw 200 awr (drwy'r dydd) a 150 awr (oriau brig). Ar gyfer materion cyfoes, ei gwotâu yw 60 awr (drwy'r dydd) a 30 awr (oriau brig). Gweler Ofcom, 3 Awst 2023. Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus.

Limited). Mae'r ddau rwydwaith yn darlledu cyfres o raglenni cenedlaethol ar draws eu holl orsafoedd, wedi eu hategu gan raglenni lleol ar gyfer pob gwasanaeth lleol ar wahanol adegau o'r dydd. Mae'r cynnwys lleol sy'n cael ei ddarlledu ar deledu lleol yn cynnwys bwletinau newyddion lleol i raddau helaeth, er bod rhai trwyddedeion hefyd yn dangos rhaglenni lleol eraill, fel chwaraeon a'r celfyddydau.

**Ffigur 2: Map o orsafoedd teledu lleol ledled y DU, gan gynnwys darpariaeth**




3.9 Mae gorsafoedd teledu lleol yn cael eu darlledu i tua 55% o gartrefi ledled y Deyrnas Unedig, er bod y ddarpariaeth yn amrywio yn ôl ardal. Er enghraifft, mae London Live ar gael mewn tua phedwar miliwn o gartrefi, ac mae'r drwydded teledu lleol ar gyfer Salisbury yn cynnwys tua 27,000 o gartrefi.

# Radio

## Mae'n rhaid i'r BBC ddarparu cynnwys radio ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau

3.10 Mae Trwydded Weithredu'r BBC yn ei gwneud yn ofynnol i bob gorsaf radio leol y BBC ar gyfer rhanbarthau Lloegr ddarlledu bwletinau newyddion a gwybodaeth sy'n arbennig o berthnasol i'r ardal a'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu yn rheolaidd drwy gydol y dydd, gan gynnwys swm sylweddol o newyddion a gwybodaeth berthnasol yn ystod oriau

brig amser brecwast.[16] Yn Lloegr, mae gan y BBC 39 o orsafoedd radio lleol ar hyn o bryd, yn ogystal â gorsafoedd ar gyfer Guernsey a Jersey.

3.11 Mae'r BBC hefyd yn darparu gwasanaethau radio cenedlaethol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r Drwydded Weithredu yn mynnu bod BBC Radio Scotland yn darparu bwletinau newyddion drwy gydol y dydd, a nifer o raglenni optio allan rhanbarthol bob diwrnod o'r wythnos, sy'n cynnig newyddion, chwaraeon a gwybodaeth, a rhywfaint o raglenni cymunedol rhanbarthol gyda'r nos. Mae BBC Radio Shetland a BBC Radio Orkney, sy'n darparu rhaglenni lleol fel rhan o amserlen ehangach BBC Radio Scotland, hefyd yn darlledu bwletinau newyddion drwy gydol y dydd. Mae gorsaf Gaeleg yr Alban BBC Radio nan Gàidheal hefyd ar gael ledled yr Alban a rhaid iddi ddarparu newyddion yn rheolaidd drwy gydol y dydd. Mae BBC Radio Ulster ar gael yng Ngogledd Iwerddon, gyda gwasanaeth optio allan[17] (BBC Radio Foyle) ar gael yn ardal Foyle. Rhaid i'r ddau wasanaeth ddarparu bwletinau newyddion yn rheolaidd drwy gydol y dydd. Yng Nghymru, mae'r BBC yn darparu BBC Radio Wales a BBC Radio Cymru, ac mae'n rhaid i'r ddau ddarparu bwletinau newyddion yn rheolaidd drwy gydol y dydd. Ym mis Ionawr 2024, cymeradwyodd Ofcom gynnig y BBC i ymestyn nifer yr oriau Cymraeg gwreiddiol a gynigir gan BBC Radio Cymru 2, fel ei fod yn dod yn Wasanaeth Cyhoeddus newydd yn y Deyrnas Unedig. BBC Radio Cymru 2, sy'n cael ei darlledu ledled Cymru ar DAB, ac mae'n rhaid iddo ddarparu bwletinau newyddion dyddiol a rheolaidd o ddydd Llun i ddydd Sadwrn a bwletinau newyddion dyddiol ar ddydd Sul.

3.12 Ym mis Hydref 2022, cyhoeddodd y BBC newidiadau arfaethedig i'w wasanaethau radio lleol yn Lloegr.[18] Roedd yn cyflwyno mwy o rannu rhaglenni ar radio lleol ar adegau o'r dydd pan mae'r nifer sy'n gwrando yn is, gan ddiogelu gwasanaethau bwletinau newyddion lleol drwy gydol y dydd ar bob gorsaf leol, yn ogystal â chynnal rhaglenni chwaraeon byw. Dechreuodd y BBC wneud y newidiadau hyn o fis Medi 2023 ymlaen, sydd bellach wedi eu cwblhau, gan gyhoeddi gwybodaeth am y newidiadau a'r amserlenni newydd wrth iddynt gael eu lansio. Fel y nodir yn ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC yn 2023, byddwn yn parhau i fonitro effaith y newidiadau hyn i radio lleol y BBC ar wrandawyr, ac rydym yn bwriadu cynnwys canfyddiadau cychwynnol o'r gwaith monitro hwn yn ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC yn 2024.

## Mae bron i 250 o wasanaethau radio masnachol analog lleol trwyddedig yn darlledu ledled y Deyrnas Unedig, gyda llawer o wasanaethau digidol ar gael hefyd

3.13 Mae'r sector radio masnachol lleol wedi cael ei gyfuno'n sylweddol ers dechrau'r 1990au, gyda'r ddau grŵp radio masnachol mwyaf – Global a Bauer – bellach yn dal tua 60% o'r 247 o drwyddedau analog lleol. Mae'r ddau grŵp mawr hyn yn rhwydweithio'n eang, gyda llawer o orsafoedd lleol yn darlledu o dan yr un enwau brand (fel Heart, neu Greatest Hits Radio) ac yn rhannu'r rhan fwyaf o'r un rhaglenni cerddoriaeth. Darperir y

[16] Mae'r Oriau Gwylio Brig Amser Brecwast ar radio lleol yn Lloegr yn golygu rhwng 7:00 a 08:30 o ddydd Llun i ddydd Gwener.
[17] Mae optio allan yn cyfeirio at adegau pan fydd gwlad neu ranbarth yn gwahanu oddi wrth y prif allbwn rhwydwaith neu genedlaethol.
[18] Cyhoeddodd y BBC ddiweddariad ar ei gynlluniau ym mis Ionawr 2023.


gorsafoedd hyn trwy drosglwyddyddion lleol, ac arnynt mae cynnwys cenedlaethol gyda newyddion, gwybodaeth a hysbysebion lleol wedi'u mewnosod.

3.14 Mae gweddill y sector yn cynnwys rhwydweithiau llai yn bennaf, fel Nation Broadcasting, sy'n gweithredu sawl gwasanaeth, gyda nifer ohonynt yng Nghymru; Into Media Group, sy’n darparu nifer o wasanaethau ledled Gogledd Iwerddon; a Lyca, sy’n darparu cynnwys ar gyfer cynulleidfaoedd Asiaidd Prydeinig. Mae rhai gorsafoedd lleol annibynnol hefyd, sy’n fwy cyffredin mewn ardaloedd gwledig a rhannau o’r Alban, fel Argyll FM, sy’n gwasanaethu Kintyre, Islay a Jura, ac Original 106 a Kingdom FM sy'n cael eu gweithredu gan DC Thomson yng ngogledd-ddwyrain yr Alban. Mae’r gorsafoedd lleol llai hyn, gyda’i gilydd, yn cyrraedd tua 6.9% o boblogaeth y Deyrnas Unedig, o’i gymharu â 22.9% ar gyfer gwasanaethau lleol Bauer a 30.4% ar gyfer gwasanaethau lleol Global.[19]

3.15 Mae gan Ofcom ddyletswydd benodol i sicrhau bod gorsafoedd analog lleol yn parhau i ddarparu rhaglenni sy’n cael eu gwneud yn lleol a newyddion a gwybodaeth leol, er y bydd y Ddeddf Cyfryngau yn newid y ddyletswydd hon pan ddaw i rym.[20]

3.16 Mae’r rhan fwyaf o orsafoedd radio masnachol lleol sy’n darlledu ar radio digidol DAB yn gyd-ddarllediadau o wasanaethau analog, er bod sefydlu DAB ar raddfa fach yn ddiweddar wedi arwain at wasanaethau lleol newydd yn dod i’r amlwg.

**Ffigur 3: Mapiau sy’n dangos cwmpas bras gorsafoedd radio masnachol lleol sy’n eiddo i Bauer (coch), Global (glas) a gorsafoedd radio masnachol eraill (gwyrdd)**




*Ffynhonnell: Mediatel. Mae cysgod tywyll yn dangos bod mwy nag un orsaf yn gorchuddio’r ardal honno. Sylwer: mae hyn yn cynnwys gorsafoedd sydd â thrwyddedau lleol sy’n defnyddio enw brand cenedlaethol ond sydd â chynnwys sy’n berthnasol yn lleol (hynny yw Capital, Heart, Smooth, Radio X ar gyfer Global a Greatest Hits Radio, Hits Radio, Free Radio, KISS a Magic London ar gyfer Bauer).*

[19] RAJAR; Ch4 2023; Oedolion 15 a hŷn.

[20] O dan y Ddeddf Cyfryngau, ni fydd yn ofynnol mwyach i orsafoedd ddarlledu rhaglenni lleol fel y maent ar hyn o bryd, ond bydd yn rhaid iddynt ddarlledu newyddion a gwybodaeth leol yn rheolaidd, a rhaid iddynt gynnwys newyddion sydd wedi ei gasglu’n lleol. Mae Ofcom yn bwriadu ymgynghori ar ei gynlluniau ar gyfer rhoi’r mesurau hyn ar waith, gan gynnwys canllawiau ac amodau trwydded newydd, yn nes ymlaen eleni.

### Mae rhai cynulleidfaoedd hefyd yn cael eu gwasanaethu gan orsafoedd radio cymunedol

3.17 Sefydlwyd y sector radio cymunedol yn 2005. Mae gorsafoedd radio cymunedol fel arfer yn gwasanaethu ardal ddaearyddol fach ac yn cael eu rhedeg ar sail dim-er-elw. Fe'u cynlluniwyd i fod yn wasanaethau lleol i wasanaethu pobl leol, naill ai cymuned ddaearyddol neu gymuned fuddiant, fel grwpiau ethnig neu oedran penodol, a dylai rhaglenni adlewyrchu anghenion a diddordebau'r gymuned.[21] Gall gorsafoedd hefyd greu manteision cymunedol fel newyddion a thrafodaethau cymunedol, cyfleoedd gwirfoddoli a hyfforddi a all hefyd gyfrannu at y llif o dalent ar gyfer y sector ehangach. Gall y Gronfa Radio Cymunedol ddarparu cyllid i helpu gyda chostau craidd rhedeg gorsaf radio gymunedol sydd wedi ei thrwyddedu gan Ofcom, gan gynnwys cyllid ar gyfer allgymorth cymunedol. Ar hyn o bryd mae 309 o orsafoedd radio cymunedol analog – 255 yn Lloegr, 30 yn yr Alban, 15 yng Ngogledd Iwerddon a naw yng Nghymru. Mae cyflwyno amlblecsau DAB ar raddfa fach yn ddiweddar wedi caniatáu ar gyfer lansio gorsafoedd radio cymunedol digidol newydd – 30 yn Lloegr, pump yn yr Alban, a dau yng Ngogledd Iwerddon a Chymru.

## Print ac ar-lein

### Mae nifer y papurau newydd lleol sydd mewn print wedi gostwng yn sylweddol dros y ddau ddegawd diwethaf

3.18 Mae llawer o gynulleidfaoedd wedi troi at ffynonellau ar-lein ar gyfer newyddion a gwybodaeth leol, ac mae’r gostyngiad mewn cylchrediad print a refeniw hysbysebu wedi rhoi pwysau sylweddol ar deitlau print traddodiadol. Mae amcangyfrifon yn awgrymu bod colled net o 271 o deitlau print lleol rhwng 2005 a 2022. Fodd bynnag, mae’n ymddangos bod cyfradd y gostyngiad wedi arafu dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae cynnydd wedi bod mewn safleoedd newyddion lleol digidol, gydag o leiaf 41 wedi cael eu lansio rhwng mis Medi 2020 a mis Gorffennaf 2022.

### Mae llawer o gyhoeddwyr bellach yn darparu newyddion a gwybodaeth leol mewn print, ar-lein neu’r ddau

3.19 Ar draws deunydd print ac ar-lein, mae Cynghrair Diwygio'r Cyfryngau (MRC) yn amcangyfrif bod bron i 1,200 o deitlau papurau newydd print neu ar-lein lleol ar gael yn y Deyrnas Unedig. O blith bron i 1,200 o deitlau lleol, mae MRC yn amcangyfrif bod y tri chyhoeddwr mwyaf – Newsquest, Reach plc a National World – yn cynrychioli dros hanner (57%) yr holl deitlau lleol a rhanbarthol yn y Deyrnas Unedig, gyda 680 o deitlau rhyngddynt. Mae’r cyhoeddwyr hyn yn gweithredu nifer fawr o deitlau print, ond maent hefyd wedi lansio gwefannau newyddion lleol ar-lein, wedi eu cyllido gan gymysgedd o fodelau hysbysebu a thanysgrifio, ac mae rhai gwefannau hefyd yn mynnu bod defnyddwyr yn creu cyfrif am ddim i weld straeon yn llawn. Mae Reach plc yn gweithredu brandiau ar-lein fel Wales Online, Belfast Live a Manchester Evening News, tra bod ‘World Network’ National World yn cynnwys gwefannau ar-lein ar gyfer Bryste, Glasgow, Lerpwl, Llundain, Manceinion a Newcastle. Mae Newsquest hefyd yn gweithredu amrywiaeth o deitlau ar-lein ledled y Deyrnas Unedig.

---

[21] Nodwyd pwysigrwydd radio cymunedol yn adroddiad Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ’r Cyffredin, Darlledu yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2023.

3.20 Mae’r farchnad cyfryngau lleol yn y Deyrnas Unedig hefyd yn cynnwys cyhoeddwyr llai sy’n gweithredu ar draws darpariaeth print ac ar-lein fel Iliffe Media, sydd â 63 o deitlau ar draws De-ddwyrain Lloegr, Dwyrain Lloegr, East Anglia a Chanolbarth Lloegr, a Tindle Newspapers, sydd â 55 o deitlau ledled Cymru a Lloegr.[22] Mae cyhoeddwyr rhanbarthol eraill yn cynnwys DC Thomson, sy'n gweithredu yng Ngogledd-ddwyrain yr Alban yn bennaf, ac Alpha Newspaper Group, sy'n cyhoeddi nifer o deitlau ar draws Gogledd Iwerddon.

3.21 Mae nifer o deitlau bach a lleol iawn annibynnol ar gael ledled y Deyrnas Unedig hefyd. Er enghraifft, mae’r Manchester Mill, papur newydd ar-lein a lansiwyd yn 2020, yn darparu cymysgedd o gynnwys am ddim a thanysgrifio sy’n cwmpasu Manceinion Fwyaf, ac mae The Ferret yn darparu newyddiaduraeth ymchwiliol ar gyfer yr Alban, a gyllidir gan gefnogwyr sy’n talu. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys Nub News, sy’n gweithredu rhwydwaith o wefannau newyddion lleol iawn mewn dros 150 o drefi ledled y Deyrnas Unedig a gefnogir gan hysbysebion a Phapurau Bro, rhwydwaith o bapurau cymunedol Cymraeg lleol iawn sy’n darparu newyddion a gwybodaeth sy’n gwbl leol. Mae Golwg 360 a Nation Cymru hefyd yn darparu newyddion ar-lein yng Nghymru, sy'n cael cymorth anuniongyrchol drwy gyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae llawer o weithrediadau unigol hefyd, sy’n aml yn cael eu rhedeg yn wirfoddol ar sail ran-amser gan bobl sy’n byw mewn ardal leol.

## Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn darparu newyddion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol drwy eu gwefannau a’u apiau

3.22 Mae ITV yn darparu newyddion ar-lein ar gyfer ei ardaloedd rhaglenni newyddion yn y gwledydd/rhanbarthau, ac mae gan lawer o wasanaethau newyddion y gwledydd/rhanbarthau hefyd bodlediad sy’n canolbwyntio ar straeon yn yr ardal. Mae gan STV safleoedd rhanbarthol ar gyfer Glasgow a Gorllewin yr Alban, Caeredin a Dwyrain yr Alban, Gogledd Ddwyrain yr Alban a Tayside ac Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban. Mae S4C hefyd yn darparu newyddion Cymraeg ar-lein sy’n rhoi sylw i newyddion Cymru, y Deyrnas Unedig a rhyngwladol. Mae hefyd yn darparu deunydd materion cyfoes ffurf-fer ar gyfer ei blatfform *Hansh Dim Sbin* ar draws y cyfryngau cymdeithasol ac ar gyfer gwasanaethau newyddion digidol S4C, mewn partneriaeth ag ITV Cymru Wales.

3.23 Mae’r BBC yn darparu newyddion ar-lein ar gyfer pob gwlad, gan gynnwys allbwn Gaeleg yr Alban a Chymraeg.[23] Mae un ardal newyddion neu “mynegai” ar gyfer Gogledd Iwerddon, ac mae newyddion ar-lein yn cael ei ddarparu ar gyfer chwe ardal mynegai yn yr Alban a phum ardal mynegai yng Nghymru. Mae Lloegr wedi ei rhannu’n naw rhanbarth, pob un wedi ei rhannu’n ardaloedd llai gyda chyfanswm o 46 mynegai. Er enghraifft, mae rhanbarth Dwyrain Canolbarth Lloegr yn cynnwys mynegeion ar gyfer Derby, Caerlŷr, Swydd Northampton a Nottingham. Fel rhan o’i gynlluniau i wella ei wasanaethau lleol, mae’r BBC wedi lansio pedwar mynegai newydd yn ddiweddar sy’n cynnwys Bradford, Wolverhampton, Wear a Peterborough. Mae canolfannau cenedlaethol a rhanbarthol y BBC hefyd yn cynhyrchu podlediadau lleol ar gyfer BBC Sounds, sy’n cynnwys rheilen ‘lleol i mi’ sy’n darparu cymysgedd pwrpasol o gynnwys sy’n unigryw i ardal leol y defnyddwyr.

[22] Media Reform Coalition, 2023. Who owns the UK Media?, t.16.
[23] Mae’r BBC hefyd yn darparu newyddion lleol ar-lein ar gyfer Dibyniaethau’r Goron – Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel (wedi eu rhannu i Jersey a Guernsey).

## Dros y blynyddoedd diwethaf, mae newyddion a gwybodaeth leol wedi dod ar gael fwyfwy ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar blatfformau technoleg eraill

3.24 Mae llawer o ddarparwyr cyfryngau lleol yn bresennol ar wefannau cyfryngau cymdeithasol. Er enghraifft, gall darparwyr gael tudalen Facebook i rannu dolenni i'w herthyglau, sy'n cyfarwyddo defnyddwyr i ddarllen yr erthygl ar wefan y darparwyr. Bydd rhai defnyddwyr Facebook yn mynd ati i chwilio am y cynnwys hwn, tra bydd eraill yn gweld erthyglau drwy ddolenni a awgrymir yn eu "Ffrwd". Yn y gorffennol, gallai defnyddwyr Facebook gael gafael ar newyddion drwy'r tab Facebook News pwrpasol, ond cafodd hyn ei anghymeradwyo yn y Deyrnas Unedig yn 2023.

3.25 Gall pobl hefyd gael gafael ar newyddion a gwybodaeth leol drwy grwpiau cymunedol Facebook ar gyfer eu hardal leol. Cyhoeddodd Facebook yn 2017 ei fod yn symud ei ffocws tuag at grwpiau, gyda'r nod o greu "cymunedau ystyrlon" i ddefnyddwyr ymuno â nhw. Roedd ymchwil a gyhoeddwyd yn 2021 yn amcangyfrif bod 1.8 biliwn o bobl yn defnyddio grwpiau Facebook bob mis yn fyd-eang, a bod dros hanner defnyddwyr Facebook yn aelodau o bum grŵp gweithredol neu fwy.

3.26 Mae cynnwys ar grwpiau cymunedol lleol fel arfer yn cael ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr, yn cael ei bostio gan bobl leol, gan roi sylw i bynciau fel ceisiadau cynllunio, argymhellion ar gyfer busnesau lleol a digwyddiadau cymunedol, a gall fod yn lle i drafod materion lleol. Mae'r ap Nextdoor ar gyfer cynnwys lleol iawn, a lansiwyd yn y Deyrnas Unedig yn 2016, hefyd yn galluogi pobl i bostio, trafod a chael gafael ar wybodaeth a newyddion lleol sy'n canolbwyntio ar eu cymdogaeth leol, gan gynnwys gan wasanaethau cyhoeddus sydd wedi ffurfio partneriaeth â'r platfform mewn rhai ardaloedd, fel heddluoedd lleol. Mae apiau negeseuon fel WhatsApp hefyd yn cael eu defnyddio gan grwpiau llai o bobl, fel cymdogion, aelodau o'r teulu neu grwpiau diddordeb cyffredin, i rannu newyddion a gwybodaeth am eu cymunedau lleol.

3.27 Gall cynulleidfaoedd hefyd chwilio a chael gafael ar newyddion a gwybodaeth leol gan ddefnyddio peiriannau chwilio neu wasanaethau wedi eu curadu fel Google News Showcase i weld straeon a "dilyn" darparwyr newyddion.[24] Mae Google wedi dweud bod papurau newydd lleol yn cyfrif am 93% o'r 240 o deitlau sydd wedi cofrestru ar gyfer y News Showcase a lansiwyd yn 2021, ac mae wedi ffurfio partneriaeth â'r Rhwydwaith Newyddion Cymunedol Annibynnol (ICNN) sy'n galluogi 45 o deitlau annibynnol i gofrestru ar gyfer y Showcase. Rhaid i gyhoeddwyr newyddion sydd wedi cofrestru ar gyfer y Showcase ddarparu tair stori bob dydd, ac awgrymwyd y gallai hynny atal rhai cyhoeddwyr annibynnol bach rhag cymryd rhan.

# Darpariaeth cyfryngau lleol ledled y Deyrnas Unedig

3.28 Fel y dangosir uchod, mae'r rhan fwyaf o'r darparwyr cyfryngau lleol mwyaf yn gweithredu ledled y Deyrnas Unedig. Mae'r rhain yn cynnwys y BBC ac ITV/UTV/STV, Global a Bauer, a Reach plc, Newsquest a National World. Mae amrywiaeth eang o ddarparwyr cyfryngau lleol llai hefyd yn gweithredu mewn gwahanol rannau o'r gwledydd a'r rhanbarthau.

3.29 O ganlyniad, mae gwahaniaethau sylweddol o ran darpariaeth, defnydd a chanfyddiadau o gyfryngau lleol mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig ac mewn gwahanol gymunedau. Er enghraifft, gall maint a chyfoeth ardal benodol effeithio ar y cwestiwn a

[24] What is Google News Showcase?

all darparwyr lleol ddenu lefel gynaliadwy o gwsmeriaid sy'n talu a/neu ddenu hysbysebion. Mae'n bosibl y bydd yn haws i ddarparwyr cyfryngau lleol ddenu a chadw cynulleidfaoedd mewn dinasoedd mwy, ac yn fwy heriol cynnal y ddarpariaeth cyfryngau lleol mewn trefi bach ac ardaloedd tenau eu poblogaeth. Wrth i gynulleidfaoedd droi fwyfwy ar-lein am newyddion a gwybodaeth leol, mae'r darlun hwn yn dal i esblygu, gydag ecosystemau cyfryngau lleol unigol a'u cynulleidfaoedd yn cael eu heffeithio mewn amrywiaeth o ffyrdd.

3.30 Mae rhai rhannau o'r Deyrnas Unedig yn dal i gael eu gwasanaethu'n dda gan amrywiaeth o safleoedd lleol ar draws gwahanol blatfformau a haenau, ond mae eraill wedi cael eu hamlygu fel enghreifftiau o 'sychtiroedd newyddion' neu 'anialdiroedd newyddion' posibl. Yn yr achosion hyn, mae teledu a radio yn parhau i ddarparu newyddion haen y gwledydd a'r rhanbarthau (e.e. ar wasanaethau radio gwledydd/rhanbarthau'r BBC), ond mae ymchwil yn awgrymu nad oes fawr ddim newyddion penodol am ddarpariaeth newyddion lleol ar gyfer ardaloedd sy'n llai na'r sir neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny mewn rhai ardaloedd.[25] Canfu ein hymchwil ansoddol yn 2024 yn ogystal fod rhai cynulleidfaoedd hefyd wedi sylwi ar fwlch darpariaeth ar lefel 'canolradd-leol', sy'n golygu dinas/tref/pentref/ardal wledig (yn hytrach na chymdogaeth leol fwy penodol neu lefel sirol/rhanbarth ehangach), a oedd yn priodoli'r ymatebwyr, yn rhannol, i ddirywiad papurau newydd print lleol. Fodd bynnag, mae'r syniad o diffeithdir newyddion yn parhau'n ddadleuol a byddai'n elwa ar ragor o ymchwil.  Isod, rydym yn rhoi crynodeb cyffredinol o'r ddarpariaeth cyfryngau lleol sydd ar gael ym mhob gwlad.

3.31 **Lloegr:** Mae'r BBC ac ITV yn darparu gwasanaeth newyddion teledu pwrpasol i bob rhanbarth yn Lloegr. Mae cynulleidfaoedd hefyd yn cael eu gwasanaethu'n eang gan wasanaethau radio lleol masnachol a gwasanaethau'r BBC. Fodd bynnag, o dan yr haen hon o ddarpariaeth, mae'n ymddangos bod argaeledd newyddion lleol yn amrywio'n fawr rhwng ardaloedd. Mae'r ymchwil mae PINF a sefydliadau eraill wedi ei wneud yn dangos bod rhannau o Loegr, fel Lewisham a Gateshead, lle mae'n ymddangos nad oes ganddynt fawr ddim darpariaeth newyddion leol benodol, os o gwbl, ac mae'n ymddangos bod ardaloedd eraill fel Gwlad yr Haf, Cernyw a Bryste yn cael eu gwasanaethu gan nifer fawr o safleoedd newyddion lleol[26]. Yn ogystal, mae llawer o gymunedau amrywiol ledled Lloegr, yn enwedig yn ei dinasoedd, sy'n chwilio am wahanol bethau gan gyfryngau lleol, a gall darparwyr chwarae rôl o ran adlewyrchu ac ehangu ehangder y lleisiau, gan ddod â nhw at ei gilydd ar yr un pryd.

3.32 **Gogledd Iwerddon:** Mae'r cyfryngau lleol yng Ngogledd Iwerddon wedi elwa ar ei nodweddion unigryw, yn enwedig ei ymdeimlad cryf o hunaniaeth a'i statws fel cenedl fach gyda llywodraeth genedlaethol mewn ardal o faint tebyg i, neu'n llai na, llawer o ranbarthau yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Mae gan Ogledd Iwerddon hefyd argaeledd eang o bapurau newydd Gweriniaeth Iwerddon, allbwn newyddion ar-lein a gwasanaethau darlledu sydd hefyd yn darparu rhywfaint o gynnwys lleol perthnasol i gynulleidfaoedd. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd allfeydd cyfryngau cymharol fwy yng Ngogledd Iwerddon wedi eu hynysu ychydig yn fwy o'r materion sy'n wynebu'r sector yn gyffredinol, ond mae darparwyr newyddion lleol llai yn wynebu llawer o'r un heriau â'r

[25] Local News Deserts in the UK: What effect is the decline in provision of local news and information having on communities? 2022 gan y Prosiect Newyddiaduraeth Elusennol - Steven Barclay, Steve Barnett, Martin Moore a Judith Townend. PINF Local News Mapping Report, Enrill 2024.
[26] PINF Local News Mapping Report 2024.

rhai yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Lle mae gan Loegr (ar ITV a BBC) a'r Alban (ar ITV) ddarpariaeth newyddion ranbarthol, darperir bwletinau newyddion teledu Gogledd Iwerddon ar y BBC ac UTV ar lefel y wlad (h.y. ar gyfer Gogledd Iwerddon i gyd). Mae BBC Radio Foyle yn darparu rhywfaint o gynnwys lleol sy'n benodol i ardal Foyle.


3.33 **Cymru:** Mae ecoleg y cyfryngau lleol mewn rhai ardaloedd yng Nghymru yn wynebu heriau sylweddol. Mae gwaith ymchwil diweddar yn dangos bod sylw yn y cyfryngau lleol mewn rhai rhannau o Gymru wedi lleihau i'r graddau mai ychydig iawn o ddarpariaeth newyddion lleol bwrpasol sydd gan rai awdurdodau lleol - er enghraifft, Merthyr Tudful a Chastell-nedd Port Talbot - tra bod allbwn a ddarperir gan y BBC, ITV ac S4C ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru yn cael eu cynnig ar lefel genedlaethol i raddau helaeth. Fodd bynnag, ar lefel leol iawn, mae Papurau Bro, sef papurau cymunedol Cymraeg, yn cynnig gwerth unigryw i rai cymunedau, ac fe wnaeth ymatebwyr dynnu sylw atynt yn ymchwil ansoddol Ofcom yn ddiweddar.

3.34 **Yr Alban:** Ar y cyfan, mae'r darlun yn yr Alban yn fwy cadarnhaol na gweddill y Deyrnas Unedig, yn enwedig o'i gymharu â Chymru a Lloegr, gyda'r rhan fwyaf o ardaloedd yn meddu ar ddarpariaeth newyddion lleol benodol. Mae'n ymddangos bod ymchwil ddiweddar yn ategu hyn, sy'n dangos bod gan bob awdurdod lleol yn yr Alban o leiaf un darparwr print neu ar-lein a oedd yn cwmpasu'r awdurdod lleol hwnnw fwy na thair gwaith yr wythnos, gyda'r mwyafrif helaeth o awdurdodau lleol yn cael eu gwasanaethu gan dri neu ragor o ddarparwyr. Mae cynulleidfaoedd yn yr Alban hefyd yn gallu cael gafael ar fwletinau newyddion teledu rhanbarthol, fel rhaglenni ar gyfer STV North ac STV Central, yn ogystal ag amrywiaeth o wasanaethau radio lleol a rhanbarthol. Fodd bynnag, mae'r sector cyfryngau lleol ehangach yn yr Alban yn agored i'r heriau sy'n codi mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig hefyd.

# 4. Sut mae dewisiadau pobl o ran cyfryngau lleol yn datblygu?

4.1 Canfu arolwg cyfryngau lleol Ofcom yn 2023 fod 92% o oedolion y Deyrnas Unedig yn defnyddio newyddion neu wybodaeth leol, gan gynnwys y tywydd a thraffig. O’r grŵp hwn, mae 89% yn cael gafael ar newyddion a gwybodaeth leol ar-lein, gan gynnwys dros hanner drwy gyfryngau cymdeithasol. Maent hefyd yn cael gafael ar newyddion a gwybodaeth leol drwy amrywiaeth o ddulliau eraill gan gynnwys teledu (53%), radio (34%) a phapurau newydd lleol mewn print (22%).

**Ffigur 4: Defnyddio platfformau gwahanol ar gyfer newyddion a gwybodaeth leol**




*Ffynhonnell: Arolwg Ofcom ar Gyfryngau Lleol 2023. Cwestiwn: C2 Pa rai o'r platfformau a ganlyn ydych chi'n eu defnyddio i gael newyddion a gwybodaeth leol y dyddiau hyn? - hynny yw, yn ystod y mis diwethaf? Sylfaen: Pob ymatebydd yn defnyddio cyfryngau lleol (2548).*


4.2 Ar gyfartaledd, roedd pobl yn defnyddio tua dwy ffynhonnell wahanol ym mhob categori o newyddion a gwybodaeth leol.[27] Mae hyn yn amrywio yn ôl categori o newyddion a gwybodaeth leol gyda llai o ffynonellau’n cael eu defnyddio ar gyfer y deunydd mwyaf cyffredin fel y tywydd (cyfartaledd o 1.3 ffynhonnell) a thraffig a theithio (1.5 ffynhonnell) ac amrywiaeth ehangach ar gyfer y mathau llai poblogaidd o wybodaeth leol fel rhaglenni dogfen am ardal leol (2.3 ffynhonnell) neu ymgyrchoedd lleol (2.5 ffynhonnell).

4.3 Roedd ein hymchwil hefyd yn dangos bod pobl yn dewis platfformau gwahanol ar gyfer gwahanol fathau o newyddion a gwybodaeth leol. Mae teledu a radio fel arfer yn cael eu defnyddio i gael newyddion am ardaloedd daearyddol ehangach, fel newyddion am ‘wlad

[27] Arolwg Ofcom ar Gyfryngau Lleol 2023. Roedd hyn yn cynnwys 2,660 o ymatebwyr ar-lein, a 118 ychwanegol dros y ffôn. Sylwer: mae nifer y ffynonellau yn debygol o fod yn uwch gan y gallai nifer o wahanol ffynonellau penodol gael eu cynnwys mewn categori a ddewisir gan gyfranogwyr fel ‘Grwpiau neu gyfrifon lleol ar gyfryngau cymdeithasol’.

neu ranbarth' neu 'sir'. Mae papurau newydd lleol (print ac ar-lein) a chyfryngau cymdeithasol yn dueddol o gael eu defnyddio i gael newyddion am ardaloedd daearyddol llai fel yr 'ardal, y dref neu'r ddinas'. Mae apiau negeseuon lleol iawn yn cael eu defnyddio'n fwy cyffredin i gael newyddion am gymdogaeth agos pobl.

**Ffigur 5: Newyddion a gwybodaeth leol yn cael eu defnyddio gan wahanol blatfformau ac ardaloedd**





*Ffynhonnell: Arolwg Ofcom ar Gyfryngau Lleol 2023, C2b. Pa rai o'r mathau hyn o newyddion a gwybodaeth leol ydych chi'n eu cael o'r platfformau rydych chi'n eu defnyddio?*
*Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n defnyddio pob gwasanaeth i gael newyddion a gwybodaeth leol.*

## Mae bwletinau teledu ar gyfer newyddion y gwledydd/rhanbarthau yn cyrraedd cynulleidfaoedd sylweddol ond maent yn gostwng

4.4 Canfu ein hymchwil hefyd mai teledu, ymysg pob oedolyn, yw'r platfform sy'n cael ei ddefnyddio fwyaf ar gyfer newyddion am wlad, rhanbarth a sir (cafodd hyn ei ddisodli gan gyfryngau cymdeithasol ar gyfer ardaloedd daearyddol llai). [28] Fodd bynnag, ynghyd â'r defnydd o deledu yn ehangach, mae lefelau gwylio bwletinau teledu'r gwledydd a'r rhanbarthau wedi gostwng. Yn 2023, roedd 40% o oedolion y Deyrnas Unedig ar gyfartaledd yn gwylio bwletinau newyddion ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau ar naill ai'r BBC neu ITV/UTV/STV bob wythnos - 32% ar y BBC ac 20% ar ITV/UTV/STV. Roedd hyn yn ostyngiad tebyg i'r hyn a welwyd gyda newyddion cenedlaethol / rhyngwladol.[29]

[28] Arolwg Ofcom ar Gyfryngau Lleol 2023. Mae 'teledu' yn cynnwys unrhyw gynnwys lleol sy'n cael ei ddarlledu ar y teledu.
[29] Barb, oedolion 16 oed a hŷn, pob darllediad, 28 diwrnod wedi ei gyfuno, cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog 3 munud a mwy %, Genre: newyddion y gwledydd/rhanbarthau.

**Ffigur 6: Cyrhaeddiad wythnosol newyddion y gwledydd/rhanbarthau ar deledu o'i gymharu â newyddion y Deyrnas Unedig/Rhyngwladol, cyfanswm o'i gymharu â BBC o'i gymharu â Channel 3**





*Ffynhonnell: Barb, oedolion 16 oed a hŷn, pob darllediad, 28 diwrnod wedi ei gyfuno, cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog 3 munud a mwy %, Genre: newyddion y gwledydd/rhanbarthau; newyddion y Deyrnas Unedig/rhyngwladol.*

4.5 Cafodd y gostyngiad yn y defnydd o newyddion teledu ei wrthdroi am gyfnod byr yn 2020 wrth i bandemig Covid-19 weld cynulleidfaoedd wythnosol yn gwylio newyddion y Deyrnas Unedig/Rhyngwladol ar unrhyw sianel yn cynyddu o 66% i 71%. Roedd newyddion y gwledydd/rhanbarthau hefyd wedi cynyddu ond i raddau llai, o 50% i 52%. Fodd bynnag, mae'r duedd ar i lawr wedi ailddechrau ar gyfer y ddau fath o newyddion o 2021 ymlaen.

4.6 Mae newyddion teledu'r cenhedloedd/rhanbarthau yn fwy poblogaidd gyda gwylwyr hŷn. Fel mae Ffigur 7 yn ei ddangos, dim ond 10% o bobl ifanc 16-24 oed sy'n gwylio newyddion teledu y gwledydd/rhanbarthau bob wythnos o'i gymharu â 73% o'r rhai sy'n 65 oed a hŷn. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth nodedig yn y patrwm oedran rhwng newyddion gwledydd/rhanbarthau'r BBC a newyddion gwledydd/rhanbarthau ITV/UTV/STV. Mae cyrhaeddiad gwylwyr dros 55 oed yn arbennig o uchel i'r BBC, gyda chyrhaeddiad i'r rhai sy'n 65 ac yn hŷn 20 pwynt canran yn uwch nag i'r rhai rhwng 55 a 64 oed. Mae hyn yn cymharu â chynnydd o wyth pwynt canran yn y cyrhaeddiad rhwng y ddau grŵp oedran hyn ar gyfer ITV/UTV/STV.

**Ffigur 7: Cyrhaeddiad wythnosol newyddion y gwledydd/rhanbarthau ar deledu yn ôl oedran o'i gymharu â newyddion y Deyrnas Unedig/Rhyngwladol, cyfanswm o'i gymharu â BBC o'i gymharu â Channel 3, 2023**[30]





*Ffynhonnell: Barb, pob darllediad, 28 diwrnod wedi ei gyfuno, cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog 3 munud a mwy %, Genre: newyddion y gwledydd/rhanbarthau.*

4.7 Mae bwletinau gwledydd/rhanbarthau'r BBC am 18:30 yn ystod yr wythnos yn sicrhau cynulleidfa gyfartalog gyfunol o 3.37 miliwn, sy'n uwch na chynulleidfa newyddion rhwydwaith cenedlaethol y BBC am 18:00 ar gyfartaledd o 3.15 miliwn. Yn yr un modd, mae ITV, STV ac UTV yn gweld bod bwletin 18:00 y gwledydd/rhanbarthau yn denu cynulleidfa gyfartalog gyfunol o 2.44 miliwn, sy'n uwch na chynulleidfa newyddion rhwydwaith cenedlaethol 18:30 o 2.24 miliwn ar gyfartaledd. Er bod oedolion yng Nghymru (+91%) a Lloegr (+49%) yn fwy tebygol o wylio bwletinau newyddion y BBC ar lefel y gwledydd yn gynnar fin nos am 18:30, mae oedolion yn yr Alban (+24%) a Gogledd Iwerddon (+16%) yn fwy tebygol o wylio bwletinau STV/UTV am 18:00.

[30] Nid yw'r rhan fwyaf o wasanaethau teledu lleol yn cael eu hadrodd gan Barb neu nid oes ganddynt ddigon o sampl. Felly, nid ydym wedi cynnwys unrhyw ddata Barb yma gan na all ddarparu adlewyrchiad cywir o ffigurau gwylio ar gyfer y sector hwn.

**Ffigur 8: Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog (%) i newyddion gwledydd/rhanbarthau'r BBC o'i gymharu â newyddion gwledydd/rhanbarthau ITV/UTV/STV, 2023**




*Ffynhonnell: Barb, pob darllediad, 28 diwrnod wedi ei gyfuno, cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog 3 munud a mwy %, Genre: newyddion y gwledydd/rhanbarthau. Mae'r lliwiau gwahanol yn dangos y gymhariaeth â chyfartaledd y Deyrnas Unedig, gyda lliwiau tywyllach yn dangos cyrhaeddiad uwch na'r cyfartaledd yn y Deyrnas Unedig a'r lliw goleuach yn dangos cyrhaeddiad is na'r cyfartaledd.*

4.8 Mae oedolion yng Ngogledd Iwerddon yn fwy tebygol o wylio unrhyw fath o newyddion o'i gymharu â chyfartaledd y Deyrnas Unedig, ac maent hefyd 76% yn fwy tebygol o wylio UTV/ITV ar gyfer newyddion gwlad/rhanbarth o'i gymharu â gweddill y Deyrnas Unedig (a 34% yn fwy tebygol o wylio newyddion ar lefel rhanbarthol y BBC).


4.9 Mae sianeli teledu lleol wedi cael trafferth cynyddu eu cyrhaeddiad a chyfran gwylio ers iddynt gael eu lansio, er eu bod ar gael ar Freeview a slotiau amlwg yn yr Amserlen Rhaglenni Electronig. Amcangyfrifodd adroddiad gan Enders Analysis yn 2018 fod teledu lleol wedi cyrraedd llai nag 1 miliwn o gartrefi bob wythnos (gyda London Live yn cyfrif am dros hanner).

## Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae cyrhaeddiad radio masnachol lleol wedi aros yn sefydlog, ac mae gorsafoedd y BBC wedi gweld gostyngiad bach

4.10 Bu gostyngiad bach yng nghyrhaeddiad radio lleol yn gyffredinol, wedi ei sbarduno gan ostyngiad yn nifer y cynulleidfaoedd sy'n gwrando ar radio gwledydd/rhanbarthau y BBC yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Roedd 12% o oedolion wedi gwrando ar orsafoedd radio gwledydd/rhanbarthau y BBC yn Ch4 2023, i lawr o 14% yn Ch4 2018. Mae cyrhaeddiad radio masnachol lleol wedi dychwelyd i'r un lefel ag yn Ch1 2018 ac mae bedair gwaith yn uwch na chyrhaeddiad gorsafoedd gwledydd/rhanbarthau y BBC. Mae gorsafoedd y BBC ar draws y Deyrnas Unedig hefyd wedi gweld gostyngiad yn nifer y gynulleidfa ac erbyn hyn maent yn cyrraedd llai o bobl bob wythnos na gorsafoedd

masnachol ar draws y Deyrnas Unedig, sydd wedi llwyddo i ddenu gwrandawyr drwy lansio gorsafoedd digidol newydd.

**Ffigur 9: Cyrhaeddiad wythnosol yn ôl sector radio**





*Ffynhonnell: RAJAR; Pob oedolyn 15 oed a hŷn. Mae'r llinell ddotiog yn nodi gohirio gwaith maes o ddiwedd Ch1 2020 tan Ch3 2021 oherwydd cyfyngiadau symud Covid-19. Arweiniodd hyn at newidiadau dilynol mewn methodoleg, felly dylid bod yn ofalus wrth gymharu â chwarteri blaenorol.*

4.11 Mae 54% o oedolion yn gwrando ar radio lleol bob wythnos ar draws y Deyrnas Unedig, ond mae hyn yn amrywio wrth edrych ar y gwahanol wledydd. Mae poblogrwydd radio lleol ar ei uchaf yng Ngogledd Iwerddon lle mae 80% o oedolion yn gwrando bob wythnos, wedi ei ddilyn gan yr Alban lle mae'n cyrraedd 60% o'r boblogaeth, gan ddisgyn i 55% yng Nghymru a 53% o oedolion yn Lloegr.[31]

[31] RAJAR Ch1 2024.

**Ffigur 10: Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog (%) i orsafoedd radio masnachol lleol a radio gwledydd/rhanbarthau'r BBC**




*Ffynhonnell: RAJAR; Ch4 2023; Oedolion 15 a hŷn*

*Sylwer: Mae'r lliwiau gwahanol yn dangos y gymhariaeth â chyfartaledd y Deyrnas Unedig, gyda lliwiau tywyllach yn dangos cyrhaeddiad uwch na'r cyfartaledd yn y Deyrnas Unedig a'r lliw goleuach yn dangos cyrhaeddiad is na'r cyfartaledd.*

4.12 Fel sy'n wir am newyddion teledu gwledydd/rhanbarthau, mae'r rhai sy'n gwrando ar radio gwledydd/rhanbarthau'r BBC yn tueddu i fod yn hŷn na'r gwrandawyr radio lleol cyfartalog (ar gyfartaledd, 56 oed, o'i gymharu â 48 ar draws yr holl radio lleol a 46 ar gyfer radio masnachol lleol) ac yn gwrando ar fwy o orsafoedd bob wythnos. Mae'r gwrandawyr radio cyffredin yn gwrando ar dair gorsaf yr wythnos, tra bod gwrandawyr radio lleol yn gwrando ar 3.6 ac mae pobl sy'n gwrando ar radio gwledydd/rhanbarthau'r BBC yn gwrando ar gyfartaledd o 4.1.

4.13 Dim ond un orsaf radio gymunedol sy'n tanysgrifio ar hyn o bryd i gael ei henwi fel rhan o RAJAR, corff mesur cynulleidfaoedd y diwydiant,[32] felly nid yw'n bosibl monitro'r nifer sy'n gwrando ar y rhan hon o'r sector yn yr un ffordd â gorsafoedd masnachol lleol a gwledydd/rhanbarthau'r BBC. Fodd bynnag, fel rhan o Adolygiad Sain a Radio Digidol yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, roedd RAJAR yn dadansoddi dyddiaduron gwrandawyr ac yn amcangyfrif bod y gynulleidfa wythnosol ar gyfer y sector radio cymunedol oddeutu 1 miliwn o oedolion (tua 1.8% o boblogaeth y Deyrnas Unedig).

---

[32] Mae The Voice wedi tanysgrifio i gael ei henwi ar ddyddiaduron RAJAR ers Ch1 2019. O Ch4 2023, mae'n cyrraedd 12,400 o oedolion bob wythnos ar gyfartaledd.

## Mae llai o bobl nag erioed yn darllen papurau newydd lleol mewn print

4.14 Mae ymchwil gan IPA yn dangos bod tua 9% o oedolion ym Mhrydain Fawr bellach yn darllen papurau newydd lleol bob wythnos mewn print neu ar-lein; mae hyn wedi gostwng o 17% yn 2018.[33] Yn arolwg cyfryngau lleol Ofcom yn 2023, sy'n holi ynghylch defnydd yn ystod y mis diwethaf, dywedodd 22% o oedolion sy'n defnyddio cyfryngau lleol eu bod yn defnyddio papurau newydd lleol ar gyfer newyddion a gwybodaeth leol, gan nodi bod rhai sy'n dal i ddefnyddio'r ffynhonnell hon, ond yn llai rheolaidd. Mae papurau newydd lleol print yn fwyaf poblogaidd ar gyfer newyddion am dref neu ddinas benodol yr ymatebwyr. I'r rhai sy'n 65 oed a hŷn, print yw'r dull maent yn ei ddefnyddio fwyaf i gael newyddion am eu tref a'u dinas, ac i gael newyddion am eu cymdogaeth.[34]

4.15 Mae adroddiad gan Enders Analysis yn dangos y gallai cylchrediad papurau newydd lleol fod wedi mwy na haneru dros y degawd hyd at 2022 ac, yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae cylchrediad teitlau wythnosol a dyddiol rhanbarthol wedi gostwng 19% a 15% y flwyddyn yn y drefn honno. Yn yr un modd, mae Arolwg Cael Gafael ar Newyddion Ofcom yn cofnodi bod cyfran yr oedolion sy'n defnyddio papurau newydd print lleol a rhanbarthol wedi haneru rhwng 2018 a 2024. Mae'r duedd hon yn adlewyrchu'r gostyngiad tymor hirach yng nghyrhaeddiad papurau newydd yn gyffredinol. Awgrymodd Arolwg Cael Gafael ar Newyddion Ofcom hefyd y gallai pandemig Covid-19 fod wedi gwaethygu'r dirywiad presennol yng nghyfanswm cylchrediad papurau newydd, gyda chyrhaeddiad papurau newydd print yn gostwng o 35% yn 2020 i 24% yn 2022.

## Ond mae dewisiadau newyddion lleol ar-lein yn boblogaidd

4.16 Er gwaethaf y gostyngiad mewn cylchrediad papurau newydd lleol mewn print, mae darparwyr papurau newydd lleol yn dal i gyrraedd nifer sylweddol o oedolion drwy eu presenoldeb ar-lein. Ym mis Ebrill 2024, roedd 58% o oedolion ar-lein 15 oed a hŷn wedi ymweld â theitlau rhanbarthol Reach plc, roedd 28% wedi ymweld â theitlau Newsquest ac roedd 27% wedi ymweld â theitlau National World.[35] Pan ofynnwyd am ddefnydd yn ystod y mis diwethaf, roedd 26% o oedolion yn cofio defnyddio gwefannau neu apiau papurau newydd lleol ar gyfer newyddion a gwybodaeth leol, ac roedd 17% hefyd yn honni eu bod yn defnyddio gwefannau neu apiau cylchgronau lleol dros yr un cyfnod.[36]


4.17 Mae gwefan y BBC hefyd yn boblogaidd, gyda 35% o oedolion yn dweud eu bod yn ei defnyddio ar gyfer newyddion lleol yn ystod y mis diwethaf. Roedd oedolion yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn fwy tebygol o ddefnyddio gwefannau'r BBC a gwefannau teledu neu radio eraill fel STV/ITV ar gyfer newyddion lleol nag oedolion yng Nghymru neu Loegr.

4.18 Mae cyfryngau cymdeithasol hefyd wedi profi i fod yn ffynhonnell wybodaeth boblogaidd ar gyfer materion lleol. Yn arolwg cyfryngau lleol Ofcom yn 2023, roedd 38% o oedolion

[33] IPA TouchPoints 2023 SuperHub 023 (W2 2022 a W1 2023); IPA TouchPoints 2018.
[34] Arolwg Ofcom ar Gyfryngau Lleol 2023.
[35] Ipsos Iris, cyrhaeddiad cynulleidfa 15+ ar-lein. Nid yw'r cyrhaeddiad yn cynnwys papurau newydd cenedlaethol (Express, Star) ond mae'n cynnwys, er enghraifft, y Liverpool Echo a'r Daily Record. Nid yw Newsquest yn cynnwys New European, Exchange a Mart ond mae'n cynnwys, er enghraifft, y Northern Echo a Gwasg Efrog. Mae National World (JPI media, gynt) yn eithrio teitlau cenedlaethol (Farming Life, 3 Added Minutes) ond mae'n cynnwys, er enghraifft, Lancashire Post, Glasgow World.
[36] Arolwg Ofcom ar Gyfryngau Lleol 2023.

yn defnyddio grwpiau lleol neu gyfrifon ar gyfryngau cymdeithasol ar gyfer newyddion a chynnwys lleol. Dywedodd 26% arall o oedolion eu bod yn defnyddio peiriannau chwilio fel Google ar gyfer newyddion a gwybodaeth leol, tra bod 20% yn defnyddio negeseuon neu apiau cymdogaeth a 15% yn defnyddio gwasanaethau cyd-gasglu newyddion, fel Apple News.

**Ffigur 11: Defnyddio ffynonellau newyddion a gwybodaeth leol ar-lein**





*Ffynhonnell: Arolwg Ofcom ar Gyfryngau Lleol 2023. Cwestiwn: C3. Gan feddwl yn benodol am ffynonellau ar-lein, pa rai o'r canlynol ydych chi'n eu defnyddio ar gyfer newyddion a gwybodaeth leol y dyddiau hyn – hynny yw, pa rai ydych chi wedi eu defnyddio ar gyfer newyddion yn ystod y mis diwethaf? Sylfaen: Pob oedolyn 16 oed a hŷn (2778)*

4.19 Mae Arolwg Cael Gafael ar Newyddion Ofcom yn dangos bod oedolion iau (16-34 oed) ddwywaith yn fwy tebygol o ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ar gyfer newyddion lleol nag oedolion 55 oed a hŷn. Roedd ein hymchwil ansoddol diweddar hefyd yn dangos bod oedolion hŷn yn llai tebygol o ddefnyddio fforymau cyfryngau cymdeithasol na chyfranogwyr iau.

4.20 Mae Ffigur 12 isod yn dangos cyrhaeddiad newyddion lleol yn gyffredinol ar y BBC a gwefannau masnachol sy'n defnyddio Ipsos Iris.[37] Mae'n dangos bod 35 miliwn o oedolion yn y Deyrnas Unedig wedi cael gafael ar straeon newyddion lleol ym mis Rhagfyr 2023, sy'n ostyngiad ers mis Mawrth 2023. Fel sy'n cael ei drafod yn Adran 6, byddwn yn edrych ar dueddiadau ynghylch defnydd lleol ar-lein ymhellach yn ein hadroddiad terfynol yn nes ymlaen eleni.

**Ffigur 12: Cynulleidfa fisol yn ymweld â gwefannau newyddion lleol masnachol neu'r BBC: Ionawr 2022 – Rhagfyr 2023**

[37] Mae'r data hwn yn seiliedig ar dagio ychwanegol o wefannau lleol Ipsos Iris, ac nid yw'n cynnwys newyddion lleol ar ap BBC News.




*Ffynhonnell: Ipsos Iris, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein, oedran: 15 oed a hŷn, y Deyrnas Unedig.*
*Ymwelwyr ag apiau neu wefannau newyddion masnachol, neu wefannau newyddion lleol y BBC, heb gynnwys newyddion lleol ar ap BBC News.*

## Mae pobl yn gwerthfawrogi gwahanol ffynonellau o gyfryngau lleol am wahanol resymau

4.21 Fel y nodir uchod, mae'n well gan bobl ddefnyddio gwahanol blatfformau i gael gafael ar wahanol fathau o newyddion a gwybodaeth leol, yn dibynnu ar eu hanghenion. Roedd ein hymchwil ansoddol newydd hefyd yn pwysleisio hyn, gyda phobl yn dweud wrthym eu bod yn gwerthfawrogi elfennau penodol o'r gwahanol fathau o gyfryngau lleol, gyda phob math yn cynnig ei fanteision ei hun. Roedd y dewis yn dibynnu ar gyd-destun, arferion pobl a pha ffynhonnell oedd fwyaf priodol i'w hanghenion gwybodaeth penodol.

4.22 **Teledu:** I lawer, yn enwedig pobl hŷn a phobl sydd â theuluoedd, roedd y bwletin newyddion rhanbarthol gyda'r nos ar BBC neu ar ITV/UTV/STV yn aml yn cael ei werthfawrogi fel profiad hamddenol a chyfunol, ac roedd rhai'n gwerthfawrogi'r profiad hwn cymaint â'r cynnwys. Roedd rhai cyfranogwyr yn nodi eu bod yn gwylio'r newyddion yn ystod eu hamser hamdden. Roedd hyn weithiau'n rhan o drefn gyda'r nos a oedd wedi'i hen sefydlu ac a oedd yn nodi diwedd diwrnod prysur. Roedd cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi'r cynefindra a'r cyfle i gael profiad ar y cyd, yn ogystal â nodweddion fel rhagolygon tywydd lleol. Fodd bynnag, nid oedd y cyfranogwyr wedi sôn llawer am rôl gorsafoedd teledu lleol yn ystod ein hymchwil.

4.23 **Radio:** Roedd newyddion a materion cyfoes lleol yn fwy tebygol o fod yn rheswm pam roedd pobl yn dewis radio lleol y BBC o'i gymharu â gorsafoedd masnachol lleol, lle mai cerddoriaeth yn aml oedd y prif sbardun ar gyfer gwrando. Yn y ddau achos, roedd y wybodaeth ddiweddaraf am draffig a theithio hefyd yn bwysig ac roedd pobl yn gwrando'n bennaf wrth yrru.

4.24 **Ar-lein:** Y prif resymau y dewisodd pobl ddefnyddio ffynonellau ar-lein oedd cyfleustra ac uniongyrchedd, gyda'r gallu i edrych pan oedd yn addas iddynt a chwilio am y wybodaeth ddiweddaraf. Yn ogystal â hyn, roedd y gallu i ddarllen straeon newyddion ar-lein a chynnwys cyfryngau sawl gwaith a chael amser i gymryd gwybodaeth i mewn yn cael ei werthfawrogi gan rai. Teimlai ymatebwyr hefyd ei fod yn fwy lleol na ffynonellau cyfryngau traddodiadol ac yn cael ei werthfawrogi am allu darparu gwybodaeth fanylach, gan gynnwys drwy ryngweithio â defnyddwyr eraill mewn adrannau sylwadau. Dywedodd rhai eu bod yn hoffi defnyddio ffynonellau ar-lein gan fod ganddynt reolaeth dros yr hyn

roeddent yn ei weld, oherwydd gallent guradu eu ffrydiau eu hunain a chlicio ar straeon sydd o ddiddordeb yn unig.

4.25 Roedd cynnwys a oedd yn cael ei gynhyrchu gan drigolion lleol yn cael ei weld fel rhywbeth cadarnhaol, er bod pobl yn ymwybodol nad oeddent bob amser yn gallu credu popeth roedden nhw'n ei ddarllen a bod defnyddwyr yn trin newyddion a gwybodaeth leol ar gyfryngau cymdeithasol yn amheus ar adegau, nes eu bod yn cael eu dilysu mewn mannau eraill. Mae hyn hefyd yn adleisio'r lefelau is o ymddiriedaeth mewn newyddion ar y cyfryngau cymdeithasol yn gyffredinol, a amlygwyd mewn gwaith ymchwil arall.[38] Roedd pobl yn fwy tebygol o ymgynghori ag amrywiaeth o wahanol ffynonellau os oedd y mater yn ddifrifol, yn gymhleth neu os oedd ganddynt fwy o amser neu ddiddordeb penodol ynddo. Lle'r oedd hyn yn wir, roeddent yn barod i fuddsoddi amser i chwilio am nifer o ffynonellau, ac yn cydnabod y gall gwybodaeth ddibynadwy gymryd amser i'w gwirio. Ar gyfer materion a oedd yn cael eu hystyried yn ffactorau risg isel, roeddent yn fwy tebygol o gynnal chwiliad llai manwl neu benodol.

"Rwy'n cael gwybodaeth leol ar Facebook. Rwy'n dilyn y papur lleol a thudalennau'r ardal lleol. Fel hyn, rwy'n gweld cynnwys sy'n hynod leol gan nad yw pethau'n aml yn cael eu cynnwys ar y prif ddarparwyr newyddion. Rwy'n byw yn yr ucheldiroedd ac felly dyma'r ardal orau i gael gwybodaeth leol gan bobl yn yr ardal leol" (Dynes, 25-34, Yr Alban)

4.26 Disgrifiodd cyfranogwyr hefyd rai manteision penodol o apiau neu grwpiau negeseuon lleol iawn, a oedd yn cael eu gwerthfawrogi ar gyfer rhybuddion amser real gan bobl yn eu cymuned am newyddion a gwybodaeth gymunedol benodol, er eu bod wedi mynegi'r un pryderon ynghylch dibynadwyedd y cyfryngau cymdeithasol. Roedd cyfranogwyr yn derbyn y risgiau sy'n gysylltiedig â'r math hwn o wybodaeth ond yn dadlau y gellid lliniaru'r rhain drwy gymedroli platfformau. Yn gyffredinol, roedd parodrwydd i dderbyn risgiau defnyddio cyfryngau cymdeithasol ar gyfer newyddion, o ystyried y manteision canfyddedig.

"Nid oedd gennym grŵp WhatsApp na thudalen grŵp Facebook yn y gorffennol, ond nawr rydym yn eu defnyddio sy'n wych oherwydd mae gennym ni bobl yn y gymuned yn diweddaru ni'n gyson gyda'r hyn sy'n digwydd, hyd yn oed os nad dyna'r newyddion mwyaf ar y pryd." (Dynes, 24-34, Llundain, Lloegr)

4.27 Canfu ein hymchwil, lle roedd sefyllfa'n datblygu ac yn newid yn gyflym, fod cyfranogwyr yn gwerthfawrogi cyflymder cyfryngau cymdeithasol neu apiau negeseuon dros gywirdeb ffynonellau cyfryngau traddodiadol fel bwletinau teledu rhanbarthol, gorsafoedd radio lleol neu bapurau newydd lleol mewn print.

4.28 Dywedodd rhai cyfranogwyr eu bod yn hoffi defnyddio ffynonellau ar-lein gan fod ganddynt reolaeth dros yr hyn roeddent yn ei weld, oherwydd gallent guradu eu ffrydiau eu hunain a chlicio ar straeon sydd o ddiddordeb yn unig. Fodd bynnag, er gwaethaf y teimlad hwn o reolaeth, wrth gwblhau ymarfer dyddiadur, canfu cyfranogwyr nad oeddent o reidrwydd yn ymwybodol o faint o gyfryngau lleol yr oeddent yn eu defnyddio ar-lein. Roedd hyn yn awgrymu rhyw lefel o ddefnydd goddefol, yn hytrach na gweithredol, sy'n cael ei yrru'n fwy gan algorithmau na chan benderfyniadau personol.

[38] Ofcom, 20 Gorffennaf 2023. Cael gafael ar newyddion yn y Deyrnas Unedig 2023: Canfyddiadau ymchwil, t.10-11.

4.29 **Print:** Roedd llai o'n cyfranogwyr ymchwil yn ddefnyddwyr newyddion print lleol rheolaidd, ond roedd y rhain yn gysylltiedig iawn â'u papurau newydd lleol, gan deimlo eu bod yn fwy lleol na chynigion newyddion eraill. Roeddent hefyd yn hoffi'r ffaith bod papurau lleol i'w gweld yn cynnig darlun mwy cyflawn o'r hyn a oedd yn digwydd yn eu hardal. Teimlai'r cyfranogwyr y byddent yn gweld eisiau darllen am straeon lleol a digwyddiadau cymunedol pe na bai'r ffynonellau hyn ganddynt.

4.30 Er bod llawer o gyfranogwyr yn gwerthfawrogi ffynonellau ar-lein yn fawr (ac apiau negeseuon i raddau llai), nid oedd y cyfranogwyr mwyaf difreintiedig yn ddigidol yn teimlo o reidrwydd eu bod yn colli allan oherwydd nad oedd ganddynt y rhain. Roeddent yn teimlo bod ganddynt eu ffyrdd eu hunain o ganfod beth oedd yn digwydd yn lleol, yn bennaf drwy siarad â phobl, gwrando ar y radio, gwylio'r newyddion teledu rhanbarthol, neu drwy ddarllen y papur newydd lleol.

## Roedd ymddiriedaeth mewn cynnwys cyfryngau lleol hefyd yn amrywio yn ôl platfform

4.31 Roedd y cyfranogwyr yn ein hymchwil ansoddol yn fwyaf tebygol o ymddiried mewn ffynonellau cyfryngau traddodiadol fel bwletinau teledu rhanbarthol a gorsafoedd radio lleol i ddarparu newyddion a gwybodaeth gywir, gyda chanfyddiadau o'u cynulleidfaoedd mwy a'u cronfeydd adnoddau, ac i ryw raddau nodwyd bod presenoldeb rheoleiddio yn sail i'r ymddiriedaeth hon. Ategwyd y teimlad hwn yn ein hymchwil ehangach i ddefnydd newyddion lle ystyriwyd bod newyddion ar blatfformau cyfryngau traddodiadol (teledu, papurau newydd a radio) yn fwy dibynadwy na newyddion ar gyfryngau cymdeithasol.[39]

> "Rwy'n ymddiried mwy mewn ffynonellau sy'n gorfod glynu wrth safonau. Mae gwybodaeth ail law o'r cyfryngau cymdeithasol a grwpiau negeseuon bob amser yn gallu creu sefyllfa lle mae safbwyntiau gwahanol yn gwrthdaro, gan hefyd gynnwys rhagfarn at safbwyntiau personol." (Dyn, 35-44, Gogledd Iwerddon)

4.32 Roedd cyfranogwyr yr ymchwil yn tueddu i ymddiried mewn fersiynau print o bapurau newydd dros bapurau ar-lein oherwydd bod canfyddiad y byddai mwy o amser yn cael ei gymryd i wirio ffeithiau newyddion a gwybodaeth cyn eu cyhoeddi (o ystyried bod llawer yn gyhoeddiadau wythnosol) ac ar ôl eu cyhoeddi mewn print, ni ellid diwygio neu ddileu'r wybodaeth. I'r gwrthwyneb, o ganlyniad i angen papurau newydd am 'gliciau', maent yn fwy tebygol o orliwio a chyffroi straeon, er eu bod hefyd yn cydnabod bod papurau newydd ar-lein yn diweddaru newyddion yn aml ac y gallent ddiwygio neu ddileu unrhyw wallau.

4.33 Fel y nodwyd uchod, roedd pobl yn aml yn gweld cyfaddawd rhwng ymddiriedaeth a/neu gywirdeb. Yn gyffredinol, mewn sefyllfa sy'n datblygu, roedd cyfranogwyr yn fwy parod i ffafrio cywirdeb yn hytrach na chyflymder. Pe bai'r mater yn bwysig iddynt, byddent yn buddsoddi amser i chwilio am nifer o ffynonellau i wirio a dysgu rhagor o fanylion.

## Roedd pobl yn teimlo bod cyfryngau lleol yn cyfrannu at gydlyniant cymdeithasol

---

[39] Ofcom, 20 Gorffennaf 2023. Cael gafael ar newyddion yn y Deyrnas Unedig 2023: Canfyddiadau ymchwil, t.11.

4.34 Er nad oedd bob amser ar flaen eu meddwl, roedd cynulleidfaoedd yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi rôl y cyfryngau lleol o ran cyfrannu at gydlyniant cymunedol. Roedd cynulleidfaoedd yn teimlo y gallai'r cyfryngau lleol helpu i feithrin hyn drwy greu ymdeimlad o gysylltiad, gan wneud iawn am golli rhyngweithio wyneb yn wyneb. Gwelwyd hefyd ei fod yn chwarae rhan mewn meithrin ymdeimlad o falchder mewn ardal, helpu pobl i deimlo'n fwy diogel, cynhyrchu buddion economaidd lleol, a dod â phobl at ei gilydd. Roedd ein cyfranogwyr yn teimlo y gallai'r cyfryngau cymdeithasol ychwanegu at gydlyniant cymunedol yn ogystal â thynnu oddi arno, ond ar y cyfan, roedd yr elfennau cadarnhaol (ee galluogi cymunedau lleol iawn a mwy o ryngweithio) yn drech na'r elfennau negyddol (ee posibilrwydd bod pobl yn cael camwybodaeth neu'n heidio yn erbyn rhywbeth).

4.35 I lawer o gyfranogwyr, nid oedd cysylltiad amlwg rhwng y cyfryngau lleol a democratiaeth leol, gyda chyfranogwyr iau yn benodol ddim yn mynd ati i chwilio am y math hwn o wybodaeth. Teimlai nifer llai o ymatebwyr y byddai dirywiad mewn newyddiaduraeth ymchwiliol yn niweidiol ac yn golygu na fyddai sefydliadau lleol yn cael eu dwyn i gyfrif, ac roedd pryder y byddai pobl yn cael eu hamlygu i amrediad culach o straeon. Er gwaethaf hyn, nid oedd unrhyw awydd i dalu am gynnwys newyddion lleol, gyda'r rhan fwyaf yn teimlo nad oedd cynnwys lleol o werth digonol iddynt dalu i danysgrifio i ddarparwr penodol.

> "Rydw i eisiau'r stori'n rhad ac am ddim ac rydw i eisiau ei gweld ar wefan neu ap neis; nid ydw i'n mynd i dalu amdani." (Grŵp wyneb yn wyneb, Newcastle, Lloegr)

## Roedd pobl yn fodlon ar y cyfan â'u profiad o'u hecosystemau cyfryngau lleol ond yn nodi rhai anfanteision

4.36 Roedd y rhan fwyaf o'n cyfranogwyr ymchwil yn teimlo bod eu disgwyliadau a'u hanghenion o ran ansawdd, swm a pherthnasedd newyddion a gwybodaeth leol yn cael eu bodloni. Roedd y rhan fwyaf o bobl yn hyderus y gallent gael newyddion a gwybodaeth berthnasol am ble roeddent yn byw drwy'r amrywiaeth o ffynonellau cyfryngau oedd ar gael iddynt, a bod eu hardal leol yn cael ei chynrychioli a'i phortreadu'n deg.

4.37 Dim ond ar ôl peth ystyriaeth y nododd lleiafrif y gallai fod rhai bylchau yn y ddarpariaeth o newyddion a gwybodaeth leol. Roedd prif bryderon cyfranogwyr yn ymwneud â'r risg bosibl o golli straeon newyddion pwysig am dri phrif reswm:

a) Eu harferion defnyddio eu hunain – sy'n golygu mai dim ond amrediad culach o straeon maent yn eu gweld fel arfer yn eu ffrydiau cyfryngau cymdeithasol, ac y byddai effaith algorithmau yn dwysáu'r duedd hunan-guradu hon ymhellach. Roeddent hefyd yn cyfeirio at bobl yn sgrolio'n ddifeddwl drwy ffrydiau cyfryngau cymdeithasol heb gasglu gwybodaeth o ddifri.

> "Dwi'n meddwl, ar ôl cwblhau'r dyddiadur cyfryngau, ei bod hi'n syndod i mi faint o amser roeddwn i'n ei dreulio ar-lein ond doeddwn i ddim wir yn gwybod beth oedd yn digwydd yn uniongyrchol yn fy ardal leol." (Dyn, 25-34, Gogledd Iwerddon)

b) Y ffaith nad yw rhai straeon yn cael eu hadrodd mwyach - roedd rhai pobl o'r farn bod papurau newydd lleol wedi ymgymryd â newyddiaduraeth fwy ymchwiliol yn y gorffennol ac wedi craffu mwy ar faterion lleol a'r broses gwneud penderfyniadau lleol.

Roedd canfyddiad nad oedd y fersiynau presennol o bapurau newydd lleol (ar-lein ac mewn print) yn darparu'r wybodaeth hon mwyach ac yn hytrach yn canolbwyntio ar straeon sy'n hawdd eu cynhyrchu fel ysgrifennu am ddigwyddiadau lleol yn seiliedig ar ddatganiadau i'r wasg neu newyddion enwogion a oedd wedi eu dylunio fel 'abwyd clicio'.

c) Bylchau daearyddol yn y ddarpariaeth o newyddion lleol manwl ar y lefel 'canol-leol', yn enwedig ymysg y rhai nad oeddent yn byw ger ardaloedd trefol mawr neu'n byw rhwng rhanbarthau (e.e. ar ffiniau sirol) – roedd papurau newydd lleol wedi darparu'r cynnwys hwn o'r blaen, a chafodd effaith eu dirywiad ei waethygu ymhellach gan newidiadau mewn perthynas â radio lleol sy'n golygu bod yr allbwn hwn hefyd wedi dod yn llai lleol.

4.38 Roedd y cyfranogwyr yn ymwybodol o effaith newidiadau yn y dirwedd cyfryngau lleol sydd wedi datblygu dros amser. Er enghraifft, nododd cyfranogwyr fod llai o bapurau newydd print lleol ar gael ers i ffynonellau ar-lein gynyddu, a'i bod yn fwy anodd dod o hyd iddynt. Sylwodd rhai ymatebwyr hefyd fod papurau newydd a gorsafoedd radio lleol yn cael eu meddiannu gan sefydliadau mwy ac roeddent yn teimlo bod yr allbwn yn dod yn llai lleol o ganlyniad. Roedd y rhan fwyaf naill ai'n ddibryder neu'n obeithgar ynghylch dirywiad y cyfryngau traddodiadol. Roedd y lleiafrif o bobl a oedd yn bryderus yn aml yn bobl hŷn, gweithgar yn y gymuned, ac roedd ganddynt brofiad o faterion lleol a oedd yn bwysig yn eu barn nhw, ac nid oedd y cyfryngau lleol yn rhoi sylw iddynt.

4.39 Er bod rhywfaint o bryder ynghylch cynulleidfaoedd hŷn yn cael eu gadael ar ôl drwy newid parhaus i fod ar-lein, nid oedd cyfranogwyr dan anfantais ddigidol yn teimlo eu bod yn colli allan i raddau helaeth, er eu bod mewn rhai achosion yn dod yn fwy dibynnol ar eu teuluoedd a'u rhwydweithiau cymdeithasol cyfagos i'w cadw mewn cysylltiad.

4.40 Yn gyffredinol, roedd y cyfranogwyr yn gadarnhaol am fanteision ffynonellau newyddion ar-lein a chyfryngau cymdeithasol. Er eu bod yn nodi anfanteision posibl y ffynonellau newyddion hyn – o ran lefelau is o ymddiriedaeth a chywirdeb, yn ogystal â chaniatáu lle ar gyfer meddylfryd 'cyfraith y dorf' a pheidio ag annog anghytuno – roeddent yn meddwl bod y manteision – newyddion a gwybodaeth am eu hardaloedd lleol oedd ar gael ar unwaith, yn berthnasol ac yn gyfredol – yn drech na'r risgiau.

> "Nawr mae gennym nifer o wahanol blatfformau ar flaenau ein bysedd, mae gennym y pŵer i ddewis beth, pryd a sut rydym yn gweld beth sy'n digwydd yn ein hardal. Credaf fod gan bobl leol ym mhob ardal o'r wlad bellach well dealltwriaeth o lawer o'r hyn sy'n digwydd yn eu cymuned o ganlyniad i'r gwahanol ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael. Yr unig anfantais weithiau yw nad yw'r wybodaeth sydd ar gael ar rai platfformau yn gywir gan ei bod yn cael ei hadrodd yn anghywir neu gan bobl sydd â barn a allai fod yn rhagfarnllyd." (Dynes, 34-44, East Anglia, Lloegr)

# 5. A all cyfryngau lleol barhau i ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd?

5.1 Er mwyn cael darlun cliriach o'r dirwedd cyfryngau lleol yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys yr heriau mae'n eu hwynebu, rydym hefyd wedi cwrdd ag amrywiaeth eang o randdeiliaid o bob rhan o sectorau cyfryngau lleol y Deyrnas Unedig i ategu ein gwaith dadansoddi data ac ymchwil cynulleidfaoedd. Mae'r rhain yn cynnwys darlledwyr a chyhoeddwyr, o grwpiau mawr i gwmnïau annibynnol, yn ogystal â chyrff masnach, sefydliadau dim-er-elw ac academyddion. Isod, rydym yn myfyrio ar y themâu allweddol sydd wedi dod i'r amlwg o'r sgyrsiau hyn, yn ogystal ag o'n hymchwil ansoddol ac ymchwil arall a gynhaliwyd ar y sector cyfryngau lleol.

## Mae cyfryngau lleol yn gallu darparu gwerth unigryw i ddefnyddwyr a'r gymdeithas ehangach y dylid eu diogelu a'u meithrin

5.2 Disgrifiodd rhanddeiliaid yn angerddol y gwerth y gall ac y dylai cyfryngau lleol ei gynnig i unigolion a chymunedau ledled y Deyrnas Unedig. Yn benodol, nododd rhanddeiliaid werth unigryw 'newyddion budd y cyhoedd' i gymunedau lleol. Gellir crynhoi diffiniad PINF o 'newyddion budd y cyhoedd' fel newyddion a gwybodaeth ddiduedd o ansawdd uchel sy'n darparu manteision i'r cyhoedd, gan gynnwys: rhoi gwybod i bobl am faterion sy'n berthnasol i'w rôl a'u cyfrifoldebau fel dinasyddion; cefnogi'r broses ddemocrataidd; cynnwys cymunedau lleol mewn pryderon cyffredin; ac adeiladu cydlyniant cymunedol. Roedd y rhinweddau hyn hefyd yn cael eu hadlewyrchu yn ein hymchwil defnyddwyr, a ganfu mai dwy o swyddogaethau pwysicaf cyfryngau lleol oedd: cyfrannu at ymddygiad a barn pobl, a chysylltu pobl drwy ddod â chymunedau at ei gilydd a meithrin ymdeimlad o berthyn.

5.3 Mae cyfryngau lleol wedi cael eu disgrifio'n flaenorol fel glud sy'n gallu helpu i glymu cymunedau at ei gilydd; creu cysylltiadau, ymdeimlad o falchder a theimlad o ddiogelwch. Bydd unrhyw ardal leol yn cynnwys pobl ag amrywiaeth o ddiddordebau, cefndiroedd a chredoau, a gall eu cyfryngau lleol chwarae rhan wrth hyrwyddo amrywiaeth o leisiau sy'n adlewyrchu amrywiaeth y gymuned honno yn ôl iddi hi ei hun, yn ogystal â'i gwerthoedd a'i diddordebau cyffredin. Gall darparwyr cyfryngau lleol hefyd dynnu sylw at ddigwyddiadau, chwaraeon a phrofiadau lleol, gan annog pobl i ddod at ei gilydd, a all yn eu tro hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol ac ymgysylltu â'r gymuned ymhellach. Roedd ymchwil a gomisiynwyd gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn cyfeirio at nifer o astudiaethau sy'n tynnu cysylltiad rhwng papurau newydd lleol ac ymgysylltu â'r gymuned, ymdeimlad o le ac ymddygiad gwleidyddol llai pegynol. Fe wnaeth cyfranogwyr yn ein hymchwil ansoddol a rhanddeiliaid eraill nodi y gallai hyrwyddo busnesau a digwyddiadau lleol helpu i ysgogi economïau lleol, gan ddod â phobl i'r ardal i wario arian.

5.4 Mae rôl hanfodol hefyd i ddarparwyr cyfryngau lleol ei chwarae o ran dal llywodraeth leol, sefydliadau a gwasanaethau cyhoeddus i gyfrif lle na fyddent fel arall yn cael fawr o oruchwyliaeth, er enghraifft, o ran sut mae trethi pobl leol yn cael eu gwario. Amlygodd rhai cyhoeddwyr newyddion hyperleol, er y gall straeon sy'n rhoi'r chwyddwydr ar gynghorau lleol ymddangos yn gyffredin ar yr wyneb, y maent er hynny yn bwysig o ran canolbwyntio sylw'r cyhoedd ar weithgareddau llywodraeth leol, ac mae gan waith ymchwiliol y potensial i arwain at newid cadarnhaol mewn gwasanaethau lleol. Er enghraifft, gallai tynnu sylw at aneffeithlonrwydd neu lywodraethu gwael yn ei dro arbed arian a chyfrannu at ffyniant ardaloedd lleol.

5.5 Yn yr un modd, ystyriwyd bod cyfryngau lleol, yn enwedig newyddion lleol budd y cyhoedd, yn werthfawr o ran datblygu ymgysylltiad democrataidd a dinesig. Mae'r un ymchwil gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi canfod cysylltiad cadarnhaol a sylweddol rhwng cylchrediad papurau newydd lleol, yn enwedig papurau newydd dyddiol, a'r nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau lleol. Mae hyn, ynghyd â'n trafodaethau ag academyddion a rhanddeiliaid, yn awgrymu y gall presenoldeb newyddion lleol cryf roi hwb i lythrennedd democrataidd, sy'n golygu bod pobl leol yn cael mwy o wybodaeth am faterion lleol ac yn fwy tebygol o ymgysylltu â'r broses ddemocrataidd, er enghraifft drwy bleidleisio mewn etholiadau lleol neu sefyll fel cynghorwyr lleol. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, canfu ein hymchwil ansoddol nad oedd llawer o gyfranogwyr yn gweld cysylltiad amlwg rhwng y cyfryngau lleol a democratiaeth leol ac nad oedd cyfranogwyr iau yn benodol yn chwilio am y math hwn o wybodaeth. Efallai y bydd cyfleoedd i gydweithio ar draws platfformau i feithrin ymwybyddiaeth y cyhoedd o werth cymdeithasol a dinesig y sector.

5.6 Fe wnaeth rhai rhanddeiliaid hefyd sôn am yr her gynyddol o gamwybodaeth, twyllwybodaeth a rhaniadau yn cael eu lledaenu drwy gyfryngau cymdeithasol fel Facebook, yn enwedig pan fydd ffynonellau cyfryngau lleol dibynadwy yn brin,[40] gan dynnu sylw at y rôl bwysig y gallai cyfryngau lleol cywir ac o ansawdd uchel ei chwarae o ran darparu datrysiad ar ffurf ffynonellau newyddion lleol cytbwys y gellir ymddiried ynddynt. Yn yr un modd, mae ein gwaith ar luosogrwydd yn y cyfryngau a newyddion ar-lein wedi canfod bod y bobl sy'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fwyaf i gael mynediad at newyddion yn llai tebygol o adnabod gwybodaeth ffeithiol bwysig yn gywir, teimlo mwy o elyniaeth tuag at bobl sydd â safbwyntiau gwleidyddol gwahanol ac sy'n ymddiried llai mewn sefydliadau democrataidd, na phobl sy'n defnyddio teledu a phapurau newydd fel ffynhonnell newyddion gan amlaf. Ni wnaethom ganfod bod y canlyniadau hyn yn gysylltiedig yn gyffredinol â defnyddio peiriannau chwilio na chyd-gasglu newyddion, ac roedd defnyddwyr o'r farn bod y ddau yn darparu newyddion mwy cywir o ansawdd uwch na chyfryngau cymdeithasol.

5.7 Mae hyn yn tynnu sylw at pa mor bwysig yw hi bod pobl o bob cefndir yn llythrennog yn y cyfryngau – gan feddu ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau i allu defnyddio cyfryngau lleol, gwybod beth yw camwybodaeth a thwyllwybodaeth a deall cynnwys o bwysigrwydd democrataidd yn feirniadol.

---

[40] Ymchwil gan y Prosiect Newyddiaduraeth Elusennol a gynhaliwyd gan Steven Barclay, Steve Barnett, Martin Moore a Judith Townend, Mehefin 2022. Local News Deserts in the UK: What effect is the decline in provision of local news and information having on communities?.

## Roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo bod gostyngiad wedi bod yn nifer ac ansawdd y newyddion er budd y cyhoedd a pherthnasedd newyddion lleol

5.8 Mae newyddion er budd y cyhoedd a newyddiaduraeth ymchwiliol yn ddrud ac yn cymryd amser i'w cynhyrchu. Nododd adolygiad Cairncross, wrth i refeniw ostwng, fod cyhoeddwyr wedi cael eu gorfodi i dorri costau ac rydym wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer y newyddiadurwyr a gyflogir gan bapurau newydd lleol yn ystod y degawdau diwethaf. Mae'r toriadau hyn yn debygol o fod wedi cael effaith arbennig o negyddol ar newyddiaduraeth er budd y cyhoedd a newyddiaduraeth ymchwiliol. Mae Arolwg Cael Gafael ar Newyddion Ofcom yn dangos bod defnyddwyr gwasanaethau newyddion lleol penodol yn dal yn fodlon ar y cyfan â'r gwasanaethau penodol hynny.[41] Fodd bynnag, canfu Adroddiad Newyddion Digidol 2024 Sefydliad Reuters er bod lefel cymharol uchel o ddiddordeb mewn newyddion lleol yn y DU (62%), roedd llai o bobl yn teimlo bod eu hanghenion gwybodaeth yn cael eu diwallu yn y maes hwn (57%) wrth gymharu â gwledydd eraill gyda lefel uchel o ddiddordeb mewn newyddion lleol. Er enghraifft, yn yr Iseldiroedd roedd gan yr un gyfran o bobl ddiddordeb mewn newyddion lleol â'r DU (62%), ond roedd cyfran uwch (71%) yn teimlo bod eu hanghenion gwybodaeth yn cael eu diwallu yn y maes hwn. Gan hynny, nodwyd bod y Deyrnas Unedig yn farchnad lle nad oedd anghenion newyddion lleol yn cael eu diwallu gystal â mannau eraill. Mae hyn, ynghyd â'n hymchwil ansoddol ein hunain, yn awgrymu y gallai rhai defnyddwyr fod yn fodlon â'r ffynonellau unigol maent yn eu defnyddio, ond nid â'r hyn mae'r farchnad newyddion leol yn ei gynnig yn gyffredinol.

5.9 Clywsom safbwyntiau rhanedig ar y mater hwn. Mynegodd rhai rhanddeiliaid ac academyddion bryderon bod cynnwys a ddarperir gan rai'r darparwyr cyfryngau lleol mwy o faint wedi dirywio o ran perthnasedd i gynulleidfaoedd lleol, wrth iddynt geisio targedu ardaloedd daearyddol mwy neu fuddiannau ehangach i gynyddu eu cyrhaeddiad. Fodd bynnag, derbyniodd cyhoeddwyr mwy fod graddfa yn ffactor pwysig o safbwynt busnes a bod cyfyngiadau economaidd ymarferol ar faint y cymunedau y gellir eu cwmpasu'n gynaliadwy. Mae'n bosibl mai tref ganolig yw'r raddfa ymarferol sylfaenol ar gyfer model newyddion lleol ar-lein, o ystyried bod y refeniw digidol yn is na'r refeniw print. Roedd eraill yn dadlau bod modelau tanysgrifio yn fwy hyblyg ac y gallant fod yn gynaliadwy i ddarparwyr o wahanol feintiau mewn ardaloedd mwy a llai.

5.10 Roedd rhai rhanddeiliaid ac academyddion yn dadlau bod mwy a mwy o dystiolaeth o 'sychdiroedd' neu 'anialdiroedd' newyddion lleol yn y Deyrnas Unedig: cymunedau a allai gael eu gwasanaethu gan fwletinau teledu gwledydd/rhanbarthau a radio lleol y BBC ond nad oes ganddynt fawr o newyddion lleol penodol neu ddim newyddion lleol penodol o gwbl sy'n cwmpasu ardal sy'n llai na'u gwlad, eu rhanbarth neu ardal gyfatebol. Fodd bynnag, mae'r hawliadau hyn yn aml yn cael eu herio gan ddarparwyr sy'n cynnig newyddion sy'n cynnwys yr ardal dan sylw i ryw raddau. Mae'r lefel yr ystyrir bod rhywbeth yn "lleol" yn y sefyllfaoedd hyn yn debygol o fod yn ffactor arwyddocaol yn y ddadl hon.

5.11 Roedd barn hefyd bod rhai papurau newydd lleol bellach yn cynnwys mwy o ddatganiadau i'r wasg wedi eu hailysgrifennu a bod gwefannau lleol yn cynnal cynnwys am enwogion ac 'abwyd clicio', a llai o ddarnau ymchwiliol. Ategwyd y pryderon hyn gan

[41] Cael gafael ar newyddion yn y DU 2023: Data ategol t. 29

leiafrif o'r ymatebwyr yn ein hymchwil ansoddol fel y nodwyd yn yr adran flaenorol. Awgrymwyd hefyd bod sefydliadau lleol yn fwyfwy anhygyrch ac yn amharod i ymgysylltu â newyddiadurwyr. Roedd cyhoeddwyr mwy hefyd yn dadlau bod gan bapurau newydd lleol ffocws eang yn hanesyddol a'u bod bob amser wedi ymdrin â phynciau sydd ag apêl dorfol. Dywedasant fod y papurau newydd lleol mwy fel arfer yn dal i gyrraedd y rhan fwyaf o'u cymunedau targed a bod ganddynt ddilyniant teyrngar.

5.12 Mae'n bosibl y bydd y ffordd maent yn cael gafael ar gynnwys hefyd yn effeithio ar ganfyddiadau pobl o'r cynnwys sydd ar gael gan ddarparwyr cyfryngau lleol. Canfu Adolygiad Cairncross, wrth newid i newyddion ar-lein, fod pobl yn llai tebygol o weld bwndel cymysg o newyddion am wleidyddiaeth, cyllid, adloniant a chwaraeon, ac yn fwy tebygol o weld stori unigol. Canfu'r Adolygiad fod gan y profiad hwn "wedi ei ddadfwndelu" oblygiadau ar gyfer amlygrwydd newyddion er budd y cyhoedd ac ar gyfer ymddiriedaeth mewn newyddion. Roedd rhai yn galw am fwy o ymchwil i archwilio ansawdd a lleolrwydd y straeon ar wefannau newyddion lleol.

5.13 Roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo bod y gostyngiad canfyddedig mewn 'newyddion budd y cyhoedd' yn gyfle i ddarparwyr llai, annibynnol. Fodd bynnag, mae'r darparwyr hyn, sy'n aml yn cael eu rhedeg ar sail wirfoddol, yn wynebu heriau ariannol, ac mae cwestiynau ynghylch a all siopau llai fod yn gynaliadwy ar draws y wlad, yn enwedig y tu allan i ddinasoedd ac mewn ardaloedd llai cefnog, heb gymorth.

## Mae'r sector yn wynebu heriau wrth iddo addasu i newidiadau yn ymddygiad cynulleidfaoedd a phwysau'n ymwneud â chyllido

5.14 Wrth i gynulleidfaoedd droi fwyfwy ar-lein am newyddion a gwybodaeth, ac wrth i fecanweithiau cyllido traddodiadol ddirywio, mae darparwyr cyfryngau lleol yn wynebu heriau o ran eu cynaliadwyedd wrth i lawer geisio symud tuag at ddigidol.

### Mae mwy a mwy o ffynonellau erbyn hyn yn cystadlu am sylw cynulleidfaoedd, yn enwedig ar-lein

5.15 Fel y nodir yn Adran 4, er bod darparwyr newyddion lleol bellach yn cyrraedd nifer fawr o bobl drwy eu gwefannau ar-lein, mae cyfryngau cymdeithasol hefyd wedi dod yn ffynhonnell fwyfwy poblogaidd ar gyfer newyddion a gwybodaeth leol. Mae twf cynnwys ar-lein yn ehangach, gan gynnwys drwy gyfryngau cymdeithasol a ffrydio ar-alw, yn cynnig mwy o opsiynau i gynulleidfaoedd o ran sut i dreulio eu hamser. Ymysg rhanddeiliaid, roedd bron pawb yn derbyn pwysigrwydd platfformau ar-lein fel llwybr i gyrraedd cynulleidfaoedd gyda newyddion lleol, yn awr ac yn y dyfodol.

5.16 Fodd bynnag, roedd llawer y buom yn siarad â nhw yn adleisio pryderon Adroddiad Newyddion Digidol Sefydliad Reuters a oedd yn nodi bod cyrraedd cynulleidfaoedd iau gyda newyddion drwy unrhyw lwybr yn dod yn fwyfwy anodd a bod cyfran fawr o'r boblogaeth yn ymddieithrio oddi wrth newyddion neu'n osgoi'r newyddion yn gyfan gwbl.[42] Yn ogystal, canfu ein hymchwil ddiweddar i newyddion ar-lein fod digideiddio


[42] Astudiaeth Newyddiaduraeth Sefydliad Reuters, 2024. Adroddiad Newyddion Digidol Sefydliad Reuters 2024, t. 21-22, a t. 27.

newyddion wedi arwain at broblemau strwythurol eraill i gyhoeddwyr newyddion. Er enghraifft, lle mae newyddion yn cael ei ddarparu fel postiad ar wasanaeth cyfryngau cymdeithasol, mae gan ystafelloedd newyddion berthynas fwy pell â'u darllenwyr. Mae hyn yn golygu y gall fod yn anoddach cael gafael ar ddata ar ymddygiad a dewisiadau defnyddwyr, bwndelu cynnwys at ei gilydd, a chynnal brand cryf.

## Er gwaethaf y newid ar-lein, nid yw refeniw hysbysebu digidol wedi gwrthbwyso'r gostyngiad mewn refeniw hysbysebu print a theledu

5.17 Mae dadansoddiad o refeniw hysbysebu ar gyfer brandiau newyddion rhanbarthol yn darparu rhagor o dystiolaeth o'r heriau sy'n gysylltiedig â dilyn cynulleidfaoedd ar-lein. Er bod y darlun yn amrywio rhywfaint ymysg cyhoeddwyr, yn gyffredinol bu gostyngiad mewn refeniw dros y degawd diwethaf. Gyda'i gilydd, mae refeniw wedi gostwng tua 64% - o £1.25 biliwn yn 2014 i £454 miliwn yn 2023. Mae hysbysebion print traddodiadol wedi dod yn llai deniadol i hysbysebwyr, yn rhannol oherwydd y gostyngiad mewn cylchrediad; amcangyfrifodd Enders Analysis y gallai cylchrediad papurau newydd lleol fod wedi mwy na haneru yn y degawd hyd at 2022. Er bod refeniw digidol bellach yn cyfrif am dros hanner refeniw hysbysebu brandiau newyddion rhanbarthol, nid yw hyn wedi gwrthbwyso'r gostyngiad serth mewn refeniw print ers 2014, gan fod sefydliadau newyddion traddodiadol wedi colli allan ar ffurfiau mwy penodol o hysbysebu ar-lein.

**Ffigur 13: Cyfanswm refeniw hysbysebu brandiau newyddion rhanbarthol: print o'i gymharu â digidol, £m.**




*Ffynhonnell: Adroddiad Gwariant AA/WARC. Mae'r ffigurau'n enwol.*

5.18 Yn y farchnad deledu leol ac ar gyfer newyddion teledu rhanbarthol, mae chwyddiant costau ar draws sector cynhyrchu teledu'r Deyrnas Unedig[43] wedi rhoi pwysau pellach ar ddarparwyr, ar ben colli refeniw hysbysebu darlledu.[44] Yn y sector radio masnachol lleol, dywedodd rhanddeiliaid y bu mwy a mwy o gystadleuaeth ar gyfer gwrandawyr a

[43] Oliver & Ohlbaum Associates, Awst 2023. Understanding the UK's TV production sector, t.22.
[44] Ofcom, Awst 2023. Cyfryngau'r Genedl, t. 32 – 33.

hysbysebwyr, ochr yn ochr â chynnydd yn y gost o greu cynnwys lleol. Rhwng 2017 a 2022, gostyngodd refeniw hysbysebu radio masnachol lleol o £140 miliwn i £102 miliwn, er bod hyn hefyd yn rhannol oherwydd effeithiau cysylltiedig â Covid-19.[45]

5.19 Tynnodd rhai rhanddeiliaid sylw hefyd at heriau o ran dod o hyd i newyddiadurwyr medrus, gyda llawer yn awgrymu bod llai o ddiddordeb mewn newyddiaduraeth fel gyrfa. Mae amodau gwaith cynyddol heriol, aflonyddu ar y cyfryngau cymdeithasol a gyrfaoedd eraill sy'n talu'n well wedi cael eu crybwyll fel rhesymau posibl dros hyn, yn ogystal â'r gostyngiad yn nifer yr allfeydd llai lle gall newyddiadurwyr newydd gael hyfforddiant a phrofiad.

## Roedd darparwyr cyfryngau lleol wedi amlinellu effaith platfformau technoleg ar draffig gwefannau a refeniw

5.20 Fel y nodir yn ein dogfen trafod lluosogrwydd yn y cyfryngau a newyddion ar-lein, er bod creu cynnwys newyddion yn dal i ddibynnu ar gyhoeddwyr papurau newydd a darlledwyr, mae peiriannau chwilio, platfformau cyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau cyd-gasglu wedi ymgymryd â rôl gynyddol bwysig mewn rhannau eraill o'r gadwyn gwerth newyddion, gan gynnwys curadu, darganfod a gwneud arian o'r newyddion. Mae ein hymchwil newyddion ar-lein diweddar sy'n defnyddio technoleg olrhain llygaid yn dangos bod safle erthygl mewn ffrwd cyfryngau cymdeithasol yn cael effaith sylweddol ar y tebygolrwydd y bydd erthygl yn cael ei darllen, a faint o sylw mae'n ei gael. Mae ein hymchwil ansoddol hefyd yn awgrymu bod cyfran o ddefnydd ar-lein sy'n oddefol ac yn cael ei gyrru'n fwy gan algorithmau na phenderfyniadau personol gweithredol, gan adleisio ymchwil blaenorol gan Ofcom. Roedd llawer o randdeiliaid y buom yn siarad â nhw yn teimlo nad oedd llawer o dryloywder o ran penderfyniadau platfformau technoleg mawr ynghylch eu halgorithmau argymhellion newyddion lleol a chanlyniadau unrhyw chwilio, gan ei gwneud yn anodd i ddarparwyr newyddion a chynnwys ar-lein lleol gyrraedd cynulleidfaoedd yn ddibynadwy a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae rhai platfformau, fel Google, yn cyhoeddi adnoddau i helpu perchnogion gwefannau i wneud eu cynnwys yn haws ei ddarganfod.

5.21 Nododd Pwyllgor yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ymchwiliad i gynaliadwyedd newyddiaduraeth leol y gall newidiadau i algorithmau platfformau effeithio ar amlygrwydd cynnwys newyddion a faint o draffig y mae'n ei dderbyn. Yn ei dystiolaeth i'r ymchwiliad, disgrifiodd Newsquest sut y "gall addasu'r algorithm gan Facebook arwain at ostyngiad sylweddol mewn traffig" a'i fod yn teimlo "yn atebol i bŵer eu halgorithm ar gyfer llawer o'i gynulleidfa ddigidol ac i lawer o'i refeniw hysbysebu ar gyfer rhaglenni". Ategwyd y farn hon yn ehangach yn ein trafodaethau â rhanddeiliaid.

5.22 Mae nifer o adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn dangos bod atgyfeiriadau o Facebook at gyhoeddwyr newyddion wedi gostwng dros amser.[46] Fel y nodwyd uchod, ym mis Rhagfyr 2023, fe wnaeth Meta ddileu'r tab newyddion Facebook yn y Deyrnas Unedig ac mae'n ymddangos hefyd ei fod wedi bod yn dad-flaenoriaethu newyddion dros gyfnod hirach, fel wrth ddod â'i gyllid ar gyfer y Prosiect Newyddion

[45] Ofcom, Awst 2023. Cyfryngau'r Genedl, t. 47.
[46] Press Gazette, 4 Mai 2023. As Reach warns of traffic slowdown: How Facebook referrals to publishers have plummeted, Reuters Institute, Journalism, Media, and Technology Trends and Predictions 2024, ac Enders Analysis, 29 Ebrill 2024. Life after Facebook: Quo vadis for news distribution.

Cymunedol i ben, a allai effeithio ar ymwybyddiaeth a gwylio newyddion lleol. Yn ychwanegol, mae X (Twitter gynt) hefyd wedi gwneud newidiadau i newyddion ar ei blatfform ac mae rhai cyhoeddwyr newyddion wedi bod yn troi at blatfformau eraill wrth i atgyfeiriadau leihau. Lleisiwyd yr her o gyrraedd cynulleidfaoedd ar Facebook yn benodol, yn sgil newidiadau algorithmig, yn ein trafodaethau gyda chyhoeddwyr, ac mewn ymchwil ddiweddar ymysg cyhoeddwyr annibynnol. Mae Adroddiad Newyddion Digidol Sefydliad Reuters 2024 yn awgrymu bod y newidiadau hyn mewn strategaeth yn cyfrannu at fwy o ddarnio sylw ar gyfer newyddion ar draws gwahanol blatfformau digidol, gan gynnwys newid tuag at rwydweithiau fideo fel YouTube, TikTok ac Instagram.

5.23 Mynegodd rhanddeiliaid bryderon hefyd am gyfran y refeniw hysbysebu ar-lein a gymerir gan y platfformau technoleg. Dadleuodd rhai y byddai digon o refeniw hysbysebu yn y sector i bobl nad oedd yn rhaid iddynt dalu am newyddion lleol pe na bai toriad mor sylweddol yn cael ei gymryd. Yn 2020, canfu'r CMA fod cyfryngwyr ar-lein (y mwyaf o'r rhain yw Google) yn cipio o leiaf 35% o werth hysbysebion a brynir gan bapurau newydd a darparwyr cynnwys eraill yn y Deyrnas Unedig.

## Mae cyhoeddwyr lleol yn ceisio adeiladu ffrydiau refeniw newydd, ond nid yw llawer o ddarllenwyr eisiau talu am newyddion

5.24 Fe wnaeth llawer o ddarparwyr, ar bapur ac ar-lein, ddweud wrthym pa mor bwysig yw refeniw adeiladu o danysgrifiadau ar ben hysbysebion, ond roeddent hefyd yn mynegi pryderon am y parodrwydd isel i dalu am newyddion, yn enwedig ymysg pobl iau. Canfu ymchwil gan Sefydliad Reuters mai dim ond 8% o oedolion yn y Deyrnas Unedig oedd yn talu i gael mynediad at newyddion ar-lein. Canfu hefyd na fyddai 69% o'r rhai nad ydynt yn tanysgrifio yn y Deyrnas Unedig yn ystyried talu dim am newyddion ar-lein, sef y gyfran uchaf o'r 20 gwlad sydd wedi eu cynnwys yn y rhan honno o'r astudiaeth. Ni chanfu ein hymchwil ein hunain fawr o awydd ymysg cyfranogwyr i dalu am newyddion lleol, er gwaethaf rhai canfyddiadau o fwlch yn y ddarpariaeth a phryder ymysg lleiafrif ynghylch gostyngiad mewn adroddiadau ymchwiliol.

5.25 Mae prinder modelau talu â darllenydd sefydledig yn debygol o gyfrannu at yr her y mae cyhoeddwyr yn ei hwynebu wrth drosi darllenwyr print yn danysgrifwyr digidol. Roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo bod penderfyniad cyhoeddwyr yn y Deyrnas Unedig ym mlynyddoedd cynnar y rhyngrwyd i sicrhau bod eu cynnwys ar gael am ddim ar-lein, gyda chefnogaeth hysbysebion yn unig, wedi cyfrannu at lefelau isel o barodrwydd i dalu am newyddion ar-lein. Awgrymwyd hefyd bod gan gyhoeddwyr fwy o waith i'w wneud o ran cyfleu gwerth newyddion lleol sy'n cael eu cyllido drwy danysgrifiad i gynulleidfaoedd.

5.26 Fodd bynnag, mae rhai cyhoeddwyr wedi cynyddu eu tanysgrifiadau ar-lein ac yn gweld hyn fel maes ffocws yn y dyfodol. Er enghraifft, yn 2022/23, adroddodd DC Thomson gynnydd blynyddol mewn refeniw tanysgrifiadau digidol o bron i 50% (er mai dim ond 4% o'r holl refeniw cylchrediad yw'r rhain o hyd). Mae cyhoeddwyr newyddion lleol hefyd yn awyddus i ehangu eu hystod o ffrydiau refeniw drwy gynnig cynnyrch ychwanegol fel podlediadau a chylchlythyrau.

5.27 Mae darparwyr newyddion lleol bach ac annibynnol hefyd yn parhau i ddefnyddio ffynonellau refeniw eraill. Yn ei Mynegai diweddaraf o Gyhoeddi Newyddion Annibynnol yn y Deyrnas Unedig, canfu PINF fod hysbysebu yn parhau i fod yn ffrwd refeniw bwysig i gyhoeddwyr annibynnol, ond bod canfyddiad cyffredin bod busnesau lleol yn cwtogi ar

hysbysebion lleol. Rydym hefyd wedi gweld cwmnïau annibynnol yn defnyddio modelau aelodaeth cydweithredol ac arian torfol i gyllido eu hunain. Mae'r darparwyr hyn yn aml yn feirniadol o'r canfyddiad sydd ganddynt eu bod wedi eu heithrio o ffrydiau refeniw penodol, fel hysbysiadau cyhoeddus neu wariant hysbysebu'r llywodraeth. Staffio yw gwariant mwyaf cyhoeddwyr yn aml, ac mewn llawer o achosion mae cyhoeddwyr newyddion lleol annibynnol yn weithrediadau bach iawn sydd wedi eu gwreiddio mewn cymunedau, sy'n dibynnu ar staff rhan-amser, gwirfoddol a llawrydd ac sy'n aml yn dibynnu'n helaeth ar un unigolyn yn eu plith. Canfu PINF fod y staff ar gyfartaledd mewn cyhoeddwr annibynnol yn gyfystyr â dau weithiwr cyfwerth ag amser llawn, i lawr o dri yn 2023, a bod y sector, gan gynnwys cyhoeddwyr er elw, yn dibynnu ar wirfoddolwyr yn fwy nag erioed.

### Dramor, mae darparwyr cyfryngau lleol yn wynebu heriau tebyg

5.28 Mae darparwyr cyfryngau yn yr UE hefyd yn ei chael hi'n anodd cystadlu â phlatfformau ar-lein am refeniw hysbysebu ac mae'r rhan fwyaf o ddinasyddion yr UE wedi dod i arfer â chael gafael ar newyddion ar-lein am ddim. Mae'r bwlch hwn rhwng y gwerth sy'n gysylltiedig â chynnwys newyddion a'i werth ariannol yn her allweddol i gynaliadwyedd economaidd y darparwyr cyfryngau newyddion ledled Ewrop. Yn yr Unol Daleithiau, mae papurau newydd print yn dirywio'n sylweddol ac mae dewisiadau digidol amgen yn parhau i fod yn brin er gwaethaf cynnydd mewn cyllid dyngarol. Canfu adroddiad gan y Local News Initiative fod cyfuno ym marchnad yr Unol Daleithiau wedi gweld y grwpiau mwyaf – sy'n aml yn eiddo i gwmnïau buddsoddi neu'n ddyledus iddynt – yn siapio'r dirwedd, yn prynu ac yn gwerthu papurau newydd ac yn cau rhai nad ydynt yn broffidiol na ellir eu gwerthu. Canfu hefyd fod dros un rhan o bump o ddinasyddion bellach yn byw mewn anialwch newyddion fel y'i gelwir neu mewn cymunedau sydd mewn perygl o gael eu hychwanegu at y rhestr honno.

## Mae darparwyr cyfryngau lleol yn ymateb i'r heriau hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd arloesol

5.29 Mae'r sectorau teledu, radio a phrint lleol wedi gweld llawer o gyfuno dros y blynyddoedd diwethaf.[47] Mae hyn wedi galluogi busnesau i leihau costau gweithredu a sicrhau arbedion maint drwy fwy o ganoli a rhannu swyddogaethau a seilwaith corfforaethol. Gall mwy o raddfa a chyrhaeddiad cynulleidfaoedd hefyd fod yn fwy deniadol i hysbysebwyr a galluogi arloesi. Fodd bynnag, gall hefyd arwain at ostyngiad yn yr amrywiaeth o gynnwys a lleisiau sydd ar gael i gynulleidfaoedd.

5.30 Dywedodd llawer o'r rhanddeiliaid y buom yn siarad â nhw wrthym am eu symudiad tuag at fod ar-lein a sut maen nhw'n arbrofi gyda'r mathau gwahanol o gynnwys i ddeall beth sy'n gweithio orau, gan gynnwys cynnwys fideo ar ffurf fyrrach, cynnwys sy'n cael ei

[47] Er enghraifft, yn y sector print, prynodd National World JPI Media (a elwid gynt yn Wasg Johnston) am £10m ym mis Ionawr 2021, The Rotherham Advertiser ym mis Mai 2023 a Midland News Association, (a oedd yn un o gyhoeddwyr newyddion rhanbarthol annibynnol mwyaf y Deyrnas Unedig) am £11m ym mis Medi 2023. Ym mis Mawrth 2022 fe wnaeth Newsquest brynu Archant, gan ychwanegu 50 o deitlau wythnosol eraill a phedwar teitl dyddiol yn ogystal â chylchgronau rhanbarthol, at ei bortffolio presennol o dros 250 o frandiau newyddion lleol. Yn y sector radio, yn 2019 prynodd Bauer Media Group yr holl drwyddedau radio lleol a oedd yn cael eu dal gan Wireless Group, Lincs FM, Celador Radio ac UKRD.

gynhyrchu gan ddefnyddwyr a darnau mwy manwl. Fe wnaeth rhanddeiliaid print ac ar-lein drafod yr ymdrechion roeddent wedi eu gwneud i symud eu ffocws o leihau refeniw hysbysebu tuag at danysgrifiadau, gan dynnu sylw at bwysigrwydd cynnwys sy'n ymgysylltu â darllenwyr am gyfnodau hirach.

5.31 Roedd cydnabyddiaeth y bydd cyfleoedd newydd hefyd i gyhoeddwyr newyddion lleol wrth i ddeallusrwydd artiffisial ddod yn fwy cyffredin, fel cefnogi creu cynnwys ar draws gwahanol blatfformau cyfryngau. Er enghraifft, mae Newsquest wedi datblygu rhaglen deallusrwydd artiffisial gan ddefnyddio technoleg ChatPGT, a ddefnyddir ac a oruchwylir gan 13 o ohebwyr sydd â chymorth deallusrwydd artiffisial, sy'n gallu ail-ysgrifennu datganiadau i'r wasg a chofnodion cyfarfodydd cynghorau yn null stori newyddion Newsquest lleol. Dadleuir y gallai'r adnoddau hyn ryddhau newyddiadurwyr i ymgymryd â mwy o newyddiaduraeth 'ar lawr gwlad'. Fodd bynnag, mae rhai rhanddeiliaid yn amheus o'r honiad hwn ac wedi mynegi pryderon ehangach ynghylch defnyddio deallusrwydd artiffisial mewn newyddion, gan gynnwys risgiau i swyddi, ansawdd cynnwys a'r potensial i AI hwyluso'r gwaith o greu a dosbarthu cynnwys 'ffug', gan gynyddu'r risg o amlygu pobl i gamwybodaeth a gwybodaeth gamarweiniol ar-lein.[48]

5.32 Fe wnaeth rhai rhanddeiliaid dynnu sylw hefyd at grŵp entrepreneuraidd o ddarparwyr sy'n adfer yr economi (*green shoots)*, y mae llawer ohonynt wedi gallu adeiladu sylfaen o danysgrifwyr brwd a sicrhau cyllid dyngarol, er eu bod yn gweld yr un heriau o ran cynaliadwyedd. Mae'r rhain fel arfer yn ddarparwyr cyfryngau newyddion annibynnol a di-elw sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddarparu newyddion er budd y cyhoedd i'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu, fel The Manchester Mill, The Bristol Cable a chyhoeddiadau'r Social Spider Community News yng Ngogledd Llundain. Cyfeiriodd nifer o randdeiliaid hefyd at benderfyniad y Comisiwn Elusennau i roi statws elusennol i'r darparwr newyddion lleol The Guildford Dragon, gyda'r bwriad o ddarparu newyddion er budd y cyhoedd. Gallai hyn fod yn llwybr newydd y gall darparwyr llai ei ddilyn i elwa ar ostyngiadau treth a chyllid dyngarol sydd wedi eu cyfyngu i elusennau cofrestredig, er bod hyn yn dod gyda chafeatau ynghylch gweithgarwch gwleidyddol.

5.33 Soniodd amrywiaeth o randdeiliaid am bwysigrwydd arallgyfeirio ffrydiau refeniw ar draws y sectorau cyfryngau lleol. Mae'r strategaethau'n cynnwys: ategu refeniw hysbysebu a thanysgrifio drwy werthu straeon i deitlau cenedlaethol; gwella eu presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol; cynnig hyfforddiant; gwneud cais am grantiau a ffurfio partneriaethau. Er enghraifft, mae'r Public Interest News Gateway (neu Ping!), sy'n cael ei redeg ar y cyd â'r ICNN ac sy'n cael ei gefnogi gan y Google News Initiative, yn agor ffrwd refeniw newydd ar gyfer newyddiadurwyr cymunedol annibynnol ac yn cynyddu cyrhaeddiad eu cynnwys drwy sicrhau ei fod ar gael yn rhwydd i gyhoeddwyr cenedlaethol a rhanbarthol traddodiadol. Mae rhai darparwyr llai hefyd yn defnyddio platfformau cylchlythyr fel Substack i ddarparu newyddion lleol gyda gorbenion is.

5.34 Soniodd rhanddeiliaid hefyd am amrywiaeth o bartneriaethau roeddent wedi ymrwymo iddynt i gael gafael ar gyllid ac adnoddau ychwanegol, gan gynnwys y Bartneriaeth Newyddion Lleol rhwng y BBC a darparwyr newyddion rhanbarthol, sy'n cael ei thrafod yn fanylach isod. Yn ychwanegol, ers 2022, mae Google News Showcase wedi talu i gyhoeddwyr sy'n cymryd rhan i guradu eu straeon sy'n ymddangos yng nghynhyrchion

[48] Gweler hefyd Ofcom, 15 Medi 2023. Cyflwyno Tystiolaeth i ymchwiliad Pwyllgor Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg Tŷ'r Cyffredin i lywodraethu deallusrwydd artiffisial; a Hsu a Thompson, The New York Times, 2023, Disinformation Researchers Raise Alarms About A.I. Chatbots.

newyddion Google, fel Google News a Discover. Mae'r Google News Initiative hefyd yn cynnig adnoddau, hyfforddiant a chyllid i helpu sefydliadau newyddion i arloesi a meithrin cadernid. Mae nifer o gyfryngau lleol hefyd wedi ffurfio partneriaeth â phrifysgolion i hyfforddi a gweithio gyda myfyrwyr sy'n newyddiadurwyr, er enghraifft KM Media Group a partner Phrifysgol Caint ar sianel deledu leol KMTV, tra bod eraill yn cynnig eu cynlluniau hyfforddi eu hunain. Nododd rhai rhanddeiliaid fod gweithio ar draws y sectorau print, radio a theledu yn golygu y gallent elwa o adnoddau a rennir a gwell ymwybyddiaeth o frand, er nad dyma oedd y norm.

## Mae'r BBC yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddarparu allbwn cyfryngau lleol ledled y Deyrnas Unedig

5.35 Cenhadaeth y BBC yw gwasanaethu pob cynulleidfa ac, fel yr amlinellir yn ei Ddibenion Cyhoeddus, darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd ar lefelau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol, yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Mae hefyd yn cyfrannu at luosogrwydd ym mhob maes newyddion. O ystyried y gwerth cymdeithasol pwysig mae newyddion budd y cyhoedd lleol yn ei ddarparu, a'r potensial na fydd yn cael ei ddarparu'n ddigonol gan y sector masnachol mewn rhai ardaloedd, mae gan y BBC rôl bwysig i'w chwarae i sicrhau y gall cynulleidfaoedd ledled y Deyrnas Unedig barhau i gael mynediad at newyddion budd y cyhoedd lleol diduedd ac o ansawdd uchel o fewn ei ddarpariaeth leol.

5.36 Mae'r BBC wedi darparu newyddion lleol a rhanbarthol ers tro byd ar draws ei wasanaethau teledu, radio ac ar-lein. Mae hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr newyddion eraill i gefnogi'r dirwedd cyfryngau leol ehangach. Mae'r Bartneriaeth Newyddion Lleol yn fenter lle mae'r BBC a mwy na 200 o sefydliadau cyfryngau lleol, sy'n cynrychioli dros 1,100 o allfeydd print, ar-lein neu ddarlledu, yn dod at ei gilydd gyda'r nod o gefnogi adroddiadau gwasanaeth cyhoeddus, cynnal democratiaeth leol a gwella sgiliau mewn newyddiaduraeth.

5.37 Mae'r Bartneriaeth Newyddion Lleol yn cynnwys y Gwasanaeth Gohebu Democratiaeth Leol, gyda ffi trwydded y BBC yn ariannu cyflogi hyd at 165 o Ohebwyr Democratiaeth Leol mewn sefydliadau cyfryngau lleol i adrodd ar gynghorau lleol a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Mae'r gohebwyr hyn yn uwchlwytho tua 1,200 o straeon lleol bob wythnos i borth canolog, y gall unrhyw ddarparwr sydd wedi cofrestru ar gyfer y bartneriaeth ei ddefnyddio. Mae'r Bartneriaeth hefyd yn cynnwys Hyb Newyddion, sy'n rhoi mynediad i sefydliadau cyfryngau allanol at ddeunydd fideo'r BBC i'w ddefnyddio ar-lein, ac Uned Data a Rennir, sy'n darparu newyddiaduraeth data i sefydliadau newyddion sy'n defnyddio setiau data cyhoeddus, ar bynciau fel dyledion cynghorau lleol. Yn fwy cyffredinol, mae'r BBC wedi ffurfio partneriaeth â gorsafoedd radio cymunedol drwy'r Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol. Mae'r bartneriaeth hon wedi caniatáu rhannu cynnwys radio lleol y BBC â gorsafoedd cymunedol yn ystod pandemig Covid-19.

5.38 Fel rhan o'i gynlluniau i addasu i arferion newidiol cynulleidfaoedd a dod yn sefydliad cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus digidol yn gyntaf, mae'r BBC yn moderneiddio rhai o'i wasanaethau lleol drwy leihau gwariant ar ei wasanaethau darlledu lleol traddodiadol ac ailfuddsoddi hyn mewn cynnwys ar-lein. Fel y nodir uchod, mae'r BBC wedi gwneud newidiadau i'w wasanaethau radio lleol yn Lloegr yn ddiweddar, gan gyflwyno mwy o

rannu rhaglenni ar adegau o’r dydd pan fydd llai o wrandawyr, ar yr un pryd â diogelu bwletinau newyddion lleol a rhaglenni chwaraeon byw. Fe wnaeth y BBC hefyd gau’r rhaglenni newyddion teledu lleol yn Rhydychen a Chaergrawnt yn 2022. Mae’r BBC yn defnyddio arbedion a wneir o’r newidiadau hyn i fuddsoddi mewn cynnwys newyddion ar-lein lleol a’i gynyddu ar draws gwefan ac ap BBC News, gan gynnwys ei bedwar mynegai ar-lein lleol newydd ar gyfer Bradford, Wolverhampton, Wear a Peterborough. Mae hefyd wedi buddsoddi’r arian sy’n cael ei arbed o’r newidiadau hyn mewn newyddiaduraeth ymchwiliol aml-blatfform drwy 11 o dimau rhanbarthol a Thîm Ymchwiliadau Hir canolog, y mae’r BBC yn dweud ei fod wedi cael y dasg o bennu agenda ar gyfer newyddiaduraeth yn lleol ac ar draws Lloegr.

5.39 Fodd bynnag, wrth i’r BBC foderneiddio a gwneud newidiadau, rhaid iddo sicrhau bod y gwerth cyhoeddus sy’n gysylltiedig â newid yn cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Rydym yn egluro ein dull o ystyried effaith newidiadau i’r BBC ar gystadleuaeth yn Adran 6.

## Mae’r BBC wedi cael ei ddisgrifio fel cystadleuydd ac fel darparwr ategol i ddarparwyr eraill yn y sector cyfryngau lleol

5.40 Rydym wedi clywed dwy farn gyffredinol am sefyllfa’r BBC yn y sector cyfryngau lleol. Mae wedi cael ei ddisgrifio fel cystadleuydd sy’n gwasgu darparwyr masnachol allan, yn ogystal â darparwr ategol sy’n cynnig rhywbeth gwahanol. Roedd pryderon ynghylch newidiadau diweddaraf y BBC fel arfer yn canolbwyntio ar ei fuddsoddiad cynyddol mewn cynigion newyddion lleol ar-lein.

5.41 Dywedodd y rhai a oedd yn teimlo bod allbwn y BBC yn ategol ar draws teledu, print ac ar-lein wrthym fod y BBC naill ai’n darparu cynnig gwahanol iddynt neu’n gwasanaethu cynulleidfa wahanol. Er enghraifft, roedd y BBC yn gyffredinol yn cael ei weld fel un a oedd yn cyrraedd cynulleidfa hŷn na llawer o ddarparwyr masnachol. Gwelwyd hefyd ei fod yn canolbwyntio'n fwy ar gynulleidfaoedd ar lefel genedlaethol, nad ydynt yn tueddu i orgyffwrdd â darparwyr sy’n canolbwyntio ar ardaloedd lleol llai. Roedd hyn yn arbennig o wir ar gyfer cyhoeddwyr annibynnol llai gyda chynulleidfaoedd hyperleol. Roedd eraill yn teimlo bod cynnwys y BBC ei hun yn wahanol i’w cynnwys nhw, gan awgrymu bod y BBC yn adrodd yn gyffredinol ar straeon newyddion fel digwyddiadau ffeithiol, yn hytrach nag adrodd straeon am y bobl maen nhw’n effeithio arnyn nhw.

5.42 Roedd darparwyr radio yn fodlon ar y cyfan â’r newidiadau i radio lleol y BBC yn Lloegr ac yn pwysleisio pa mor bwysig yw cynnwys llafar er mwyn gwahaniaethu rhyngddo a radio masnachol lleol. Fodd bynnag, roedd rhai pryderon ynghylch effaith penderfyniad y BBC i gyflwyno mwy o rannu rhaglenni ar gyfer gwasanaethau radio lleol ar gynulleidfaoedd. Nodwyd bod cynulleidfaoedd hŷn yn benodol yn fwy tebygol o ddefnyddio radio lleol y BBC a bod y newidiadau’n debygol o effeithio mwy arnynt.

5.43 Roedd rhai hefyd yn teimlo y byddai gweld y BBC yn cynyddu ei newyddion lleol ar-lein yn gwneud synnwyr gan mai dyma lle mae cynulleidfaoedd yn symud, ac roeddent yn ei weld fel peth da o ran lluosogrwydd. Nododd yr academyddion y buom yn siarad â nhw rôl bwysig y BBC o ran darparu newyddion diduedd sy’n cael ei gyllido’n gyhoeddus, yn enwedig o gofio am y cynnydd mewn camwybodaeth.

5.44 Fodd bynnag, roedd nifer o gyhoeddwyr rhanbarthol yn poeni bod y BBC yn rhoi pwysau ychwanegol ar eu refeniw drwy gynnig mwy a mwy o gynnwys newyddion lleol ysgrifenedig ar-lein, sydd, yn eu barn nhw, yn berthnasol i’r sector masnachol. Roeddent

yn teimlo bod pobl yn llai tebygol o ddefnyddio gwefannau newyddion sy'n cynnwys hysbysebion neu'n gofyn am gofrestru ar gyfer tanysgrifio â thâl pan fydd y BBC yn cynnig cynnwys mae cynulleidfaoedd yn ei ystyried yn debyg am ddim a heb hysbysebion o gwbl. Soniodd rhai o'r cyhoeddwyr rhanbarthol mwy yn benodol am y mater hwn mewn ardaloedd yn Lloegr lle mae'r BBC wedi lansio ei fynegeion ar-lein newydd yn ddiweddar.

5.45 Codwyd pryderon hefyd fod y BBC yn rhoi sylw i'r straeon mwyaf poblogaidd mewn ardaloedd lleol, gyda rhai'n awgrymu bod y BBC yn ymddangos yn uwch mewn canlyniadau chwilio ar-lein na darparwyr masnachol a allai, ymysg pethau eraill, yn eu barn nhw fod oherwydd nad yw darpariaeth y BBC yn cynnwys hysbysebion. Cafwyd galwadau hefyd i'r BBC briodoli straeon yn well pan oeddent wedi eu cael gan drydydd partïon a chysylltu mwy â ffynonellau lleol i gael rhagor o wybodaeth.[49] Roedd rhai'n dadlau bod y BBC yn chwilio am boblogrwydd neu safbwyntiau pan ddylai fod yn canolbwyntio ar gynnwys lleol o ansawdd uchel nad yw'n cael ei ddarparu gan y sector masnachol. Roedd sawl darparwyr - yn rhai mawr a bach - hefyd yn poeni bod y staff maen nhw'n eu hyfforddi yn gadael eu sefydliadau i ymuno â'r BBC, sy'n awgrymu ei fod yn aml yn gallu cynnig cyflogau mwy.

5.46 Roedd awydd cyffredinol gan rai rhanddeiliaid llai yn y diwydiant a rhanddeiliaid nid-er-elw i weld y BBC sefydlu mwy o bartneriaethau â ddarparwyr cyfryngau lleol a rhannu mwy o adnoddau a chynnwys archif.

5.47 Dywedodd academyddion y buom yn siarad â nhw nad oedd tystiolaeth o effaith y BBC ar refeniw darparwyr masnachol wedi cael ei gweld ac roedd yn heriol ei chasglu; roedd hyn yn cyd-fynd â safbwyntiau rhai rhanddeiliaid yn y diwydiant. Teimlai eraill nad oes tystiolaeth dda ar gyfer effaith gadarnhaol neu negyddol y BBC yn y sector ac y dylid gwneud mwy o ymchwil. Fel y trafodwyd yn Adran 6, rydym yn bwriadu edrych ar dueddiadau yn y defnydd o newyddion lleol ar-lein yn ein hadroddiad terfynol ym mis Tachwedd fel rhan o'n gwaith yn monitro effaith newidiadau'r BBC i newyddion lleol ar-lein.

## Mae'r Gwasanaeth Adroddiadau Democratiaeth Leol yn bwysig i'r sector a gwnaed awgrymiadau i'w ddatblygu

5.48 Codwyd yr LDRS gan lawer o randdeiliaid y buom yn siarad â nhw ac roedd yn cael ei ystyried yn ychwanegiad pwysig at y sector i raddau helaeth. Roedd cytundeb bod y math o adrodd a gwmpesir gan y gwasanaeth, sy'n edrych ar awdurdodau lleol a sefydliadau, o'r budd mwyaf i'r cyhoedd, ond hefyd yn un o'r rhannau lleiaf cynaliadwy o'r sector newyddion lleol o safbwynt masnachol. Roedd y gwasanaeth yn cael ei weld fel llinell sylfaen bwysig ar gyfer adrodd ar ddemocratiaeth leol y gallai'r sector adeiladu arno. Fodd bynnag, mynegodd rhai rhanddeiliaid bryderon ynghylch sut mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg a'r gwelliannau a argymhellir.

5.49 Dywedodd cyhoeddwyr annibynnol bod y rhan fwyaf o gontractau'r Gwasanaeth Gohebu Democratiaeth Leol gyda grwpiau papurau newydd mwy, ac roeddent yn dadlau y dylid

[49] Mae Trwydded Weithredu'r BBC yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ddarparu dolenni digonol i ddeunydd a ddarperir gan drydydd partïon mewn perthynas â BBC Ar-lein. Cyhoeddodd y BBC ddata ar y dolenni mae'n eu darparu ar ei wefannau newyddion ar-lein yn ei adroddiad, [Cyflawni ein Cenhadaeth a'n Dibenion Cyhoeddus: perfformiad y BBC yn 2022/23](), t.11.

dyfarnu mwy i ddarparwyr llai.[50] Codwyd y gost gorbenion i ddeiliad y contract o orfod cynnal gohebwyr LDRS lluosog fel rhwystr posibl ar gyfer cyhoeddiadau llai, tra bod gan grwpiau papurau newydd mawr ystafelloedd newyddion ledled y Deyrnas Unedig gyda thimau golygyddol sy'n gallu cefnogi nifer fwy o ohebwyr. Mewn ymateb i'r pryder hwn, mae'r BBC wedi lleihau nifer y gohebwyr sydd eu hangen fesul contract ac mae mwy o gwmnïau annibynnol wedi cael contractau yn y rownd ddiwethaf yn 2021. Tynnodd nifer o randdeiliaid sylw hefyd at y ffaith bod yr holl erthyglau a ysgrifennwyd gan ohebwyr LDRS ar gael am ddim i'r 200 a mwy o sefydliadau partner sydd wedi cofrestru ar gyfer y cynllun Partneriaeth Newyddion Lleol, p'un a oes ganddynt gontract ar gyfer gohebydd ai peidio.

5.50 Mae galw wedi bod ar yr LDRS i ddarparu cynnwys fideo a sain yn ogystal â'r cynnwys testun sy'n cael ei gynhyrchu ar hyn o bryd. Er bod y BBC eisoes yn rhannu cynnwys fideo ar ei hyb Newyddion, mae'r nifer sy'n manteisio ar hyn yn isel gan nad oes modd rhedeg hysbysebion ochr yn ochr â'r cynnwys. Ar hyn o bryd mae gohebydd LDRS amlgyfrwng yn cael ei dreialu gyda KM Media Group a gellir hysbysebu gyda'r cynnwys hwn. Cawn ar ddaell bod amrywiaeth o bartneriaid yn defnyddio'r adnodd hwn.

5.51 Clywsom hefyd alwadau am fwy o dryloywder ynghylch sut mae arian yn cael ei wario ar y gwasanaeth, o gofio ei fod yn cael ei gyllido'n gyhoeddus. Mae darn gan Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr (NUJ) yn tynnu sylw at y gyfradd uchel o newidiadau ymysg gohebwyr yr LDRS ac yn cwestiynu a ydynt i gyd yn cael eu digolledu'n briodol o'r cyllid a ddarperir gan y BBC. Mae hefyd yn nodi bod y cynnydd blynyddol yng nghyllid y BBC yn is na chwyddiant.

5.52 Roedd rhai rhanddeiliaid hefyd yn teimlo y gellid plismona'r LDRS yn well, gan godi pryderon bod gohebwyr yn ymdrin â phynciau y tu allan i gylch gwaith y gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'r BBC wedi dweud ei fod yn goruchwylio allbwn gohebwyr yr LDRS ac yn ymchwilio i gwynion mae'n eu cael am eu hadroddiadau. Cododd darparwyr eraill bryderon bod gohebwyr yr LDRS yn disodli newyddiadurwyr presennol, yn enwedig yn y grwpiau papurau newydd mwy, yn hytrach na'u hategu i lenwi bwlch mewn adrodd ar ddemocratiaeth leol. Dywedodd y BBC, pan fydd newyddiadurwr eisoes yn cael ei gyflogi gan ddeiliad y contract yn symud i rôl LDRS, na fydd y BBC yn rhyddhau cyllid nes bydd ei rôl flaenorol wedi cael ei hôl-lenwi.

5.53 Roedd rhai darparwyr annibynnol hyperleol yn feirniadol o'r LDRS, gan ddadlau ei fod yn dyblygu cynnwys democratiaeth leol roeddent eisoes wedi ei gynhyrchu ac y gallai'r cyllid eu cynorthwyo mewn ffyrdd mwy effeithlon. Fodd bynnag, mae'r angen am gynllun i gefnogi adrodd ar ddemocratiaeth leol yn y lle cyntaf yn awgrymu bod sefyllfaoedd fel y rhain yn eithaf anghyffredin ar draws y Deyrnas Unedig.

5.54 Roedd Adolygiad Cairncross yn argymell y dylai'r Llywodraeth annog mireinio ac ymestyn yr LDRS ac roedd yr ymchwiliad i gynaliadwyedd newyddiaduraeth leol yn argymell ei fod yn cael ei ddiogelu o dan drafodaethau'r Siarter sydd ar y gweill, ac yn annog y BBC i edrych ar ffyrdd o ehangu cwmpas y gwasanaeth. Mae pwysigrwydd y cynllun a llawer o'r pryderon ynghylch ei weithredu a nodir uchod yn cael eu hategu yn y ddau ddarn hwn o waith.

---

[50] Mae'r rhestr lawn o gontractau'r Gwasanaeth Gohebu Democratiaeth Leol a ddyrannwyd yn dangos bod 99 o'r contractau 118 yn cael eu dal gan Reach plc, Newsquest a National World.

## Cafwyd amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch sut gellid cefnogi'r sector

### Tynnodd rhanddeiliaid sylw at sawl ffynhonnell bosibl o gyllid neu gymorth

5.55 Teimlai llawer o randdeiliaid y gallai rhyw fath o gyllid allanol, yn ogystal â refeniw masnachol, ddiogelu'r gwerth y gall cyfryngau lleol a newyddion budd y cyhoedd lleol ei ddarparu i ddinasyddion y Deyrnas Unedig. Codwyd sawl llwybr presennol ar gyfer cymhorthdal cyhoeddus uniongyrchol ac anuniongyrchol, gan gynnwys yr LDRS, mesurau lliniaru trethi, gwariant hysbysebu'r llywodraeth a hysbysiadau cyhoeddus. Roedd canfyddiad o gyhoeddiadau llai a sefydliadau dim-er-elw bod y grwpiau papurau newydd mwy yn derbyn y rhan fwyaf o'r cymorth hwn. O ganlyniad, roedd galwadau am dargedu mecanweithiau cymhorthdal yn fwy gofalus ac am fonitro eu canlyniadau i sicrhau bod darparwyr o bob maint yn gallu elwa ohonynt.

5.56 Yn ogystal â'r gwelliannau a awgrymwyd i'r LDRS a drafodir uchod, roedd galwadau am gynyddu ei gyllid i ddarparu mwy o ohebwyr democratiaeth leol. Roedd eraill yn amheus o ddefnyddio ffi trwydded y BBC i gyllido cyhoeddwyr masnachol a nododd fod y cynllun yn bodoli ar hyn o bryd i gefnogi adrodd ar ddemocratiaeth leol yn hytrach na chynnal y sector cyfryngau lleol. Fel y nodwyd uchod, mae rhanddeiliaid ar draws y sectorau teledu, radio ac argraffu lleol hefyd wedi galw ar y BBC i sicrhau bod ei gynnwys sain a fideo ehangach ar gael yn rhwyddach i'r sector cyfryngau lleol a heb gafeatau'r News Hub. Galwodd eraill hefyd ar y BBC i briodoli straeon yr oeddent wedi eu cael gan drydydd partïon yn well, a chysylltu mwy â ffynonellau lleol i gael rhagor o wybodaeth.

5.57 Yn ogystal, mae pryder parhaus bod y meini prawf i benderfynu lle mae hysbysiadau cyhoeddus yn cael eu hysbysebu yn hen ffasiwn ac yn ffafrio papurau newydd print dyddiol neu wythnosol, ar draul cyhoeddwyr digidol yn gyntaf a chyhoeddwyr digidol yn unig sy'n cyhoeddi deunydd bob mis neu bob chwarter, hyd yn oed pan allent fod â chyrhaeddiad uwch yn yr ardal leol. Argymhellodd ymchwiliad Pwyllgor yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i gynaliadwyedd newyddiaduraeth leol y dylid adolygu'r rheolau hyn ond ni chafodd ei ddatblygu gan y Llywodraeth oherwydd pryderon am yr effaith ar bapurau newydd lleol mewn print.

5.58 Yn fwy cyffredinol, gwahaniaethwyd rhwng cyllid uniongyrchol sy'n talu cynhyrchwyr cynnwys a chyllid sy'n cefnogi arloesi; mae'n bosibl y bydd y cyntaf yn tueddu i gynnal y status quo a bod ei angen yn barhaus, tra bod gan yr olaf y potensial i weithredu fel cyllid sbarduno cychwynnol i wella allbwn a chynaliadwyedd. Soniodd nifer o randdeiliaid yn y sector print am yr argymhelliad gan Adolygiad Cairncross i gyflwyno cronfa arloesi i wella'r cyflenwad o newyddion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd. Yn 2019, gofynnodd yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i Nesta gyflwyno Cronfa Beilot Newyddion y Dyfodol i nodi ac arddangos arloesi mewn newyddion er budd y cyhoedd a phrofi'r tir ar gyfer buddsoddiadau yn y dyfodol. Canfu Adroddiad Diwedd Rhaglen Nesta yn 2020 fod 'egin ecosystem arloesi newyddion' yn ffurfio ond bod angen buddsoddiad cyhoeddus hirdymor mewn arloesi i gynnal newyddion er budd y cyhoedd. Galwodd rhanddeiliaid am fwy o ymchwil ac ystyriaeth o enghreifftiau rhyngwladol o gymhorthdal cyhoeddus ar gyfer newyddion lleol, a chreu cronfa o ymchwil sydd ar gael yn gyhoeddus a mesur cynulleidfaoedd yn ddefnyddiol i'r sector.

5.59 Clywsom alwadau hefyd i'w gwneud yn haws i ddarparwyr newyddion lleol ennill statws elusennol, fel sy'n cael ei drafod uchod, er mwyn iddynt allu elwa ar ostyngiadau treth a chyllid dyngarol sydd wedi eu cyfyngu i elusennau cofrestredig. Soniodd rhai rhanddeiliaid hefyd am roi cymhorthdal i danysgrifio i ffynonellau newyddion ar-lein neu mewn print, yn enwedig i fyfyrwyr a phobl iau. Tynnwyd sylw hefyd at werth cefnogaeth y platfformau digidol mawr, fel y Fenter Google News a'r Prosiect Newyddion Cymunedol y soniwyd amdanynt yn barod, er y codwyd cwestiynau ynghylch faint y gellir dibynnu ar fentrau o'r fath yng ngoleuni penderfyniad Meta i ddod â'i gyllid i ben yn y maes hwn. Roedd rhai rhanddeiliaid hefyd yn dadlau bod y cyllid a gynigir gan blatfformau digidol yn sylweddol is na'r refeniw maent yn ei gynhyrchu drwy hysbysebu ochr yn ochr â chynnwys cyhoeddwyr newyddion ac y gallent fynd ymhellach heb niweidio elw.

5.60 Dywedodd rhanddeiliaid yn y sectorau print ac ar-lein eu bod yn obeithiol y bydd y Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr (DMCC) yn cyfrannu rhywfaint at fynd i'r afael â'r anghydbwysedd yn y pŵer bargeinio maent yn ei wynebu wrth ddelio â phlatfformau digidol mawr fel Google a Facebook. Maent yn rhagweld y bydd yn eu helpu i sicrhau telerau tecach ar gyfer defnyddio eu cynnwys ac yn golygu mwy o dryloywder ynghylch traffig cyfeirio. Yn ei ganllawiau drafft ar y drefn cystadleuaeth marchnadoedd digidol a nodir yn y Ddeddf DMCC, mae'r CMA yn egluro y gall osod gofynion ymddygiad ar gwmnïau sydd â 'statws marchnad strategol' (SMS) mewn perthynas â delio'n deg a thryloywder. Bydd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd hefyd yn gallu datrys achosion o dorri amodau ymddygiad sy'n ymwneud â thelerau talu rhwng cwmni SMS a thrydydd parti drwy arfer ei bŵer i fabwysiadu'r mecanwaith cynnig terfynol. Mae defnyddio'r adnodd hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r CMA ddewis un o'r cynigion a gyflwynir gan bob parti, fel dewis olaf er mwyn sicrhau bod achosion o dorri rheolau ymddygiad yn cael eu datrys.

5.61 Daeth pwysigrwydd ymwybyddiaeth o'r cyfryngau i'r amlwg hefyd yn ein trafodaethau ag academyddion. Mae Ofcom yn diffinio ymwybyddiaeth o'r cyfryngau fel "y gallu i ddefnyddio, deall a chreu cyfryngau a chyfathrebiadau ar draws nifer o fformatau a gwasanaethau". Yn ein hymgynghoriad diweddar ar ein Strategaeth Tair Blynedd ar Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau, fe wnaethom nodi rôl Ofcom i adlewyrchu'r angen i wneud ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn gyfrifoldeb ar bawb ac i Ofcom weithredu fel catalydd a chynullydd i hyrwyddo arferion gorau ac ehangu canlyniadau. Mae rhai o'r materion rydym yn bwriadu canolbwyntio arnynt fel rhan o'r Strategaeth yn arbennig o berthnasol i gyfryngau lleol, gan gynnwys camwybodaeth a thwyllwybodaeth a chynnwys o bwysigrwydd democrataidd.

## Yn fyd-eang, mae diwygiadau newyddion lleol wedi cael eu rhoi ar waith gyda lefelau amrywiol o lwyddiant

5.62 Mae'r mater o ddigolledu busnesau newyddion yn deg pan fydd eu cynnwys ar gael ar blatfformau mawr wedi arwain at weithredu codau bargeinio yn Awstralia a Chanada. Roedd Cod Bargeinio Gorfodol Platfformau Digidol a Chyfryngau Newyddion Awstralia wedi arwain at Google a Meta yn talu AU$200M i gyhoeddwyr newyddion Awstralia yn y flwyddyn gyntaf o weithredu. Roedd rhai o gyhoeddwyr Awstralia wedi buddsoddi'r refeniw a gawsant i ehangu eu gweithrediadau rhanbarthol a gwledig drwy gyflogi

newyddiadurwyr newydd. [51] Ers hynny mae Meta wedi dweud na fydd yn ymrwymo i gytundebau masnachol newydd gyda chyhoeddwyr yn Awstralia pan ddaw eu cytundebau cyfredol i ben, yn unol â'r dull y mae wedi'i fabwysiadu yn Ffrainc, yr Almaen, y DU ac UDA.

5.63 Mae gan Ddeddf Newyddion Ar-lein Canada, a basiwyd ym mis Mehefin 2023, nodau tebyg i God Awstralia ond gyda rhai gwahaniaethau. Er enghraifft, mae disgwyl i blatfformau sy'n gweithredu yng Nghanada ddangos bod cytundebau a wneir gyda chyhoeddwyr newyddion Canada yn cynnwys cyfran o'r refeniw sy'n cael ei gyfnewid i gefnogi'r gwaith o gynhyrchu cynnwys newyddion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Dywedodd Meta fod y Ddeddf Newyddion Ar-lein yn ddiffygiol a rhoddodd y gorau i rannu newyddion ar ei wasanaethau yng Nghanada pan basiwyd y ddeddfwriaeth. Dywedodd Google y byddai'n cymryd camau tebyg ond ers hynny mae wedi cytuno ar gytundeb gyda Llywodraeth Canada i greu cronfa flynyddol o CA$100M i'w dosbarthu i gyhoeddwyr y wasg yng Nghanada. Mae gwledydd eraill fel Brasil, India, Indonesia a De Affrica yn archwilio mesurau deddfwriaethol sydd â nodau tebyg i fodelau Awstralia a Chanada.

5.64 Mae cyfryngau lleol a chymunedol yng Nghanada ac mewn sawl gwlad yn yr Undeb Ewropeaidd yn cael eu cefnogi gan gymorthdaliadau'r wladwriaeth. Daw'r rhain mewn amrywiaeth o ffurfiau, er bod dulliau cyffredin yn cynnwys cymorth ariannol ar gyfer prosiectau arloesi digidol, cynlluniau sy'n blaenoriaethu cyflogadwyedd i newyddiadurwyr, gostyngiadau TAW ar gyfer newyddion a gynhyrchir mewn fformatau digidol a chredydau treth i ddefnyddwyr sy'n tanysgrifio. Er enghraifft, yn Awstria mae cynlluniau grant yn bodoli i gefnogi cyhoeddwyr rhanbarthol a bach gyda phrosiectau trawsnewid digidol, cynlluniau hyfforddi newyddiadurwyr a chynhyrchu newyddiaduraeth o safon. Mae gan Ffrainc hefyd nifer o gynlluniau cymhorthdal gwladol sy'n cynnwys arian ar gyfer cyfryngau budd y cyhoedd lleol a radio cymunedol. Canfu astudiaeth ddiweddar fod cymorthdaliadau'r wladwriaeth yng ngwledydd yr Undeb Ewropeaidd wedi arwain at fanteision i'r cyfryngau lleol, ond nid yw cymorth ariannol ar ei ben ei hun yn ddigonol ac mae angen dull gweithredu mwy cyflawn i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag ymddiriedaeth, osgoi newyddion ac ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.[52]

5.65 Ar draws yr Undeb Ewropeaidd, canfu'r un astudiaeth fod cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn gwneud yn dda ar y cyfan o ran sylw rhanbarthol a lleol. Fodd bynnag, mae cyrraedd ardaloedd gwledig ac anghysbell yn broblem gyffredin ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a darparwyr masnachol, ac mae tuedd i ddarparwyr cyfryngau ddarparu sylw rhanbarthol o ganolfannau trefol, gydag adrodd o ddesg yn cymryd lle casglu newyddion ar lawr gwlad. Mae'r ymyriadau a awgrymir i fynd i'r afael â'r mater hwn yn cynnwys datblygu rheoliadau i warantu isafswm cyflogau a chynlluniau nawdd cymdeithasol ar gyfer newyddiadurwyr lleol, a gwarantu cymorth ariannol digonol i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i gynnal canghennau newyddion lleol a chyflogi gohebwyr lleol.

[51] Llywodraeth Awstralia, Tachwedd 2022, News Media and Digital Platforms Mandatory Bargaining Code: The Code's first year of operation.

[53] Wrth lunio barn ar hyn, rydym yn disgwyl i'r BBC ystyried ffactorau fel newyddwch, hyd, defnydd a graddfa, yn ogystal â'r ffactorau a nodir ym mharagraff 4.41 Canllawiau Ofcom ar gyfer Asesu Effaith Arfaethedig Newidiadau i Weithgareddau Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC wrth asesu beth sy'n perthyn i'r categori hwn.

## Byddwn yn ystyried y themâu hyn ymhellach yn ail ran ein hadolygiad

5.66 Cyn cyhoeddi ein hadroddiad terfynol yn nes ymlaen eleni, byddwn yn edrych ymhellach ar y themâu a nodir uchod ochr yn ochr ag unrhyw dystiolaeth newydd a gasglwn, wrth ystyried cynaliadwyedd sector cyfryngau lleol y Deyrnas Unedig yn y dyfodol, gan gynnwys cyfrannu at unrhyw argymhellion y gallwn eu gwneud ynghylch sut gellir cynorthwyo'r sector am flynyddoedd i ddod. Mae Adran 7 yn nodi camau nesaf ein gwaith yn fanylach.

# 6. Asesu effaith newidiadau i newyddion lleol y BBC ar gystadleuaeth

6.1 Yn ei Adolygiad Canol Tymor o'r BBC, argymhellodd y Llywodraeth y dylai Ofcom gyhoeddi crynodebau blynyddol o'n barn ar sefyllfa'r BBC yn y sectorau newyddion lleol, yn ogystal â sut y byddem yn mynd ati i ystyried effaith cystadleuaeth newidiadau i wasanaethau newyddion lleol y BBC, fel rydym wedi gwneud yn flaenorol ar gyfer y sectorau clyweledol a sain.

6.2 Rydym yn nodi isod ein dull o ystyried effaith newidiadau i wasanaethau newyddion lleol y BBC ar gystadleuaeth. Rydym hefyd yn egluro'r gwaith pellach y byddwn yn ei wneud i fynd i'r afael â'r argymhelliad gan y Llywodraeth a'r gwaith monitro sy'n ymwneud â newyddion lleol ar-lein a fydd yn sail i'n hadroddiad terfynol ym mis Tachwedd.


## Asesiadau cystadleuaeth y BBC

6.3 Mae newyddion lleol yn bwysig i ddinasyddion a defnyddwyr ledled y Deyrnas Unedig. Mae lluosogrwydd mewn adroddiadau newyddion yn bwysig er mwyn darparu amrywiaeth a dewis, sy'n creu rolau hanfodol i'r BBC a sefydliadau masnachol eu chwarae yn y broses o ddarparu newyddion lleol. Mae'r cyntaf o Ddibenion Cyhoeddus y BBC yn nodi y dylai'r BBC "… gynnig amrywiaeth a dyfnder o ddadansoddiadau a chynnwys nad yw ar gael yn eang gan ddarparwyr newyddion eraill y Deyrnas Unedig… fel y gall pob cynulleidfa ymgysylltu'n llawn â materion pwysig yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol, yn y Deyrnas Unedig a ledled y byd, yn ogystal â chyfrannu at y broses ddemocrataidd, ar bob lefel, fel dinasyddion gweithredol a gwybodus." Mae gan y BBC arfer hirsefydlog o ddarparu newyddion lleol a rhanbarthol ar deledu, radio ac ar-lein.

6.4 Wrth i anghenion cynulleidfaoedd esblygu, mae'n hanfodol bod y BBC yn gallu addasu ei wasanaethau i aros yn berthnasol a pharhau i gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus. Fodd bynnag, gan fod y BBC yn sefydliad mawr sy'n cael arian cyhoeddus, gallai rhai newidiadau y mae'n dymuno eu gwneud effeithio'n sylweddol ar gystadleuaeth yn y sector newyddion lleol ehangach. Felly, mae cydbwysedd rhwng caniatáu i'r BBC wneud y newidiadau angenrheidiol i'w wasanaethau er mwyn cyflawni ei Genhadaeth i weithredu er budd y cyhoedd a gwasanaethu pob cynulleidfa, a diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol.

6.5 Mae Ffigur 14 isod yn rhoi crynodeb o brosesau'r BBC ac Ofcom ar gyfer asesu effaith newidiadau arfaethedig i Wasanaethau Cyhoeddus y BBC ar gystadleuaeth, fel y nodir yn adrannau 7 i 11 y Cytundeb Fframwaith. Mae Adrannau 4 a 5 o Ganllawiau Ofcom ar gyfer asesu effaith arfaethedig newidiadau i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC hefyd yn nodi'r gweithdrefnau a'r dulliau sydd ynghlwm wrth ystyried newidiadau i'r BBC.

**Ffigur 14: Prosesau ar gyfer asesu effaith newidiadau i Wasanaethau Cyhoeddus y BBC ar gystadleuaeth**




* Gan ddefnyddio asesiad byrrach, gall Ofcom gymeradwyo newid yn unig neu gyfarwyddo'r BBC i ail-wneud ei Brawf Lles y Cyhoedd

6.6 Rhaid i'r BBC ystyried yn gyntaf a yw unrhyw newid i'w wasanaethau newyddion lleol yn berthnasol. Ar hyn o bryd, caiff newidiadau perthnasol eu diffinio fel rhai a allai; i) gyflwyno Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn y Deyrnas Unedig neu ii) gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.[53] Efallai y bydd newidiadau arfaethedig gan y BBC sydd, er eu bod o bosibl y newidiadau proffil uchel, yn rhan o'i fusnes o ddydd i ddydd ac nid yn "berthnasol" yn yr ystyr penodol o'r term a nodir yn y Cytundeb (ee penderfyniadau unigol ynghylch amserlennu rhaglenni). Yn achos gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus, mae newidiadau o'r fath yn golygu nad yw cymeriad a graddfa bresennol y gwasanaeth, yn ei hanfod, yn newid. Rydym yn cydnabod y cyfle i newidiadau busnes fel arfer o'r math hwn fynd rhagddynt heb ymyrraeth reoleiddiol. [54] Serch hynny, rydym yn disgwyl i'r BBC ymgysylltu'n briodol â ni i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ddatblygiadau. Pan fydd y BBC yn cynnal asesiad perthnasedd ac yn canfod nad yw newid arfaethedig yn berthnasol, rydym yn disgwyl i'r BBC anfon yr asesiad perthnasedd atom i'w adolygu.[55] Mae'r BBC yn rhydd i weithredu newidiadau nad ydynt yn berthnasol.

6.7 Ar gyfer newidiadau perthnasol i wasanaethau newyddion lleol y BBC, rhaid i'r BBC gynnal Prawf Lles y Cyhoedd. Mae'r Prawf yn golygu bod yn rhaid i Fwrdd y BBC fod yn fodlon bod y cynnig arfaethedig yn cyfrannu at Genhadaeth y BBC ac at hyrwyddo o leiaf un o'r Dibenion Cyhoeddus. Rhaid i'r BBC fod wedi cymryd camau rhesymol i ddileu effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol nad ydynt yn angenrheidiol at y

[53] Wrth lunio barn ar hyn, rydym yn disgwyl i'r BBC ystyried ffactorau fel newyddwch, hyd, defnydd a graddfa, yn ogystal â'r ffactorau a nodir ym mharagraff 4.41 Canllawiau Ofcom ar gyfer Asesu Effaith Arfaethedig Newidiadau i Weithgareddau Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC wrth asesu beth sy'n perthyn i'r categori hwn.
[54] Ofcom, 2023. Canllawiau ar gyfer asesu effaith y newidiadau arfaethedig i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC: Atodiad 2, paragraff 4.10.
[55] Gweler hefyd baragraffau 4.42 i 4.54 o Sut mae Ofcom yn rheoleiddio effaith y BBC ar gystadleuaeth: Newidiadau i ganllawiau a gofynion.

diben hwnnw a bod yn fodlon bod y gwerth cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r newid yn cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol sy'n weddill.

6.8 Yna, byddwn yn cynnal asesiadau cystadleuaeth y BBC (BCA), neu asesiad byrrach.[56] Mae rôl BCA Ofcom yn cynnwys:

a) adolygiad o'r gweithdrefnau mae'r BBC wedi eu dilyn yn ei brawf budd y cyhoedd (gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon);
b) adolygiad o asesiad y BBC o werth cyhoeddus, gan brofi dadansoddiad y BBC a'r ystod o dystiolaeth roedd wedi dibynnu arni i ddangos gwerth cyhoeddus ychwanegol y cynnig sy'n fwy na'i wasanaethau presennol;
c) ein hasesiad ein hunain ynghylch a fyddai'r newidiadau a fyddai'n deillio o gynnig y BBC yn cael effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, casglu tystiolaeth ychwanegol ac ystyried materion sydd wedi cael eu codi gan randdeiliaid eraill fel sy'n briodol; ac
d) asesiad terfynol ynghylch, ar sail ffeithiau penodol yr achos ac ar ôl ystyried yr holl ddyletswyddau a rhwymedigaethau perthnasol, a ydy gwerth cyhoeddus y cynnig yn cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol bosibl ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

## Ein dull o asesu effaith newidiadau i wasanaethau newyddion lleol y BBC ar y farchnad

6.9 Mae cystadleuaeth yn cael ei gwerthfawrogi oherwydd gall arwain at ganlyniadau da i ddefnyddwyr ac i gymdeithas yn gyffredinol. Er enghraifft, mae cystadleuaeth yn gwthio cwmnïau i wneud y defnydd gorau o'u hadnoddau ac arloesi i ddarparu gwasanaethau newydd a deniadol i ennill cwsmeriaid. Gallai newidiadau a gynigir gan y BBC i'w Wasanaethau Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig gael effaith ar gystadleuaeth ym marchnadoedd cyfryngau'r Deyrnas Unedig. Gall rhywfaint o'r effaith honno fod yn gadarnhaol, gan ysgogi buddsoddiad neu annog arloesi. Fodd bynnag, gall rhai newidiadau hefyd niweidio cystadleuaeth.

6.10 Fel rhan o'n proses BCA, rydym yn ystyried y pryderon posibl ynghylch cystadleuaeth a allai godi o ganlyniad i newid sylweddol i wasanaethau cyhoeddus y BBC. Bydd y rhain yn dibynnu ar y cyd-destun ond, yn y senario lle mae'r BBC yn cynyddu allbwn, maent yn debygol o gynnwys y pryder bod y BBC yn 'gwasgu allan' cystadleuwyr. Mae gwasgu allan yn cyfeirio at weithgareddau'r BBC yn lle gweithgareddau tebyg y gallai cwmnïau yn y sector preifat eu darparu. Yn fwy penodol, pan fydd y BBC yn cynnig gwasanaeth cyhoeddus newydd neu well, gallai hyn leihau'r gynulleidfa bosibl ar gyfer cystadleuwyr masnachol. Gallai hyn gael effaith ar refeniw cystadleuwyr a allai, yn ei dro, leihau proffidioldeb. Gallai effaith andwyol ar gystadleuaeth godi os bydd newid a wneir gan y BBC yn lleihau refeniw ac elw gweithredwyr masnachol i'r fath raddau fel ei fod yn effeithio ar eu gallu a'u cymhelliad i fuddsoddi mewn gwasanaethau newydd neu wella ansawdd gwasanaethau presennol. Mae'n bosibl y gallai hefyd olygu bod rhai gweithredwyr yn rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau neu'n cael eu hatal rhag ymuno â'r farchnad. Yn y pen draw, gallai hyn niweidio cynulleidfaoedd yn yr hirdymor drwy leihau dewis, ansawdd a/neu arloesi.

6.11 Rydym yn cydnabod nad gwasgu allan yw'r unig ffordd y gallai newid i'r BBC gael effaith ar gystadleuaeth. Risg arall yw y gallai gweithgarwch y BBC achosi effeithiau niweidiol mewn mannau eraill yng nghadwyn gyflenwi'r Deyrnas Unedig. Er enghraifft, mae rhai

[56] Neu efallai y byddwn yn cynnal asesiad byrrach gan ystyried elfennau o asesiad cystadleuaeth y BBC.

rhanddeiliaid wedi dadlau bod ehangu newyddion lleol ar-lein y BBC wedi cael effaith ar y farchnad swyddi ar gyfer newyddiadurwyr newyddion lleol, gan ei gwneud yn anoddach i gyhoeddwyr newyddion lleol masnachol recriwtio a chadw staff. Wrth asesu newidiadau'r BBC yn y dyfodol, byddwn yn asesu niwed posibl arall lle bo hynny'n berthnasol, ac rydym yn disgwyl i'r BBC wneud yr un fath.

6.12 Mae gweddill yr adran hon yn egluro'r fframwaith y byddem yn disgwyl ei ddefnyddio i asesu gwasgu allan os bydd y BBC yn cynnig newid perthnasol i'w wasanaeth newyddion lleol yn y dyfodol. Mae Ffigur 15 isod yn nodi'r camau lefel uchel y byddem fel arfer yn eu dilyn yn ein hasesiad. Mae'r asesiad yn cynnwys amcangyfrif effeithiau yn y dyfodol sy'n heriol gan fod rhagweld y dyfodol yn ansicr yn ei hanfod. Gall manylion yr asesiad amrywio o achos i achos, yn dibynnu ar y cyd-destun a'r newid sy'n cael ei ystyried.

6.13 Gan fod darparu newyddion lleol yn amrywio'n ddaearyddol (ee, mae nifer y darparwyr masnachol newyddion lleol yn amrywio o le i le), byddai angen i ni ystyried maint priodol yr ardal ddaearyddol ar gyfer pob asesiad penodol. Pan fydd newid yn cwmpasu sawl ardal, byddai angen i ni ystyried y posibilrwydd y bydd yr effaith yn amrywio yn ôl ardal ddaearyddol. Wrth benderfynu ar yr ardal ddaearyddol briodol ar gyfer ein dadansoddiad, byddai angen i ni ystyried y manteision posibl o gael golwg fanylach ar wahaniaethau mewn amodau cystadleuol ar draws ardaloedd yn erbyn dichonoldeb ac ymarferoldeb casglu data a chynnal dadansoddiad ar gyfer llawer o ardaloedd daearyddol posibl.

**Ffigur 15: Trosolwg o'r fframwaith asesu ar gyfer gwasgu allan**




6.14 Rydym yn trafod isod bob un o'r camau a amlinellir yn Ffigur 15. Y diben yw rhoi trosolwg o'r broses, felly nid ydym wedi trafod pob cam yn fanwl.

## Newid sydd ar goll o ran defnydd

6.15 Fel llinell sylfaen ar gyfer ein hasesiad, byddai angen i ni yn gyntaf ystyried pa ddefnydd o newyddion lleol (BBC a masnachol) fyddai'n absennol o unrhyw newid. Mae'n bosibl mai'r defnydd presennol yw'r procsi gorau ar gyfer ei ddefnyddio yn y dyfodol. Fodd bynnag, efallai y byddwn yn ystyried effaith datblygiadau hysbys yn y farchnad ac unrhyw dueddiadau sylfaenol sy'n effeithio ar wylio a/neu wrando sy'n debygol o barhau (ee, os yw'r defnydd yn gostwng yn raddol dros amser).

## Cynnydd yn y defnydd o newyddion lleol y BBC yn sgil newid

6.16 Nesaf, byddai angen i ni amcangyfrif y cynnydd yn y defnydd o'r BBC sy'n deillio o'r newid. Mae sawl dull posibl a bydd y mwyaf priodol yn dibynnu ar y cyd-destun. Er enghraifft, gellid amcangyfrif y cynnydd mewn defnydd ar sail y canlynol:

a) y gyllideb ychwanegol a/neu'r adnoddau a ddyrennir i'r gwasanaeth.
b) cynnwys ychwanegol a gynhyrchwyd (ee, yn achos newyddion lleol ar-lein, nifer yr erthyglau ychwanegol a gyhoeddwyd).
c) tystiolaeth o ymchwil defnyddwyr.
d) os yw'n berthnasol, tystiolaeth o effaith newidiadau blaenorol.

6.17 Efallai y byddwn yn defnyddio nifer o'r dulliau a nodir uchod. Byddwn yn casglu tystiolaeth i gyfrannu at ein barn lle bo hynny'n bosibl, gan gynnwys gwybodaeth gan y BBC am newidiadau yn y gorffennol lle bo hynny'n briodol.

6.18 Gall y BBC sbarduno newid drwy gyfuniad o wariant ychwanegol ac adleoli adnoddau presennol. Yn yr achos hwn, byddem yn poeni am y newid cyffredinol mewn allbwn (a fydd yn y pen draw yn pennu'r effaith gystadleuol), nid sut mae'n cael ei gyflawni. Efallai y byddwn hefyd am ystyried effaith unrhyw newidiadau cydamserol y mae'r BBC yn eu gwneud fel rhan o brosesau 'busnes fel arfer' (gweler paragraff 6.6), os yw'r rhain yn debygol o gynyddu effaith y newid rydym yn ei ystyried. Er enghraifft, os bydd y BBC yn newid ei gynnwys newyddion lleol ar yr un pryd â chynyddu ei amlygrwydd ar BBC iPlayer, BBC Sounds neu ap/gwefan y BBC (lle mae'r BBC yn ystyried yr olaf fel rhan o 'fusnes fel arfer').

## Dargyfeirio: o ble mae defnydd ychwanegol yn dod?

6.19 Byddem wedyn yn ystyried o ble mae'r defnydd ychwanegol o'r BBC yn debygol o ddod, hynny yw gwasanaethau y gallai hyn effeithio arnynt. Mae hyn yn debygol o gael ei dynnu (ei ddargyfeirio) o wasanaethau eraill y BBC (canibaleiddio) a gwasanaethau cystadleuwyr masnachol eraill. Mae nifer o ffactorau a fydd yn effeithio ar yr effaith ar y defnydd o wasanaethau cystadleuol:

a) I ba raddau y maent yn amnewidiol – mae gwasanaethau sy'n amnewidion agos (hynny yw yn cael eu hystyried gan ddefnyddwyr fel ffyrdd amgen o dreulio amser gwylio) yn debygol o gael eu heffeithio i raddau mwy helaeth.
b) A yw'r defnydd ychwanegol ar gyfer y BBC yn dod o amrywiaeth eang o wasanaethau neu'n dod o ychydig o wasanaethau penodol. Pan fydd defnydd ychwanegol yn cynnwys nifer o wasanaethau, mae'r effaith ar unrhyw wasanaeth unigol yn debygol o gael ei wanhau, ond pan fydd dargyfeirio'n cael ei ganolbwyntio ar ychydig o wasanaethau, mae'r effaith ar bob un o'r gwasanaethau hyn yn debygol o fod yn fwy sylweddol.
c) Potensial ar gyfer twf yn y farchnad – os bydd y BBC yn cynhyrchu mwy o allbwn newyddion lleol, mae'n bosibl y bydd defnyddwyr yn neilltuo mwy o amser yn gyffredinol i gael gafael ar newyddion lleol, yn hytrach na lleihau'r defnydd o ffynonellau masnachol

o newyddion lleol. Mewn geiriau eraill, gall defnyddwyr gynyddu'r amser a dreulir yn defnyddio newyddion lleol ar draul gweithgareddau eraill megis defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, darllen newyddion cenedlaethol ac ati. Lle mae pobl yn cynyddu'r amser y maent yn ei dreulio'n defnyddio newyddion lleol mewn ymateb i newid yn y BBC, bydd yr effaith ar ddarparwyr masnachol newyddion lleol yn is (efallai y bydd effaith ar rai gweithgareddau eraill - er bod hyn yn debygol o fod wedi ei wanhau).

d) Canibaleiddio – os yw'r defnydd yn cynnwys gwasanaethau eraill y BBC (ee gwylio newyddion cenedlaethol neu ryngwladol y BBC), bydd llai o effaith ar wasanaethau masnachol.

6.20 Efallai y byddwn yn edrych ar nodweddion gwasanaeth fel sail ar gyfer pa mor amnewidiadwy yw gwasanaethau masnachol a gwasanaethau'r BBC (er enghraifft, pa mor debyg yw'r gwasanaethau – i ba raddau mae darparwyr masnachol a'r BBC yn rhoi sylw i'r un newyddion lleol mewn ffordd debyg?). Byddwn hefyd yn defnyddio'r wybodaeth sydd ar gael am ddefnydd a dewisiadau gwirioneddol pobl.

6.21 Efallai y bydd modd cynnal ymchwil meintiol ymysg defnyddwyr i ddarparu tystiolaeth sy'n benodol i'r newid dan sylw. Er enghraifft, gofyn i bobl drwy arolwg faint o amser ychwanegol fydden nhw'n ei dreulio yn defnyddio'r gwasanaeth newydd ac, yn bwysig, beth fydden nhw'n ei wneud llai i hwyluso hyn. Mae'r arolygon hyn yn gofyn cwestiynau 'damcaniaethol' i ddefnyddwyr felly mae angen eu dehongli'n ofalus gan eu bod yn cael eu hawlio a gall ymddygiad gwirioneddol fod yn wahanol. Fodd bynnag, gallant roi syniad defnyddiol o'r effaith gymharol ar wahanol wasanaethau y mae newid yn effeithio arnynt. Dylai'r BBC ystyried a yw'n briodol ac yn gymesur cynnal ymchwil o'r fath yn ystod y cam Prawf Lles y Cyhoedd er mwyn deall yr effaith ar gystadleuwyr.

6.22 Rydym yn debygol o ganolbwyntio ar wasanaethau masnachol lle gallai effaith newidiadau'r BBC fod yn sylweddol, er enghraifft:

a) lle mae'r effaith ar y defnydd o'r gwasanaeth yn berthnasol, o'i gymharu â defnydd cyffredinol y gwasanaeth yn absennol o'r newid.
b) lle mae'r effaith ar ddefnydd yn debygol o leihau refeniw ac, yn y pen draw, elw (ee, mae cydberthynas rhwng refeniw a nifer y gwylwyr).

6.23 Mae'n annhebygol y bydd effaith ystyrlon ar gystadleuaeth lle mae'r effaith defnydd a/neu refeniw ar gyfer gwasanaethau a allai gael eu heffeithio yn fach iawn. Felly, bydd ein hasesiad yn canolbwyntio ar wasanaethau sy'n agos at newyddion lleol y BBC yn ein barn ni a/neu lle gallai'r effaith fod yn berthnasol.

## Effaith ariannol ar gystadleuwyr agos

6.24 Yna, mae angen i ni drosi'r golled mewn defnydd yn golled mewn refeniw. I wneud hyn, mae angen i ni ddeall y berthynas rhwng defnydd a refeniw. Mae hysbysebion a nawdd yn ffynonellau refeniw sylweddol ar gyfer radio lleol masnachol, teledu a gwefannau newyddion ar-lein lleol. Mae unrhyw ostyngiad mewn gwylio a/neu wrando yn debygol o gael effaith uniongyrchol ar refeniw hysbysebu. Fodd bynnag, nid yw'r berthynas yn syml ac mae angen i ni ystyried ffactorau sy'n berthnasol i'r achos penodol dan sylw. Mae angen i ni hefyd ystyried a allai ffynonellau refeniw eraill fel tanysgrifiadau neu roddion (ee, mewn perthynas â newyddion lleol ar-lein) gael eu heffeithio.

6.25 Byddwn yn ystyried unrhyw effeithiau refeniw yn eu cyd-destun, hynny yw mewn perthynas â refeniw cyffredinol.

### Effaith ar fuddsoddi ac arloesi

6.26 Pwrpas ein hasesiad yn y pen draw yw ystyried a yw newid i wasanaethau'r BBC yn arwain at ostyngiad yn refeniw ac elw darparwyr masnachol i'r fath raddau fel bod eu cymhellion i fuddsoddi ac arloesi mewn gwasanaethau newydd neu rai sy'n bodoli eisoes yn cael eu lleihau'n sylweddol.

6.27 Mae'r berthynas rhwng refeniw/elw a chymhellion i fuddsoddi/arloesi yn gymhleth ac yn gofyn am safbwynt mwy hirdymor ar ddatblygiad yn y sector a'r potensial i gystadleuwyr ymateb i newidiadau'r BBC. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd cystadleuwyr yn gallu ymateb i ostyngiad mewn refeniw drwy leihau costau neu fuddsoddi er mwyn cynnal proffidioldeb cyffredinol, neu fe allent wneud rhagor o fuddsoddiadau er mwyn gwella eu cynnig i ennill defnydd yn ôl. Gall newid sy'n arwain at symud defnydd o wasanaethau masnachol i'r BBC arwain at fuddsoddiad uwch, is neu gwbl wahanol gan ddarparwyr masnachol. Gallai danseilio hyfywedd rhai cystadleuwyr neu atal eraill rhag cystadlu. Rydym yn poeni am effeithiau a allai niweidio cynulleidfaoedd drwy leihau dewis, ansawdd neu arloesi.

6.28 Fel y disgrifir yn Adran 5, mae darparwyr newyddion lleol yn wynebu nifer o heriau, gan gynnwys pwysau ar refeniw a phroffidioldeb. Os bydd y BBC yn cynnig newid ei wasanaethau newyddion lleol sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar broffidioldeb darparwyr masnachol, byddwn yn tybio ei fod yn debygol o gael effaith negyddol ar fuddsoddiad ac arloesi oni bai fod tystiolaeth glir i'r gwrthwyneb.

# Ein gwaith sydd ar y gweill

## Monitro newidiadau'r BBC i newyddion ar-lein lleol

6.29 Yn 2022, cyhoeddodd y BBC gyfres o newidiadau o ran ei wasanaethau lleol a oedd yn cynnwys cynyddu allbwn newyddion ar-lein lleol ar draws gwefan ac ap y BBC ar gyfer Lloegr a lansio mynegeion newyddion lleol ar-lein newydd yn Peterborough, Wolverhampton, Bradford a Wear. Fe wnaethom adolygu asesiad perthnasedd y BBC ac, ar sail y wybodaeth a oedd ar gael bryd hynny, roeddem yn cytuno â'r BBC nad oedd y newid yn un a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, ac felly nad oedd yn newid perthnasol. Fe wnaethom ddweud y byddem yn monitro cynnydd ac yn casglu gwybodaeth gan y BBC a gweithredwyr masnachol i ystyried gwir effaith newidiadau'r BBC ar gynulleidfaoedd. Mae'r newidiadau i newyddion lleol ar-lein wedi cael eu cyflwyno'n raddol yn ystod 2023 a chwarter cyntaf 2024. Mae'n debygol y bydd yn cymryd peth amser i effaith newidiadau'r BBC gael ei theimlo'n llawn (ee wrth i ymwybyddiaeth o'r mynegeion lleol newydd gynyddu).

6.30 Fel rhan o'n proses fonitro, byddwn yn defnyddio data gan Ipsos Iris (sy'n mesur lefelau gwylio cyhoeddwyr digidol) ac yn casglu gwybodaeth gan y BBC (ynghylch ei arferion gwylio newyddion ar-lein lleol) i edrych yn fanwl ar y tueddiadau o ran cael gafael ar newyddion lleol ar-lein o fis Ionawr 2022 ymlaen. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddi lefelau gwylio newyddion ar-lein masnachol a'r BBC, yn ei grynswth ledled y Deyrnas Unedig ac ar lefel mynegai lleol y BBC. Byddwn hefyd yn edrych yn benodol ar y pedair ardal ddaearyddol lle mae'r BBC wedi cyflwyno mynegeion newyddion lleol newydd.

6.31 Dros y cyfnod hwn, mae'r BBC wedi gwneud newidiadau eraill a oedd, yn ei farn ef, yn 'fusnes fel arfer'. Yn ystod haf 2023, cyflwynodd y BBC bennawd newyddion lleol

("*Newyddion gan ...*") ar dudalen lanio ap BBC News, sy'n dangos newyddion lleol ar sail y cod post mae defnyddiwr yn ei roi pan fydd yn creu cyfrif gyda'r BBC. Efallai y byddem yn disgwyl i hyn gynyddu amlygrwydd newyddion lleol ar yr ap, a allai gynyddu lefelau gwylio. Roedd y BBC hefyd yn ei gwneud hi'n haws i ddefnyddwyr ddilyn cynnwys lleol, gan ychwanegu botwm "*Dilyn*" ar dudalennau pwnc lleol.

6.32 Yn ogystal â hyn, mae ffactorau allanol sy'n debygol o effeithio ar wylio newyddion lleol yn fwy cyffredinol. Fel y trafodwyd ym mharagraff 5.22, cafwyd adroddiadau bod atgyfeiriadau o Facebook i gyhoeddwyr newyddion wedi gostwng dros amser ac ym mis Rhagfyr 2023, cafodd Meta wared ar y tab newyddion Facebook ar gyfer defnyddwyr yn y Deyrnas Unedig. Mae darparwyr newyddion lleol hefyd wedi nodi bod newidiadau i algorithmau y platfformau, fel Facebook a Google, yn gallu effeithio ar amlygrwydd cynnwys newyddion a faint o draffig mae'n ei gael.[57]

6.33 O ystyried nifer y newidiadau sy'n effeithio ar lefelau gwylio newyddion lleol y BBC (a masnachol), mae'n annhebygol y byddwn yn gallu ynysu effaith y newidiadau penodol sy'n cael eu hystyried yn asesiad perthnasedd 2022. Mae rhanddeiliaid hefyd wedi tynnu sylw at yr anhawster o ynysu effaith newidiadau'r BBC oherwydd bod newidiadau ehangach yn y farchnad yn digwydd ar yr un pryd. Yn hytrach, bydd ein gwaith monitro yn edrych ar y tueddiadau o ran gwylio newyddion lleol ar-lein masnachol a'r BBC, a'r hyn mae'r dystiolaeth hon yn ei ddangos am y berthynas rhwng newidiadau yn lefelau gwylio newyddion ar-lein masnachol a'r BBC.

## Sut byddwn yn mynd i'r afael â'r argymhelliad a gyflwynwyd yn yr Adolygiad Canol Tymor

6.34 Mae'n hanfodol bod y BBC yn addasu ei wasanaethau fel y gall barhau i gyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus. Ond wrth wneud hynny, mae'n bwysig nad yw'r BBC yn cael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol nad yw'n cael ei gyfiawnhau gan y gwerth cyhoeddus y mae'r newid yn ei ddarparu. Yn y cyd-destun hwn, bydd ein hadroddiad terfynol ym mis Tachwedd yn nodi ein barn ar sefyllfa'r BBC yn y sectorau newyddion lleol (radio, ar-lein a theledu) a sut rydym yn debygol o fynd ati i ystyried effaith cystadleuaeth unrhyw newidiadau y bydd y BBC yn eu gwneud i wasanaethau newyddion lleol yn y dyfodol. Bwriad ein barn fydd helpu rhanddeiliaid i ddeall o ble rydym yn debygol o ddechrau wrth ystyried cwestiynau am effaith y BBC ar gystadleuaeth yn y sectorau newyddion lleol.[58]

6.35 Er mwyn cyfrannu at ein barn lefel uchel ar yr amodau cystadleuol yn y sectorau radio, teledu ac ar-lein lleol, byddwn yn defnyddio metrigau'r diwydiant ar ddefnydd. Bydd hyn yn cynnwys BARB (ar gyfer teledu) a RAJAR (ar gyfer radio). Fel y nodwyd uchod, rydym yn bwriadu edrych yn fanwl ar dueddiadau o ran gwylio newyddion ar-lein gan ddefnyddio data Ipsos Iris a'r BBC fel rhan o'n gwaith monitro, a bydd hyn yn helpu i lywio ein hasesiad. Byddwn hefyd yn defnyddio ein trafodaethau â rhanddeiliaid, ymchwil ymysg defnyddwyr a chyhoeddiadau perthnasol eraill.

[57] Pwyllgor yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 2023. Sustainability of local journalism, paragraff 76.

[58] Nid yw ein barn yn newid y broses reoleiddio y mae'n rhaid i bob un o'r BBC ac Ofcom ei dilyn wrth asesu newid arfaethedig i wasanaeth cyhoeddus. Bydd angen i'r BBC ac Ofcom ystyried effaith newidiadau penodol ar gystadleuaeth y mae'r BBC yn bwriadu eu gwneud fesul achos ac ystyried sut bydd y newidiadau penodol hyn yn effeithio ar gystadleuwyr.

# 7. Y camau nesaf

7.1 Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad terfynol ym mis Tachwedd 2024. Tan hynny, byddwn yn parhau i wneud y canlynol:

a) edrych ar dueddiadau o ran gwylio newyddion ar-lein ar gyfer darparwyr masnachol a darparwyr y BBC fel rhan o'n gwaith monitro;

b) ystyried unrhyw bwynt neu dystiolaeth newydd a gyflwynwyd i ni cyn diwedd mis Awst 2024;

c) ystyried cynaliadwyedd sector cyfryngau lleol y Deyrnas Unedig yn gyffredinol yn y dyfodol, a'i allu i ddarparu newyddion lleol er budd y cyhoedd; ac

d) archwilio'r posibilrwydd o arloesi, ymyrryd a chydweithio i sicrhau bod newyddion a gwybodaeth leol er budd y cyhoedd yn cael eu darparu'n barhaus ledled y Deyrnas Unedig.

7.2 Wrth wneud hynny, byddwn yn defnyddio'r sylfaen dystiolaeth gyfoethog a'r safbwyntiau niferus rydym wedi eu casglu gan randdeiliaid ar gyfer y rhan hon o'r adolygiad er mwyn cyfrannu at ein casgliadau.

7.3 Bydd yr adroddiad terfynol yn nodi'r canlynol: ein hasesiad o effaith unrhyw newid diweddar i wasanaethau ar-lein lleol y BBC, yr ydym yn eu monitro ar hyn o bryd; ein barn ar safle'r BBC yn y sectorau newyddion lleol; a'n dull o ystyried effaith newidiadau i wasanaethau newyddion lleol y BBC yn y dyfodol ar gystadleuaeth. Byddwn hefyd yn ystyried unrhyw newid a allai gefnogi'r sector yn gadarnhaol, ac mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion sy'n berthnasol i'r sector cyfryngau lleol yn ei gyfanrwydd. Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth a nodir yn y canfyddiadau rhagarweiniol hyn fel man cychwyn ar gyfer archwilio a chwestiynu'r materion allweddol, er mwyn helpu i ddatblygu ein safbwynt.